

ECO'R WYDDFA


Rhif 163

TACHWEDD 1990


Pris 25c

CAEL RHAN MEWN DRAMA RADIO

Erbyn hyn mae nifer helaeth o ddisgyblion Ysgol Brynrefail wedi cael profiad o fyd y ddrama, teledu neu radio. Y diweddaraf ohonynt yw Siôn Wyn Hughes. Llwyddodd Siôn i ennill rhan Eric Prys, prif gymeriad mewn drama radio yn y gyfres 'Ehangu Gorwelion'. Bu Siôn yng Nghaerdydd yn recordio'r rhaglen. Yno cyfarfu â sêr y cyfryngau yng Nghymru. Er iddo gael diwrnod hir a blinedig mae'n cyfaddef y buasai wrth ei fodd o dderbyn cyfle tebyg eto.



AGOR LÔN LAS PERIS



Bydd Maer Arfon, Y Cynghorydd Mrs Betty H. Williams, yn agor lôn las neu lwybr beicio cyntaf Cyngor Bwrdeistref Arfon yn swyddogol yn Y Glyn, Llanberis, ddydd Iau, Tachwedd y cyntaf — y diwrnod y daw'r Eco o'r wasg.

Dilynir y seremoni agoriadol gan dro neu daith fer ar feic ar y Lôn Las ar lan Llyn Padarn.

Crewyd y lôn las, sydd yn dri-chwarter milltir o hyd, gan y Cyngor ar gost o £9,500. Y mae'n darparu llwybr diogel di-draffig rhwng Y Glyn a hen dwnel y rheilffordd ym Mhenllyn. Bydd o fantais arbennig i'r anabl a theuluoedd ifanc.

Y mae'n lôn las yn arwain trwy rai o'r golygfeydd mwyaf trawiadol yn y fro a chrewyd sawl man eistedd er mwyn i gerddwyr blinedig gael mwynhau'r golygfeydd dros y llyn.

Crewyd y llwybr ar ran o gyn-reilffordd Cangen Llanberis a gaewyd yn 1963. Yn ogystal â nodweddion naturiol diddorol, y mae hysbysfwrdd yn Y Glyn yn dangos hen luniau o gyfnod y rheilffordd.

Dyma'r cam cyntaf o gynllun uchelgeisiol arfaethedig gan Brif Swyddog Cynllunio Cyngor Bwrdeistref Arfon, Dafydd Hughes, i greu Lôn Las Peris o Lanrug i Nant Peris cyn hir. Yn y flwyddyn ariannol hon bwriedir ymestyn y Lôn Las o'r Glyn, trwy Lanberis, i'r Amgueddfa Lechi, a gwella'r llwybr sy'n arwain i'r gogledd i Frynrefail.

Cysylltwch â Jim Woodcock, Caernarfon 673113 Est 561 am fwy o wybodaeth.

PRIF LENORION EISTEDDFOD LLANRUG



Nia Griffith, enillydd medal yr ifanc, a Robert Williams gyda thlws y gadair yng nghanol genethod o Ysgol Llanrug a berfformiodd y ddawns flodau yn ystod y seremoni i'w hanrhydeddu.

ALLAN I WELLA CRONFA



Doctrys a nyrsus o Ysgol Brynrefail a fu'n crwydro'r fro yn ddiweddar i geisio gwella cyflwr cronfa'r ysgol.

ECO'R WYDDFA

RHIF 163
TACHWEDD 1990

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon.

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru.

SWYDDOGION A GOHEBWYR GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:

Twrog Jones, Pros Kairon,
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU:

Dafydd Whiteside Thomas, Bron-y-
Nant, Pontrhyallt, Llanrug (C'fon
3515)

GOLYGYDD NEWYDDION

PENTREFI:

Nant Roberts, Arwel, Pontrhyallt
(870760)

GOLYGYDD CHWARAEON:

Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun
(Llanberis 872407)

ECO'R IFANC:

Mrs Nan Humphreys, Pant Bryngwyn,
Tanycoed (C'fon 5668)

DYDDIADUR Y MIS:

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (Waunfawr 200)

FFOTOGRAFFWYR:

Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669)

Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug
(C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION:

John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT:

Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL:

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:

Mrs E Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug (C'fon 4778)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r
bobl i gysylltu â nhw yn eich
ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran,
(Portdinorwig 670726)

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts,
Gerallt, Erw Wen (C'fon 3536)

CEUNANT: Gwenno Parri, Morwel
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W O Williams, 6 Rhyd-
fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D J Thomas, 8 Maes
Eilian (870773)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri, 870491.

LLANRUG: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn
Rhuddallt (Caernarfon 76733)

NANT PERIS: Mrs Ann Fleming,
Dolwen, 8 Nant Ffynnon (871457)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael
y Bryn. (872 276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (Waunfawr 570).

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, TACH 29

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS FAWRTH,

TACH 20

os gwelwch yn dda.

Y PLENTYN BACH

Dyma'r wybodaeth ar glawr y
llyfr:

'Llyfr am fod yn blentyn ac am
fod yn rhiaut yw **Y Plentyn
Bach**. Plentyndod yw'r adeg pan
fydd gennym fwyaf i'w ddysgu,
a phan fyddwn yn dysgu gyflym-
af; pan ydym fwyaf ystyfnig ac
eto yn fwyaf dibynnol ar eraill;
pan ydym yn gwybod leiaf eto'n
medru dychmygu fwyaf.

Mae plentyn ac oedolyn yn
aml yn rhannu teimlad o
ansicrwydd. Mae'r plentyn eisiau
ateb clir a phendant i'w
anghenion. Ond beth yw'r
anghenion hynny? A beth yw'r
ateb cywir?

Does dim rhyfedd bod yr
oedolyn hefyd yn chwilio am
gyfarwyddyd cadarn, llyfr
rheolau sy'n cynnig ateb syml i
bob cwestiwn, waeth pa mor
anaddas.

Nid y math yna o lyfr yw **Y
Plentyn Bach**. Er ei fod yn holi
cwestiynau, nid yw'n gosod
rheolau nac ychwaith yn rhoi'r
atebion 'cywir'. Yn hytrach,
mae'n eich cynorthwyo i weithio
pethau allan dros eich hun, a
thros eich plentyn.

Llyfr ydyw i rieni sydd am
deimlo'n ffyddiog a chyfforddus
gyda'u plant yn ystod y blynydd-
oedd cyffrous a blinedig rhwng
dwy a phump oed.


Mae'n llyfr ar gyfer Cymru'r
'90au. Mae'n ymwneud â'r
pryderon am fwyd a iechyd, plant
mewn perygl, ac yn archwilio'r
newid yn natur y teulu ei hun.
Mae'n dangos rheini wrth eu
gwaith ac adref, mewn sefyllfa-
oedd traddodiadol a newydd.

Mae eich plentyn yn tyfu i fyny
mewn cymuned ddwyieithog,
mewn Ewrop amlieithog. Mae'r
llyfr unigryw yma yn adle-
wyrchu'r amrywiaeth hwnnw.

Fe gymeradwyir y llyfr gan y
Mudiad Ysgolion Meithrin a'r
cyhoeddwy'r yw'r Brifysgol
Agored. Y pris yw £15.95 — ond
gellir ei gael am bris gostyngol o
£10.95 drwy'r Mudiad Ysgolion
Meithrin, 10 Park Grove, Caer-
dydd, Ffôn: 0222 236205.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR



DEWIS EANG O
WELAU SENGL A DWBL
DEWIS EANG O '3 PEICE SUITES'
LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'
GWAITH CONTRACT
5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI
MEWN STOC — ALLWCH CHI
FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?

Rhif Ffôn y Siop yn ystod oriau agor:
WAUNFAWR 291

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.

GLASLYN ANTIQUES

STRYD FAWR, LLANBERIS


PRYNIR A
GWERTHIR

Hen Bethau, Darluniau
a Dodrefn y gorffennol

FFÔN:
LLANBERIS
870080



Y PLENTYN BACH



Yr unig lawlyfr cynhwysfawr i rieni plentyn bach y '90au,
oddi wrth Y Brifysgol Agored yng Nghymru.
Gyda chymorth i ddysgwyr yr iaith.

PEN-GARDDWR



Mr Oliver Edwards, 93 Maes Padarn, Llanberis, oedd enillydd
Cystadleuaeth Gerddi Tai Cyngor y pentref eleni eto. Yn y llun uchod,
mae'n cael ei gyflwyno â chwpan gan gadeirydd Cyngor Llanberis, Mr
Elwyn Jones. Gweddill y canlyniadau dan golofn Llanberis.

NEWYDDION O YSGOL BRYNREFAIL

Penodwyd Sharon Williams o Ddeiniolen a Trystan Thomas o Lanberis yn Brif Ddisgyblion yr ysgol ar gyfer y flwyddyn academaidd bresennol. Iestyn Roberts, Ian Parry, Annwen Parry, i gyd o Lanrug a Katy Grant o Ddeiniolen fydd eu dirprwyon. Dymunir yn dda iddynt ar eu blwyddyn o waith yn arwain y chweched dosbarth yn yr ysgol.

Teuliodd pedwar disgybl o'r chweched uchaf ddeuddydd ym Mhrifysgol Aberystwyth yn ystod mis Medi. Cawsant gyfle i flasw bywyd academaidd a chymdeithasol y Coleg.

Ar ddechrau mis Hydref cafodd holl aelodau'r chweched dosbarth gyfle i wrando ar Mrs Branwen Jarvis yn sgwrsio am y Brifysgol ym Mangor ac am geisiadau i brifysgolion.

Ar ddiwedd Medi ymunodd y disgyblion sy'n astudio celf fel pwnc lefel A gyda disgyblion o Ysgol Tryfan i ymweld ag arddangosfa o waith Monet yn yr Academi Frenhinol yn Llundain.

Yn ôl pob hanes roedd yr arddangosfa yn bencampwaith a gymarodd ugain mlynedd i'w threfnu ac yn gyfle unwaith mewn oes i weld cymaint o waith yr arlunydd mewn un man. Ar wahan i'r profiad yma cawsant flasw gwaith yr arlunwyd mawr yn yr Oriel Genedlaethol. Wrth gwrs ni fyddai ymweliad â Llundain yn gyflawn heb gerdded o gwmpas y prif atyniadau i ymwelwyr; golygai hyn ddiwrnod blinedig ar y traed ond yn wledd o brofiadau celfyddydol.

Ar Hydref 8 croesawyd dau ar bymtheg o ddisgyblion coleg chweched dosbarth o Ddenmarc. Bu cysylltiad drwy lythyr â nifer o'n disgyblion cyn hyn a phan ddeallwyd eu bod yn bwriadu dod i Gymru, gan aros yn Llanberis, gwnaed trefniadau gan y chweched dosbarth i'w croesawu i'r ysgol. Prin fu'n amser i drafod yn ystod amser ysgol felly trefnwyd cyfarfod pellach gyda'r nos i barhau y sgwrsio a'r holi.

Bu'r cysylltiad yn un gwerthfawr a llwyddiannus iawn a phwy a wŷr, efallai cyn bo hir bydd ymweliad â Denmarc ar y gweill.

Daeth Cwmni'r Frân Wen i'r Ysgol ar Hydref 12. Cyflwynwyd prosiect ar AIDS i ddisgyblion y chweched dosbarth. Roedd y cynhyrchiad yn ymdrin â'r holl agweddau, rhagfarnau, ofnau a'r camagraffiadau sydd ynghlwm â'r pwnc.

Mynychodd deuddeg o wyddonwyr lefel A gynhadlodd ar beiranneg yn y Brifysgol ym Mangor. Roedd gweithgareddau'r diwrnod yn cynnwys darlithoedd acymarferion datrys problemau. Roedd Gerallt Jones a David Evans yn rhan o'r tîm ddaeth yn drydydd yn y gystadleuaeth gan ennill stereo personol bob un.

Yn ystod yr wythnosau nesaf mae croeso cynnes i drigolion y fro i ymuno â'r gynulleidfa yn yr ysgol. Cynhelir Eisteddfod yr ysgol nos lau, Tachwedd 8, ac ar Rhagfyr 19 cynhelir y Cyngerdd Nadolig.

Fe dreuliodd nifer o ddisgyblion

NODDI CYNGHRAIR BELDROED GWYRFAI



Achlysur cyflwyno siec gan Rheolwr Rhanbarthol Banc Nat West i Gynghrair Gwyrfaei sydd yn cael ei noddi y tymor hwn gan Banc Nat West. Rhes flaen (o'r chwith i'r dde): R. N. Williams (NWCFA); T. J. Roberts (Cadeirydd y Gynghrair); Hywel Roberts (Rheolwr Rhanbarthol); E. W. Jones (Trysorydd); Noel Williams (Ysgrifennydd). Rhes ôl: R. P. Roberts (Rheolwr Banc Nat West, Caernarfon); Dafydd Ellis. Llun gan Arwyn Roberts.

yr ysgol ddeuddydd yng nghanolfan Rhyd-ddu yn ystod y mis yn dysgu mynydda a chyfeiriadu.

Rhwng dydd Gwener Hydref 19 a dydd lau, Hydref 25 bu nifer o ddisgyblion yr ysgol sy'n aelodau o Fand Chwyth Ysgolion Gwynedd yn ymweld â'r Almaen. Buont yn aros gyda theuluoedd Almaenig yn nhref Bochum yn ardal y Ruhr. Ar daith gyfnewid yr oedent gydag Ysgol Gerdd y dref a chymerasant ran mewn pedwar cyngerdd.

Fore Llun cawsant dderbyniad

Swyddogol gan Fwrgermeister Cyngor Bochum. Bwriedid hefyd ymweld a dinas Munster. Y rhai ar y daith oedd: Dylan ac Elin Williams; Martin Ll. Williams, Dylan Hughes, Siân Griffiths, Siôn Wyn Hughes, Dyfed Whiteside Thomas; Sioned Meleri Owen; Gethin Parry; Rhodri a gwion ap Llwyd; Bryn Ceirion Jones, Aled Griffiths; Dylan Oswyn Williams ac Owen Tudur Davies. Arweinydd y band yw Mr Dennis Williams sy'n ymweld â'r ysgol fel athro offerynnol peripatetig.

LLUNGOPIO

Gwahoddir cymdeithasau ac unigolion y fro i ddefnyddio Gwasanaeth Llunogpio Ysgol Brynrefail

COST

8 geiniog am y copi cyntaf
5 ceiniog am gopïau ychwanegol

Manylion pellach oddi wrth
Y Swyddog Gweinyddol
Rhif ffôn: 672381

GWOBR MARCHOGAETH



Daeth llwyddiant i ran Gwyn Bowie Thomas o Bontrug — cyn-ddisgybl yn Ysgol Brynrefail, ar y Hydref 3 eleni. Enillodd y 'Jackson Shield Award' allan o 38 o ddisgyblion ar gwrs 5 mis yn Ysgol Hyfforddi Ceffylau yn Knightsbridge, Llundain — yr

Household Cavalry Mounted Regiment. Bydd Gwyn yn awr yn ymuno â band y 'Blues and Royals' yn Windsor.

Yn ddiweddarach yn yr un mis, cafodd Arwel Thomas, brawd ieuengaf Gwyn, y newyddion y bydd yntau hefyd

yn dilyn ôl troed ei frawd, oherwydd fe'i derbyniwyd i Ysgol Gerdd y Fyddin yn Pirbright. Mae Arwel yn aelod o Fand Llanrug, ac yn Pirbright bydd yn dilyn cwrs cerddoriaeth ar y cornet.

RHODDION

Gyda diolch i'r canlynol am eu cyfraniad i gronfa'r 'Eco'.

£5: Sandra a Neil ac Ella Wyn, Graianfryn, Waunfawr; Mrs Eirlys Jones, Bryn Hyfryd, Penisarwaun; Mrs Frank Reynolds, Hereford (gynt o 6 Maesgerddi, Tanycoed); Kathy a Tom Jones, Llys Tryfan, Gwalchmai; Miss Annie May Williams, Llys Arfon, Brynrefail; Mr a Mrs Stephen Bryn Jones, Deiniolen.

£3: Llion ac Elisabeth Price, Vulcan, Deiniolen.

£2: Einir Thomas, 9 Stryd y Ffynnon, Llanberis; Ceinwen Williams, Rhos Cambrian, Llanberis; Teulu 2 Bryn Teg, Llanberis; Mr Derek Jones, 62 Maes Padarn, Llanberis; Mrs Mary Davies, 9 Llys y Gwynt, Penisarwaun.

£2: Mrs J. Griffith, Pant Tirion, Llanrug.

£1: Mrs C. Williams, 25 Hafan Elan, Llanrug.

YSTORFA MINFFORDD STORES

**GAEATHRO
GAERNARFON**

YR HEN BOST
1887-1987
AR TYRPEG
1817-1886

Nwyddau Groser

Prynwyr a Gwerthwyr Hen Bethau

Llafar

'PWY YW FY NGHYMYDOG?'

Rhoes y rhaglen deledu 'Y Byd ar Bedwar' sylw arbennig i un o broblemau cael tai i unigolion a theuluoedd di-gartref o fewn ein bro, gan ganolbwyntio ar un landlord a nifer o dai o'i eiddo ym mhentrefi Deiniolen a Llanrug. Roedd cyflwr y tai a ddangoswyd ar y rhaglen yn echrydus: lleithder yn llifeiriant ar y parwydydd, diffygion yn y sustemau dŵr poeth a'r toiledau, a llawer o fân atgyweiriadau eraill heb eu cwblhau.

Ar y naill law, dadleuai'r landlord fod cyflwr y tai yn 'fodhaol' cyn iddynt gael eu gosod i'r tenantiaid presennol, ac mai hwy fu'n gyfrifol am eu cam-drin. Ar y llaw arall, dangoswyd gan y rhaglen fod landlordiaid yn gallu manteisio ar sefyllfa eu tenantiaid. Roedd y landlord dan sylw yn cyfaddef mai dim ond pobl yn derbyn nawdd cymdeithasol a oedd ef yn ei ystyried fel tenantiaid. Ei reswm dros hyn oedd ei sicrwydd o rent rheolaidd o swyddfeydd nawdd cymdeithasol. Ac y mae cyfanswm y rhent hwnnw ar ei niferoedd tai yn golygu rhai cannoedd o bunnau yr wythnos.

Polisiau a chyfyngiadau ariannol y llywodraeth bresennol sy'n galluogi landlordiaid di-egwyddor o farus i elwa ar sefyllfa'r anffodusion o fewn ein cymdeithas. Mae Cyngor Arfon, fel yr Awdurdod Tai lleol yn ymwybodol o'r sefyllfa, ac yn ceisio gweithredu o fewn eu gallu ynglŷn â'r broblem. Ond mae'n amhosibl i Awdurdodau Tai fel Cyngor Arfon ddarparu tai o safon dderbyniol gogyfer â phob unigolyn a phob teulu di-gartref. Yn wir, o fewn yr hinsawdd economig bresennol, a grewyd gan y 'caring Conservatives' mae stoc tai cyngor yr Awdurdod Tai lleol wedi crebachu i'r fath raddau fel bod perygl iddynt gael eu herlid yn ôl y 'Trades Descriptions Act'.

Yn y cyfamser, mae pobl yn dioddef.

Deallwn fod Cynghorau Cymuned Llanddeiniolen a Llanrug eisoes wedi gohebu â Chyngor Arfon ynglŷn â'r broblem. Rhaid canmol y cynghorwyr bro rheini sy'n effro ac yn ymwybodol o broblemau eu milltir sgwâr. Ond rhaid cyfaddef hefyd, mai prin yw'r gobeithion y gwelir gweithredu ymarferol er lles y rhai hynny o fewn ein cymdeithas sy'n dioddef effeithiau y sustem Rachmanaidd hon. Yn wir, pe cai'r holl dai ansafonol hyn eu casglu ynghyd, yna fe geid o fewn ein bro, dref shanti i'w chymharu â rhai o favelas a barriados torcalonnus y Trydydd Byd.

Ond wrth gwrs, hanner awr o raglen deledu oedd y cyfan i ddarllenwyr cysurus yr 'Eco'. Ac fe wnawn ni barhau i brynu dillad yn y siop honno yng Nghaernarfon — wnawn ni?

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion	Molchi, cribo a chlipio
Anifeiliaid anwes bychan	cwn a chathod
Pysgod dwr oer	o bob math
Offer pysgota	gan arbenigwr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

CABS LLANRUG



C'fon 5951

Prisiau cystadleuol
Gwaith contract
pell ac agos

PYMTHEG CYNLLUN YN ROWND DERFYNOL CYSTADLEUAETH 'MENTER'

Mae pymtheg o gynlluniau gan grwpiau o wirfoddolwyr wedi cyrraedd rownd olaf cystadleuaeth Menter Cymuned Gwynedd, sy'n cynnig £1000 mewn gwobrau.

Pwrpas y gystadleuaeth, a drefnwyd gan Wasanaethau Gwirfoddol Gwynedd, ac a noddwyd gan Shell UK Cyf., yw cefnogi a gwobrwyo prosiectau sy'n gwella bywyd y gymuned mewn ardaloedd gwledig.

Bu'r Cynghorydd Morgan Vaughan, Cadeirydd Cyngor Sir Gwynedd, ac Eileen Fennell, o Shell UK ar daith deuddydd i ymweld â'r cystadleuwyr olaf hyn i benderfynu pa gynlluniau fyddai'n derbyn y prif wobrau.

Mae tri chystadleuwr ymhob ardal:

Aberconwy: Llyfrgell Deganau Conwy; Cymdeithas Mencap Llandudno a'r Cylch; Neuadd Bentref Trefriw.

Ynys Môn: Croeslon Ynys Môn; Prosiect Tyddyn Môn; Clwb Amlwch a'r Cylch i'r Anabl o Gorff.

Arfon: Clwb Ieuencid Caernarfon lle gall pobl ieuanc gadw trefn yn eu bar eu hunain, gan werthu dim ond diodydd di-alcohol. **Neuadd Bentref Bethel** lle mae gwirfoddolwyr ar frys i godi arian i adnewyddu gwaith coed y neuadd sy'n pydru o'u cwmbras. **Menter Fachwen** prosiect ar lechwedd bryn ger Parc Gwledig Padarn sy'n anelu i baratoi gwaith addas a gwirioneddol i rai anabl eu meddwl.

Dwyfor: Papur Llafar Dwyfor; Trash Bash (Helfa Sbwriel); Canolfan Gymdeithasol Porthmadog.

Meirionnydd: Prosiect Jig-so Llan Ffestiniog; Help Llaw Dolgellau; Theatr Fach

ANTUR PADARN

Mewn cyfarfod o Antur Padarn a gynhaliwyd yn Angorfa, Llanberis ar nos Fercher, Hydref 3, cytunwyd i symud ymlaen i drefnu cystadleuaeth ar gyfer llunio logo ar gyfer yr Antur. Deallwn bod manylion llawn am y gystadleuaeth yn ymddangos yn y rhifyn yma o'r Eco.

Hefyd penderfynwyd anfon gair o ddiolch at Gyngor Cymuned Waunfawr am eu rhodd ariannol o £60 tuag at waith yr Antur.

Adroddwyd bod y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd wedi trefnu i gyfarfod â Dr Liz Hughes, Coleg y Brifysgol, Aberystwyth sydd yn gobeithio cynorthwyo'r Antur gyda'r gwaith o ddadansoddi canlyniadau yr holiadur. Y gobaith yn awr, os sicrhair cymorth ariannol, yw symud ymlaen yn gynnar ym mis Tachwedd i argraffu'r holiadur a'i ddosbarthu o gwmpas yr holl bentrefi yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

Cynhelir cyfarfod nesaf yr Antur ar nos Fercher, Tachwedd 7, yn Angorfa, Llanberis.

Dolgellau.

Mae'r holl gystadleuwyr yn dangos yr amrywiaeth o weithgareddau sy'n agored i'w cyflwyno i'r gystadleuaeth.

Llythyr

TEITHIAU TYWYS YN Y PARC CENEDLAETHOL

Annwyl Olygydd,

Ga i fanteisio ar eich papur i anfon neges, os gwelwch yn dda? Chwilio am bobol yr ydwi i ac mae gen i deimlad go sicr eu bod nhw ymhlith eich darllenwyr chi. Rydw i eisio pobl i arwain Teithiau Tywys i ymwelwyr y flwyddyn nesa, arwain un daith neu fwy — mae'r dewis iddyn nhw.

Bu'r Parc yn rhedeg rhaglen o Deithiau Tywys ers blyneddau — teithiau cyffredinol o gerdded gwlad gan sylwi a thrafod hyn a'r llall sy'n berthnasol i amgylchedd y Parc.

Y flwyddyn nesa, fodd bynnag, rydym ni am newid gogwydd i raddau a datblygu rhaglen o deithiau mwy thematig, e.e. hoffwn deimlo fod **cyrchfan** neu **uchafbwynt** arbennig i bob taith. Gall yr uchafbwynt fod yn ymweliad â llecyn neu adeilad neu berson — crefftwr, efallai, neu berchennog rhyw grair go hynod neu rhywun â stori dda i'w hadrodd.

Chi wylwch orau beth sydd gennych i'w gynnig yn eich ardal fydd yn dedstun diddorol i griw i gyrchu tuag ato ar 'brynhawnddydd teg o haf hirlfelyn tesog' (gobeithio). Dowch a'ch syniadau ac efallai y bydd deunydd gwych yn y rhai mwyaf anhebygol.

Teuluoedd ar eu gwyliau fydd y rhelyw o'r rhai sy'n ymuno â'n teithiau a sgaentiad go dda o dramorwyr fel arfer yn eu mysg.

Felly, ga i'ch annog i fynd ati ar unwaith i grafu pen ac i gysylltu â i os hoffech drafod syniadau? Gorau po gyntaf i ni gael y maen i'r wal, wrth gwrs, ar gyfer rhaglen y flwyddyn nesa.

Gobeithio y byddwch yn gweld hwn fel cyfle i rannu ein diwylliant â dieithriaid — ac i lenwi ambell awr hamdden, o bosib. Fe fydd yna gydnabyddiaeth ariannol am y gwaith.

O.N. Mae ein rhaglenni min nos o ddysgu Caneuon Cymraeg i ymwelwyr yn llwyddiannus yn Nolgellau, Aberdyfi, Beddgelert a Betws y Coed, ac os oes rhywun am gynnig help i sefydlu hyn yn unrhyw le arall yng nghyffiniau'r Parc Cenedlaethol, rhwch wybod i mi. Melys moes mwy!

Diolch am wrando,
MARIAN REES,
Swyddog Hysbysrwydd Parc Cenedlaethol Eryri,
Swyddfa'r Parc,
Penrhyndeudraeth
Ffôn (0766) 770274/770701.

DINORWIG

Mr D. J. Thomas, 8 Maes Eilian

Pan oeddwn yn ysgrifennu am yr Eisteddfod Genedlaethol ddiwethaf roeddwn wedi bwriadu gwneud cyfeiriad at deulu Tŷ'r Ysgol ar sail yr hyfrydwch a gefais o weld Mrs Annette Bryn Parry ar y llwyfan fel un o gyfeilwyr swyddogol yr Eisteddfod.

Fe deimlwn bod hyn yn wir anrhydedd i un o ardal fechan fel Dinorwig.

Roedd Mr Ifan Bryn Roberts ei thad ar yr un llwyfan fel aelod o Gôr Meibion y Penrhyn. Yr ydym yn byw mewn cyfnod pan mae rhif y corau yn lleihau a'r mwyafrif cynyddol yn dibynnu ar y teledu am eu hadloniant.

Er yn cydnabod bod rhai pethau ardderchog ar y teledu, mae'n rhaid cyfaddef yn ogystal bod safon rhai o'r rhaglenni heb fod mor uchelgeisiol. Cofiw'n ar yr un pryd bod rhaid i'r cyfryngau baratoi ar gyfer gwrandawyr ac edrychwyr ac i wahanol safonau mewn celfyddyd.

A minnau'n ysgrifennu ym mis Hydref, teimlwn mai buddiol yw sôn am gyrddau blynyddol y Feibl Gymdeithas a gynhaliwyd eleni yn Eglwys Crist, Llandinorwig.

Plant yr ardal o wahanol gapeli ac Eglwysi oedd yn cyfrannu at lwyddiant oedfa'r plant, a'r dewis o eitemau wedi ei ymddiried i'r rhai oedd yn eu hyfforddi. Yn naturiol ac yn anorfod efallai, roedd mesur o ail adrodd yr un emynau a thonau.

Pe byddai un trefnydd yn cynllunio rhaglen ar gyfer eglwysi'r cylch eang hwn ac yn nodi pa beth y gallai'r gwahanol eglwysi eu cyflwyno, fe ddichon y gellid osgoi'r duedd hon i ail adrodd.

Ar ddechrau'r cyfarfod roedd y Parch Tegid Roberts wedi sôn bod yr Eglwys fawr hon yn lle anodd i'r plant i'w gwneud eu hunain yn glywadwy a'r adeilad, oherwydd ei faint yn llyncu lleisiau.

Y pwynt y dylid ei gofio yw bod rhaid cyflyrru'r neges i'r adeilad cyn y gellid ei gwneud yn effeithiol. Mae'n haws wrth gwrs beirniadu na chynnig cynllun ymarferol o'r teip hwn o raglen.

Mrs Gwen Hughes, Y Fron oedd cyfeillydd y pnaen.

Cymanfa Ganu oedd y trefniant i'r Oedfa Hwylol. Eleni Mrs Ann Ifans, Penisarwaun oedd yn arwain

a Miss Lowri Prys Roberts, Brynrefail a wasanaethai wrth yr organ. Cafwyd eitemau gan barti o ferched ifanc o Lanberis — llawer ohonynt yn ferched i'r rhai a fu yn barti hŷn o Lanberis; fe'u hyfforddwyd gan Mr John Hugh Hughes.

Mr Ifor Glyn Ifans, Afon Goch oedd yn gofalu am y defosiwn ac yn cyflwyno'r rhai oedd yn gwasanaethu.

MARWOLAETH: Trist oedd clywed am farwolaeth sydyn Mrs Ada E. Thomas, 8 Maes Eilian ar Hydref 20fed. Roedd yn briod â David John Thomas (gohebydd lleol yr Eco. Wedi gwasanaeth maith fel gofalwyr yn Nhŷ Capel Sardis, bu i'r teulu symud i fyw i Maes Eilian.

Mae ein cydymdeimlad yn ddidwyl iawn â'r teulu.

CYMDEITHAS UNDEBOL DINORWIG: Agorwyd tymor newydd o'r Gymdeithas yn y ganolfan nos Fercher, Hydref 17eg, gyda chyngerdd gan Barti Meibion Dwyfor, o dan arweiniad Mr John Eifion Jones.

Cawsom groesawu un o feibion yr ardal, sef Mr Thomas Elwyn Parry, Llandrillo-yn-Rhos fel Llywydd y noson. Hyfryd oedd clywed ganddo am ei atgofion am y dyddiau a fu.

Cafwyd gwledd o ganu gan y Parti ac unigolion; noson ddifyr iawn oedd profiad pawb a oedd yn bresennol.

Croeso cynnes i ymuno â ni fel Cymdeithas trwy gydol y tymor. DIOLCHGARWCH: Cafwyd cwmni y Parchedig John Gwilym Jones, Bangor, yn Sardis brynhawn Sul, Hydref 21ain. Yn yr hwyr bu plant yr eglwys yn cymeryd rhan mewn Cân a Drama. Dosbarthwyd y ffrwythau a'r blodau a fu yn addurno'r capel i oedolion a chleifion yr eglwys gan y plant.

EISTEDDFOD BENTREF: Eleni bydd yr Eisteddfod yn cael ei chynnal ar nos Fercher, Rhagfyr 5 yn y Ganolfan leol. Bydd y noson yn cychwyn am 6.30. Hon fydd y bedwaredd flwyddyn yn olynol i'r Eisteddfod gael ei chynnal ac mae'r rhagolygon eto eleni yn edrych yn addawol iawn.

Fe ddylai pawb sydd a diddordeb fod wedi derbyn y testunau erbyn hyn ac fel arfer y gobaith yw bod cystadlaethau ar gael at ddant



Stephen Bryn Jones, 4 Bro Elidir, Dinorwig, a Glenys Jones o Crossing House, Pwllheli, a briodwyd yn ddiweddar yn Eglwys St Pedr, Pwllheli.

pawb.

Os nad ydych wedi derbyn eich copi o'r testunau yna cysylltwch yn ddioed â'r trefnydd, Glyn Tomos.

PWYLLGOR Y GANOLFAN: Cynhaliwyd cyfarfod o bwyllgor y Ganolfan ar y 9fed o Hydref a chafwyd cyfle i drafod sawl mater yn ymwneud â'r Ganolfan a'r pentref yn gyffredinol.

Adroddwyd bod y gwaith o ddymchwel y toiledau yn iard y Ganolfan wedi ei wneud ond bod angen twtio y wal sydd ar ôl. Eisoes fe ysgrifennwyd at y Cyngor Sir yn tynnu eu sylw at hyn.

Nodwyd mai dal i ddisgwyl am ateb gan Heddlu Gogledd Cymru am yr angen i osod arwydd 30 milltir yr awr ar y ffordd i mewn i'r pentref, yr oedd y pwyllgor. Eisoes mae'r Cyngor Cymuned a Llywodraethwyr Ysgol Gwaun Gynfi wedi cefnogi cais o'r fath.

Mynegwyd yr angen i wella ar y cyfleusterau i'r plant yn y cae chwarae. Gofynnwyd i'r rhieni ofyn i'r plant sut fath o offer chwarae yr hoffent ei weld yn cael ei ychwanegu at yr hyn sydd yn y cae ar hyn o bryd.

Penderfynwyd symud ymlaen i osod arwydd 'Y Ganolfan' uwchben y fynedfa i'r Ganolfan.

Yna ar y diwedd cytunwyd i ofyn i'r Cyngorydd Sir, Mrs Pat Larsen, a'r Cyngorydd Dosbarth Mr Jacob James, i ddod i gyfarfod nesaf y Pwyllgor sydd i'w gynnal ar nos Lun, Tachwedd 26ain am 7.00 yn y Ganolfan. Y bwriad yw codi materion sydd yn pryderu'r

ardalwyr ac mae gwahoddiad yn agored i bawb sydd yn dymuno dod i'r cyfarfod hwn.

EGLWYS ST. MAIR: Sicrhawyd Gŵyl Ddiolchgarh arbennig iawn eto eleni, y tro yma yng nghwmni y Parch John Gillibrand, Curad Plwyf Llanbeblig, Caernarfon, gyda'r Parch Tegid Roberts yn cynorthwyo.

Pleser o'r mwyafrif oedd clywed gŵr ifanc sydd wedi trafferthu i ddysgu ein hiaith a gwneud hynny gyda'r fath arddeliad a dycnwch. Cafodd pawb oedd yn bresennol yn yr oedfa wefr fawr o wrando arno.

Gan ddiolch i bawb am y llyisiau a'r ffrwythau ac i'r merched am addurno'r Eglwys, trefnwyd bod y cynnyrch i gyd yn cael eu cyflwyno i gleifion Ysbyty Bryn Beryl, Pwllheli.

PRIODAS: Yn Eglwys Sant Pedr, Pwllheli, dydd Sadwrn, Medi 15fed, priodwyd Stephen Bryn Jones, mab Mr a Mrs L. Jones, 4 Bro Elidir, Dinorwig, â Glenys Jones, merch Mr a Mrs E. J. Jones, Crossing House, Ffordd Abererch.

Gweinyddwyd gan y Ficer, y Parch Roger F. Donaldson a'r organyddes oedd Mrs Annette Bryn Parry.

Y morwynion oedd Anwen Bryn Jones (chwaer y priodfab); Mandy Louise Griffiths (nith y briodferch); Allison Marie Williams; Tracy Jones (nithoedd y briodferch) a'r forwyn fach oedd Caryl Williams.

Mr Robert Kelvin Williams (cyfaill y priodfab) oedd y Gwas, a'r Ystlyswyr oedd Alun Jones (brawd y briodferch) a Kevin John Jones (brawd y priodfab).

Cyflwynwyd Pedolau arian lwcus gan Michelle, Nicholas, Mathew, Tina, Luke, Mark, Caryl, Wesley, Heledd, Ynyr, Bedwyr ac Anwen.

Cynhaliwyd y wledd yng Ngwesty Plas Gwyn, Pentrefelin, gyda 98 o wahoddedigion.

Treuliwyd y melrawd yn Orlando a'r Bahamas. Bydd y pâr priod yn cartrefu yn Neiniolen.

Mae'r priodfab yn gweithio yn Folkestone ar waith adeiladu twnel y Sianel, ac mae'r briodferch yn cynorthwyo ei thad ym musnes taci y teulu.

DIOLCH: Dymuna Stephen a Glenys ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl anrhegion a chardiau a dderbyniwyd ar achlysur hapus eu priodas ar y pymthegfed o Fedi. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen Williams)

Ffôn: Caernarfon 2790

Sylwch ar ein horiau agor hwylus:

Sul 9 - 12.30
Llun - Gwener 7.30 am - 6 pm
Sadwrn 8 am - 8 pm

Nid oes unrhyw dâl am ddanfôn ordor i'ch cartref yn ardal Llanrug.

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,

Peis, Rholiau Sosej,

Pasteiod, Teisennau Hufen,

Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

DEINIOLLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259

SEINDORF: Llongyfarchiadau i'r Seindorf ar ennill Gwobr Goffa W. S. Gwynn Williams. Mae hon yn anrhydedd arbennig iawn, oherwydd ei bod drwy Gymru gyfan. Penodwyd y Seindorf gan Ffederasiwn Cerddoriaeth Amatur Cymru am ei gwaith, yn bennaf gyda'r ieuencid. Mae plant mor ifanc â saith oed yn cael cyfle i ddysgu'r offerynnau, ac hefyd i ddarllen cerddoriaeth.

Dydd Sadwrn, Hydref 13, bu'r Seindorf yn brysur iawn yn y Bala yn cyhoeddi Eisteddfod Powys a'r Cylch 1991.

Gorymdeithiwyd yn y prynhawn ac yna cyngerdd yn yr hwyr dan arweiniad Mr Dafydd Williams.

Mae deg aelod o'r Seindorf ieuengaf ar ymweliad â'r Almaen gyda Band Chwyth Gwynedd. Pob hwyl iddynt.

Bydd y gystadleuaeth nesaf ym Mhencampwriaeth Gogledd Cymru yn Llandudno yn mis Rhagfyr, lle y bydd y ddwy Seindorf yn cystadlu.

GWERTHFAWROGIAD: Llongyfarchiadau i Alaw Mari Huws, 8 Tai Faenol am ennill gwobr arbennig yn ystod misoedd yr haf. Rhodd ydoedd o Docyn Llyfr gan y Prifardd Selwyn Griffith i'r plentyn oedd yn gwneud y gwaith gorau yn y Gymraeg, fel gwerthfawrogiad o gyfraniad plant yr ysgol yn y Noson Deyrnged, yn dilyn Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst. Dewiswyd Alaw gan athrawon yr ysgol.

CYFARFOD PLANT DEINIOLLEN: Deg allan o ddeg i blant Deiniolen a'u teuluoedd am gefnogi'r Cyfarfod Plant a dangos esiampl i weddill yr ardal.

Cyfarfu 60 o blant rhwng 4 ac 11 oed yn festri capel Ebeneser brynhawn lau, Hydref 11 i ailgychwyn tymor arall o weithgareddau dan arweiniad y Parchedig John Pritchard. Roedd y festri yn llythrennol dan ei sang a bu Anti Ruth wrthi'n chwys domen yn darparu diodydd i'r cantorion sychedig!

Mewn cyfnod lle mae cwyno parhaus am ddiffyg brwdfrydedd a chefnogaeth i gyfarfodydd crefyddol, hoffem dynnu sylw darllenwyr yr Eco ac aelodau eglwysig o bob enwad at lwyddiant yr ymgyrch Undebol hon yn

Neiniolen — ymdrech gan dîm egniol o blant, oedolion a rhieni ffyddlon sy'n fodlon troi allan ym mhob tywydd i gymryd rhan yn yr hwyl. Yn ddi-os, cyfrinach llwyddiant menter fel hon yw'r cyd-weithio a chyd-dynnu rhwng aelodau'r tîm. Diolch i bawb am eu cyfraniad, boed fach neu fawr.

Dyma fanylion y cyfarfodydd wythnosol bob dydd lau yn ystod tymor yr ysgol:

Plant dosbarthiadau 1, 2 a 3 — o 3 hyd 4 o'r gloch; Plant Safon 1, 2, 3 a 4 — 3.30 hyd 4.30. Croeso cynnes iawn i bawb.

Dalier Sylw! Mae pob pâr o ddwylo ychwanegol yn hwyluso'r gwaith. Gorau po fwyaf o enwau oedolion sydd ar y rhestr rota i helpu gyda'r nifer fawr o blant sy'n dod atom. Felly, os medrwch chi sbario rhyw awr unwaith y mis, cysylltwch â ni yn Ebeneser ar brynhawn lau neu â'r Parchedig John Pritchard ar Llanberis 872390.

YSGOL FEITHRIN: Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol yr Ysgol Feithrin nos Fercher, 3 Hydref gyda Mr Gwyn Parri yn cadeirio. Roedd nifer fawr o rieni'n bresennol eleni.

Amlinellwyd y gweithgareddau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, a chafwyd adroddiad ariannol.

Etholwyd y canlynol yn aelodau o'r pwyllgor am 1990-91: Mr Gwyn Parri (Cadeirydd); Mrs Nia Williams (Trysoryddes); Mrs Cheryl Ward (Ysgrifynyddes); Mrs Falmi Williams; Mrs Elan Williams; Mrs Siân Williams; Mrs Carol Jones; Mrs Debbie Guy; Mrs Cath Thorman Jones; Mrs Tracy Demicoli.

Penderfynwyd gwahodd un o aelodau staff Ysgol Gwaun Gynfi i ymuno â'r pwyllgor.

Ar ôl gwyliau'r Diolchgarwch, bydd yr ysgol ar agor am 2½ awr bob bore, yn hytrach na dwyawr. Hefyd, bydd yr ysgol ar agor bob p'nawn Mawrth, Mercher a Gwener. Ar ddydd lau, mae'r grŵp Mam a'i phlentyn yn cyfarfod.

Cynhelir noson Tân Gwylt yn yr ysgol, nos Lun, Tachwedd 5, pryd y darperir lluniaeth. Croeso cynnes i bawb.

CRONFA'R ASTHMA: Cynhaliwyd pwyllgor lleol o'r Gronfa Asthma nos Fercher, Hydref 10. Pleser yw cael cyhoeddi ein bod o'r diwedd wedi archebu 3 Nebulizer ac 1

Nebulizer Compressor i'r clinig lleol, ac wedi talu £527 o bunnau amdanynt o'r gronfa. Hefyd rydym yn falch iawn o gael dweud eu bod yn cael defnydd yn barod.

Ein bwriad yn awr yw anfon am dapiau fideo i ddangos i blant sut i ddefnyddio'r pwmp neu'r 'inhalers'.

Os oes rhywun eisiau gwybod-aeth ynglŷn â benthycu'r peiriant ewch i'r clinig yn Ffordd Deiniol i holi a chael gair gyda'r meddyg teulu.

CLWB ELIDIR: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Clwb ar Hydref 2, dan lywyddiaeth Mrs Eirlys Ll. Jones. Treuliwyd prynhawn difyr yn gwrando ar Mrs Jennie E. Williams a Mrs Eirlys Ll. Jones yn dweud hanes eu gwyliau yn Oberammergau ac yn dangos lluniau o'r Pasiant.

Diolchwyd iddynt gan Mrs Ellen Williams. gwesteion y te oedd Mrs Edna Coles, Mrs Dolly Brown a Mrs Pat Evans. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Edna Coles a'r enillydd oedd Mrs Megan P. Morris.

Cafwyd rhodd deilwng o £20 gan Mrs Valmai Williams a'r teulu er cof am y ddiweddar chwaer Mrs Maggie Jones a fu yn aelod ffyddlon o'r Clwb.

Diolch hefyd i Mr R. Thomas Jones, Rhydfadog, am ei haelioni parhaus i ni trwy gydol y flwyddyn.

Cafwyd cyfarfod arall ar Hydref 16 dan lywyddiaeth Mrs Eirlys Ll. Jones, pryd y cynhaliwyd Oedfa Ddiolchgarwch. Cymerwyd rhan gan y chwiorydd canlynol: Mrs Alwen Jones, Mrs Jennie Williams, Mrs Jane Jones, Mrs Dolly Brown,

Mrs Eirlys Ll. Jones, Mrs Megan P. Morris, Miss Jean Moeller, Mrs Ellen Williams a Miss Eileen Williams. Y gyfeilyddes oedd Mrs Betty W. Davies.

Cafwyd gwledd ar ôl y Gwasanaeth trwy garedigrwydd Sefydliad y Merched yn ôl eu haelioni i ni bob blwyddyn, a diolch i Mrs Glenys Williams a Mrs Kathleen Davies am ddarparu a gwasanaethu wrth y byrddau.

Yn ogystal cafwyd tair raffl ganddynt ac fe'u enillwyd gan Miss Lizzie Thomas, Mrs Jane C. Hughes a Miss Jean Moeller. Diolchwyd iddynt gan Mrs Megan P. Morris.

Fe gofiwyd yn ein gweddïau am Mrs Nell Griffiths, aelod ffyddlon o'r Clwb sydd ar hyn o bryd yn yr Ysbyty. Rhoddwyd croeso yn ôl hefyd i Mrs Mary Hughes ar ôl bod yn absennol am beth amser, a da oedd ei gweld yn edrych mor dda.

Fe gareu fel Clwb hefyd ddiolch i Mr a Mrs Bobbie Williams, Tai Caradog am eu rhodd deilwng o ddeg punt i ni.

DIOLCH: Dymuna Llion ac Elisabeth Price, Vulcan, a'r teulu i gyd ddiolch i bawb am bob cydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn ystod eu profedigaeth o golli eu merch fach Yvonne. Diolch yn fawr iawn i bawb.

LLONGYFARCHIADAU i Gwyn Elidir Lewis, 36 Rhydfadog, am lwyddo yn arholiadau y City & Guilds mewn paentio ac addurno yng Ngholeg Technegol Llandrillo. Cyflogir Gwyn gan Watkin Jones a'i Fab, Bangor.

TACHWEDD

Tachwedd unwaith eto, mor gadarn ei droed,
A'r gwyntoedd anferthol yn di-noethi y coed;
Ond weithiau daw egwyl, a haul yn y pnawn,
A pherlau y glaw ar rwydwaith y gwawn.

Hen fis o amrywiaeth, o dywydd mor wyllt,
Adeg 'troi'r' hyrddod a diodi y myllt;
Mae'n nosi mor gynnar, â blas ar y tân!!
Minnau mewn afiaith, yn prydyddu rhyw gân!!

Mis olaf yr Hydref, cyn dyfod yr heth
A Nadolig yn dilyn, bob tro yn ddi-feth;
Crwydro y ffriddoedd gyda Taff yr hen gi,
A dathlu penblwydd gyda chardiau di-ri'.

Hen fis o hiraethu, wrth edrych yn ôl,
A natur, yr hen wraig, wedi newid ei siôl;
I frethyn hen ffasiwn, a'r plethiad yn dew!!
I wynebu y Gaeaf, yr eira a'r rhew!!

John V. Morris, Rhianfa, Clwt-y-Bont

CRIB COCH

Y Sgwâr, Llanrug
Ffôn: Caernarfon
76772

TRIN GWALLT I
BAWB O'R TEULU
GAN JEN

Ffoniwch neu galwch
i drefnu amser

E.W.Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

ROYAL VICTORIA HOTEL

LLANBERIS 870149

★ Bwyd da ★ Cwrw da
★ Cwmni da



SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Hydref 1 o dan arweiniad Mrs J. Eirlys Williams, y Llywydd. Darllenodd Mrs Williams y llythyr misol a chroesawodd y gŵr gwadd sef Mr Leslie Larsen, Penisarwaun.

Cawsom noson ddifyr iawn gyda Mr Larsen yn dangos sleidiau o Dinorwig a Penisarwaun. Yr oedd yn dod a hen atgofion yn ôl i ni.

Diolchwyd i Mr Larsen gan Mrs Eileen Williams. Rhoddwyd y te gan Mrs Betty Williams a Mrs Joan Parry. Enillwyd y raffl gan Mrs Kathleen Davies.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Dachwedd 5 pryd y bydd Miss Eirian Pritchard, Caernarfon yn dangos sut i wneud addurniadau Nadolig. PRIODAS: Dydd Sadwrn, Hydref 13 yn Eglwys Y Santes Fair, Porthaethwy, priodwyd Miss Carol Rigley, merch Mrs Marion Rigley a'r diweddar Mr Harry Rigley, 3 Tyddyn To, Porthaethwy, â Mr Kevin Hughes, 98 Y Wern, Y Felinheli, mab y diweddar Mr a Mrs Dennis Hughes, gynt o Ddeiniolen.

Gweinyddwyd gan y Parch Ganon Richard Jones a rhoddwyd y briodferch i'w phriod gan ei brawd Mr Myrddin Rigley.

Y morynion oedd Miss Glenda Rigley, chwaer y briodferch a Miss Brigid Hughes, chwaer y priodfab, a'r gwas oedd Arthur, ffrind y priodfab.

Cynhaliwyd y wledd briodas yng Ngwesty Henllys Hall, Biwmares.

Gwnaed y deisen briodas gan Brigid, chwaer y priodfab. Bydd y pâr priod yn cartrefu yn 98 Y Wern, Y Felinheli.

CLWB 200 DEINIOLLEN FC: Tynwyd yng ngwesty'r Fictoria, Llanberis. Dyma enillwyr mis Hydref: 1, £80 Caradog Jones (Rhif 203); 2, £40 Kevin John (Rhif 147). Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

DYMUNA Clwb pêl-droed Deiniolen ddiolch i'r canlynol am eu rhodd o bêl-droed ar gyfer gemau cartref: Mr a Mrs Brymer Parry, Cigydd; Mr a Mrs Hefin Hughes, Storfa VG; Mr a Mrs Gwyn Oliver Jones, Siop Arfon; Mrs Clarice Roberts, Bull Inn; Mr a Mrs Clifford Davies, Llythyrdy.

Dymuna'r Clwb flynyddoedd o iechyd a mwynhad ar ei hymddeoliad i Mrs Clarice Roberts ar ôl blynyddoedd o wasanaeth yn y Bull Inn. Hefyd i Diana a Clifford am ei parodrwydd i roi cymorth i bobl yr ardal tra yn eu galwedigaeth yn

y Llythyrdy.

Gair o ddiolch hefyd i Nigel a Dawn Owen, Wellington Inn am fenthg y Bws Mini bob Sadwrn a darparu lluniaeth i'r ymwelwyr ar ôl bob gêm gartref. Diolch i bawb. MARW: Yn ystod y mis a aeth heibio, bu farw Mr Tommy Williams, 31 Cil-y-Coed, Coed Mawr, Bangor. Bu Tommy yn aelod ffyddlon o Seindorf Deiniolen am rai blynyddoedd.

Yr oedd yn gornedwr penigamp yn ei ddydd, yn chwarae'r Corn Gwlad yn yr Eisteddfod Genedlaethol am rai blynyddoedd dan yr enw Barddol Tom Deiniol.

Nid âi yr un flwyddyn heibio na fyddai Tommy yn chwarae'r Last Post a'r Reveille o flaen y Gogolofn yn Neiniolen a Bangor.

Cydymdeimlwn yn fawr â'r teulu yn eu profedigaeth lem.

Cynhaliwyd y gwasanaeth yn Amlogfa Bangor ar Fedi 26ain, dan arweiniad y Parchedig R. Glyndwr Williams.

NOSON GOFFI: Pleser yw cael cyhoeddi yn unol â'r addewid, i'r Noson Goffi gyrraedd y swm anrhydeddus o £400 a dros-glwyddwyd i Gronfa Ymchwil y Cancr, cangen Bangor. Llauer o ddiolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd tuag at lwyddiant y noson. H. Jones, Rhes y Faenol. PRYD AR GLUD: Mae'r Gwasanaeth Pryd ar Glud i rhyw bymtheg o'r pentrefwyr yn gwegan unwaith yn rhagor. Os oes perchnogion ceir yn abl i helpu i rannu'r bwyd ar ddydd Llun a dydd Gwener, byddem yn ddiolchgar os byddent yn cysylltu â Robert Williams, 4 Tai Caradog. Telir costau petrol, ac

mae'r dosbarthiad yn cymryd rhyw awr ar y tro.

CYNGOR EGLWYSI: Cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi Diolchgarwch am y Cynhaeaf, yn Ffestri Cefny waun, nos Lun, 8 Hydref. Arweiniwyd y cyfarfod gan Lywydd y Cyngor, y Parch D. John Pritchard, a chymrwyd rhan gan nifer o chwirydd o Eglwysi'r pentref.

Cynhelir y cyfarfod nesaf dan nawdd y Cyngor yn festri Disgwylfa, am saith o'r gloch nos Lun, Tachwedd 12, pryd y disgwylir Miss Nan Wyn Jones, Waunfawr, i annerch ar rai o'i phrofiadau pan ar ei hymweliad diweddar â gwlad Lesotho. Estynnir croeso cynnes i bawb.

EISTEDDFOD GWAUN GYNFI: Bydd yr Eisteddfod am 1990 wedi mynd trosodd erbyn daw y rhifyn hwn o'r wasg. Mae rhagolygon y bydd Eisteddfod eleni yn cadw at y safon uchel osodwyd yn y gorffennol, gyda chystadleuwyr o bob rhan o Gymru. Dymuna'r pwyllgor gydnabod gyda diolch diffuant y gefnogaeth ymarferol a'r cyfraniadau hael dderbynnir o flwyddyn i flwyddyn o bell ac agos.

Cofiwch am y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol sydd i'w gynnal yn Neuadd y ganolfan a 7 o'r gloch nos Wener, Tachwedd 23. Dewch yno gyda'ch awgrymiadau ar gyfer diwygio a newid rhaglen Eisteddfod 1991. Byddai'r pwyllgor yn falch o groesawu gwaed newydd o blith ieuenctid y pentref.

PWYLLGOR RHEOLI'R GANOLFAN: Yn ystod Tachwedd cysylltir gyda'r mudiadau yn y pentref sydd

Parhad ar dudalen 23

BERAN GAREJ A'R RHODD I'R TÎM PELDROED

Y newid yn Buarth Beran sydd amlwg i bob gŵr Bellach ni fydd rhen bwmp yn unig, ei sicr gronfa ddŵr Can's heddiw gwelir nid un pwmp ond pedwar A diod nid i ddyn, ond i'r tractor ac i'r car.

Llongyfarchwn Jaci a Timothy
Ar eu mentr a'u gwrhydri
Deued iddynt bob llwyddiant ar werthu petrol
Ac i'r cwsmeriaid fod yn selog gefnogol.

Dymuniad Clwb peldroed Deiniolen i Jaci a Timothy
Yw cael diolch o galon am eu mawr haelioni
Mewn rhodd ardderchog o grysau chwys
Pleser a braint yw cael gwneud hynny'n hysbys.

A bydded i'r tîm yn eu gormestau eleni
Ymdrechu am y brig o ddifri
Peidiwch ofni chwysu, cofiwch rodd Jaci a Timi
Fe wŷr rhain beth yw chwysu, coeliwch chi fi.

H.J.

S.O.S.

YR 'ECO' EICH ANGEN YN NEINIOLLEN

Mae angen Prif Ddosbarthwr ym mhentref Deiniolen. Ydych chi'n barod i gynnig cymorth? Ddowch chi'n rhan o dîm gwirfoddol y papur bro?

Heb Ddosbarthwr — Heb Ddarllenwyr.

Pwy sy'n fodlon rhoi ychydig oriau'r mis i drefnu i ddosbarthu'r 'Eco' yn Neiniolen? Am fwy o fanylion, cysyllter ar frys ag Arwyn Roberts, 'Hafle', Ffordd yr Orsaf, Llanrug. Ffôn: Caernarfon 5510.

OSMOND SHAW DEINIOLLEN

GWERTHU
— TRWSIO

★ Teledu

★ Fideo

★ Offer Trydan

Gwasanaeth

Ffôn 24 awr

LLANBERIS 870545

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd DEINIOLLEN

Llanberis 870484

★ Bysiau o 12 i 53 sedd

★ Teithiau Lleol a Thramor

★ Gwaith Contract

★ Telerau arbennig i

bensiynwyr, myfyrwyr a
phlant ysgol

GERAINT OWEN

Gosodwr
carpedi a phob
math o lorïau

Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR

Ffôn:
Waunfawr 552

GLADRAGS LLANBERIS

PAM MYND I
GAERNARFON,
BANGOR AC
YMHELLACH
HEFO DILLAD I
BOB OED A
MAINT YMA'N
LLANBERIS AM
BRISIAU BAR-
GEN ?

Be ga i'n bresant?

Dewch yma am

• Ddillad Merched

• Dillad Dynion

• Dillad Plant

• Dillad Gwlad

• Mohair ac Aran

• Dillad Lledr

• Dillad Isa

• 'Accessories' fel bagiau

• a llawer mwy

CYNNIG
ARBENNIG



Yn rhatach os
dangoswch yr
hysbyseb hon

GALWCH I BRYNU BARGEN!

CHIROPODIST

Gwasanaeth yn
eich Cartref

E. Ll. Parry

M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.

57 Glanffynnon

LLANRUG

Ffôn:

Caernarfon

5754

LLANRUG

Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhyddallt. Ffôn: C'fon. 76733

MERCHED Y WAWR: Ar nos Fercher, Hydref 3ydd, aeth cynulliad da o aelodau a ffrindiau i ymweld â Theatr Gwynedd. Mwynhaodd pawb berfformiad gwych gan gwmni Hwyl a Fflag o'r ddrama 'Euog: Di-Euog' gan Maldwyn Parry.

Estynnodd y llywydd, Miss Mary Roberts groeso i bawb ar y bws a diolchodd i Mrs Meryl Green am dderbyn y swydd is-ysgrifennydd.

Diolchwyd i Mary Roberts, Heulwen Evans a Olwen Huws am drefnu'r noson gan Mrs Ann Ifans. Enillydd y raffl oedd Sioned Larsen.

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, Tachwedd 13 yn yr Ysgol Gynradd pryd y disgwylir cael hanes 'Tearcraft' yn y Trydydd Byd, a chyfle i brynu nwyddau Nadolig. **PLAID CYMRU:** Cynhaliwyd cyfarfod mis Hydref yn y Sefydliad Coffa a chroesawyd pawb gan Phyllis Ellis. Bu cyfle i'r aelodau bleidleisio i ethol is-lywydd Plaid Cymru a manteisiodd nifer dda ar y cyfle i wneud hyn.

Dangosodd Eirian Pritchard, Caernarfon, amrywiaeth arbennig iawn o addurniadau ac anrhegion Nadolig. Daeth Lisa Coull o Ysgol Bontnewydd i'w helpu i wneud rhai o'r anrhegion, gan wneud i'r tasgau ymddangos yn hawdd.

Gobeithiwn fedru gwneud rhai o'r samplau a welsom erbyn y Ffair Nadolig ar Ragfyr 5. Byddwn yn falch o unrhyw help gan aelodau a chyfeillion gyda'r gwaith yma.

Enillwyr diweddaraf y Clwb Cant yw:

Awst: 1, R. Jones, Egryn Villa; 2, Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach.

Medi: 1, Siôn Humphreys, Pant y Bryngwyn; 2, June Jones, Caernarfon (Rhandir Mwyn, gynt).

Hydref: 1, Iwan Roberts, 4 Talybont; 2, Goronwy Hughes, Eithinog.

Rhoddwyd y tē a'r raffl gan Nan Humphreys ac enillwyd y raffl gan Dafydd Ifans, Penisarwaun.

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Fercher, Tachwedd 21 yn y Sefydliad Coffa, pan ddisgwylir y Dr Deri Thomas, Bangor, i annerch. Hyderwn y bydd nifer dda ohonoch yn y cyfarfod yma eto, a bydd croeso mawr i gyfeillion yno hefyd. **CYMDEITHAS LENYDDOL:** Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf o Gymdeithas Lenyddol y Capel

Mawr, nos Fercher, Hydref 17, gyda noson o adloniant gan Lleisiau'r Rhyd dan eu harweinydd Mrs E. Eames.

Llywydd y noson oedd Mrs Eileen Williams a diolchwyd gan Mrs W. O. Roberts.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fercher, Hydref 31 am 7 o'r gloch pryd y cawn sgwrs gan Swyddog o Orsaf Dân Caernarfon.

LLONGYFARCHIADAU i Mr Hugh Thomas, Gwenallt, Pontrhythallt, ar ennill cystadleuaeth y Llinell Goll yn ystod rhaglen radio John Ogwen ar y 27ain o Fedi.

ADREF AM DRO: Braf oedd gweld Geraint Rowlands, mab Eurwen a John Rowlands, Llys Forgan, Ffordd yr Orsaf, adref gyda'r teulu yn ddiweddar.

Tra roeddynt yn Llanrug, cafodd Siôn, ei fab, ei benblwydd yn 4 oed. Y tro cyntaf iddo gael ei benblwydd gyda'i Nain a'i Daid yng Nghymru.

ADREF O'R YSBYTY: da gweld Mrs Maureen Rainbow, Arosfa, wedi cael dod adref o ysbty gwynedd ar ôl triniaeth lawfeddygol. Brysiwch wella!

DIOLCH: Dymuna Llinos Davies, Bod Awel, Ffordd yr Orsaf, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a'i chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd yn un ar hugain oed.



LLONGYFARCHIADAU i Janice Wyn Pritchard, merch Mr a Mrs E. Pritchard, Pen-y-groes a Clive Wyn

Griffith, Bryn Ffynnon, Llanrug, mab Mr a Mrs W. J. Griffith, Pant Tirion, a briodwyd yng Nghapel Glanrhyd, Dinas, ar Fedi 19eg.

YSGOL FEITHRIN: Ar ran pawb fu â chysylltiad â'r ysgol feithrin fe hoffwn ddiolch i Mrs Pat Jones am ei chyfraniad gwerthfawr tuag at redeg yr ysgol yn y blynyddoedd diwethaf. Dymunwn bob llwyddiant iddi hi a'i gŵr yn eu menter newydd. Unwaith eto, diolch yn fawr 'Anti Pat'.

Cynhaliwyd disco yn yr Ysgol Gynradd yn ddiweddar a chasglwyd oddeutu £50. Diolch am y gefnogaeth ac yn arbennig i Meirwen, Siop Sgwâr.

YSGOL GYNRADD LLANRUG: Dechreuwyd gweithgareddau Adran yr Urdd eleni gyda Edward Morus Jones yn cynnal noson o gân a sgwrs. Ar Hydref 15 daeth Modlen Lynch i ddangos sleidiau o'i hymwelid â Tseina yn ystod yr haf eleni. Roedd diddordeb mawr yn y lluniau, hanesion a'r anrhegion a ddangosodd.

Dymunwn yn dda i nofwyr yr adran a fydd yn cystadlu yng Ngala Nofio Sirol Eryri. Cynhelir cystadleuaeth dan 10 oed ar Dachwedd 8, a'r rhai dan 12 oed ar Dachwedd 14 ym Mhwl Nofio Bangor. Agorir y drysau am 5 o'r gloch a'r cystadlu i ddechrau yn brydlon am 5.30 pm.

Bydd Gwasanaeth Sul yr Urdd ar Dachwedd 18fed yng Nghapel Mawr Llanrug.

Gwersi mewn awyrgylch gwahanol a gafodd Safon 3 y mis yma wedi iddynt dreulio wythnos yng Nglynllifon. Cafwyd amser difyr yn yr hen blas yn ogystal ag allan yn yr awyr iach.

Daeth Heddwas y pentref atom am fore i stampio côd post ar feiciau rhai o blant Safon 4.

Colli 3-6 oedd hanes y tîm pêl droed wrth iddynt chwarae gêm gynghrair gyntaf y tymor yn erbyn Ysgol yr Hendre. Colli 3-14 oed hanes y tîm pêl rwyd hefyd, hwythau yn erbyn Ysgol yr Hendre.

Cafwyd gwasanaeth Diolchgarwch gyda phob dosbarth yn cymryd rhan. Casglwyd dros £70 tuag at Gymdeithas y Deillion.

Ar ddiwedd yr hanner tymor rydym yn ffarwelio â Mrs Mair Parry a Mrs Nant Roberts. Diolch i'r ddwy am eu gwaith a chwmni rhadlon. Croesawn yn ôl i'n plith

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

Mrs Mary Morris a Mrs Heulwen Evans.

LLONGYFARCHIADAU i Mary a Meurig Parry, Bryn Golau, Stâd Minffordd, ar ddod yn Nain a Thaid i Ffion Meleri, merch fach Dwynwen a Steven Owen, Porthaethwy.

CLWB IEUENCTID: Mae'r Clwb wedi dechrau tymor newydd gydag amryw o weithgareddau ar y rhaglen. Rydym yn barod wedi cael sgwrs ynglŷn â gyrfa yn yr RAF ac yn y Fyddin. Bydd aelod o'r Heddlu yn dod i'r clwb nos lau, Tachwedd 8 i siarad am yrfa gyda'r Heddlu ac i 'stampio' beiciau — bydd croeso i blant y pentref ddod a'u beiciau ar y noson.

Yr ydym yng nghanol cystadlaethau yn y clwb a chystadlaethau yn erbyn clybiau eraill. Bydd Disco Nadolig yn yr Octagon ddiwedd mis Tachwedd ac mae parti Nadolig y Clwb wedi ei drefnu yn yr 'Heights' yn Llanberis.

Mae croeso i aelodau newydd o'r 3ed flwyddyn yn yr ysgol i ymuno â ni ar nos Lun a nos lau.

EISTEDDFOD BENTREF LLANRUG

Cynhaliwyd Eisteddfod Bentref Llanrug ddydd Sadwrn, Hydref 13 yn Ysgol Uwchradd Brynrefail.

Y beirniaid oedd: Cerdd a Cherdd Dant — Mrs Ann Hopcyn; Adrodd, Barddoniaeth a Rhyddiaith — Y Prifardd Selwyn Griffith; Gwau gwnio, Ceginio a Gosod Blodau — Mrs Anita Long; Arlunio a Thri Dimensiwn — Mr Alan Ginsberg; Ffotograffiaeth — Mr Ieuan Owen; Dawns — Mrs Judith Harding.

Y cyfeilydd oedd Mrs Megan Roberts.

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant yr Eisteddfod mewn unrhyw ffordd.

Dyma'r canlyniadau:

Unawd Dosbarth Derbyn: 1, Geraint Iwan. **Adrodd Dosbarth derbyn:** 1, Geraint Iwan. **Unawd cyn oedran ysgol:** 1, Natalie; 2, Lindsey; 3 Huw a Ceri. **Adrodd cyn oedran ysgol:** 1, Natalie; 2, Lindsey a Huw; 3, Dafydd a Carl. **Unawd babanod canol ac uchaf:** 1, Dion; 2, Gemma; 3, Gemma Victoria. **Adrodd babanod canol ac uchaf:** 1, Gemma Victoria; 2, Gemma; 2, Siôn Emyr.

Unawd Safon 1 a 2: 1, Siân; 2, Michelle; 3 Elin a Awen. **Adrodd Safon 1 a 2:** 1, Michelle; 2 Elin; 3, Awen. **Unawd Cerdd Dant:** 1, Michelle; 2, Elen; 3, Siân; **Unawd Piano safon 1 a 2:** 1, Michelle; 2 Owain; 3, Elin; 4, Siân; 5, Gareth. **Adrodd Safon 3 a 4:** 1, Gwennan; 2, Emma; 3, Jackie a Delyth.

Wavell Roberts
CIGYDD

LONDON HOUSE LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU DEWCH ATOM NI!

Joelas

CARTREF YR HENOED

Cartref Gofrestredig ag iddo awyrgylch Gymreig
Cysylltwch â

Mrs Meirwen Thomas neu Mrs Eli Thomas

**Ffordd yr Orsaf, Llanrug,
Caernarfon (0286)4652**

BRYN
(B & K Williams)

Hen Ysgol
Glanmoelyn

LLANRUG

**Ffôn 77482 (dydd)
870793 (nos)**

Gwneuthurwyr Ffenestri,
Drysau, Grisau neu
unrhyw fath o gynnyrch
coed. Y coed meddal wedi
derbyn triniaeth arbennig i
wneud iddynt bara.

Unawd Offeryn Pres: 1, Ieuan. **Unawd Safon 3 a 4:** 1, Elen; 2, Iona; 3, Dafydd. **Parti Cydadrodd:** 1, Parti Elen. **Unawd ar unrhyw offeryn:** 12, Siân. **Unawd Piano Safon 3 a 4:** 1, Jackie; 2, Iona; 3, Ieuan.

Parti Dawns Werin: 1, Parti Ieuan. **Parti Unsain:** 1, Parti Kelly; 2, Parti Huw; 3, Parti Llechyn. **Unawd Blwyddyn 1-5:** 1, Llŷr Siôn; 2, Donna. **Unawd Bl. 6 a throsodd:** 1, Menna. **Grwp Offerynnol:** 1, Band Gwerin. **Siarad Cyhoeddus Bl. 5:** 1, Catrin Thomas. **Unawd Offeryn Pres:** 1, Ffion; 2, Arwel; 3, Luned. **Cân Werin:** 1, Llŷr Siôn. **Grwp Gwerin:** 1, Catrin a Dafydd. **Unawd Piano:** 1, Gwenan Mair; 2, Beverly; 3, Nicola. **Unawd ar unrhyw Offeryn:** 1, Gwenan Mair; 2, Llŷr Siôn; 3, Rhian. **Cyflwyniad Llafar Digri:** 1, Parti Catrin.



Catrin Thomas gyda'i thylsau am berfformiadau llafar a dawnsio.

Bl 6 a throsodd — unawd ar unrhyw offeryn: 1, Iwan. **Dawns Werin Unigol:** 1, Catrin; 2, Elen. **Grwp Dawnsio Gwerin:** 1, 'Parti Buddugol'; 2, Parti Pant Mwyn. **Cyflwyniad Llafar:** 1, Grŵp Catrin. **Cyflwyniad Cerdorol:** Plant Mewn Angen.

Perfformiadau Llwyfan Gorau Unigol: Cadair Lowri Pritchard: Dion Siôn Owen. **Canu:** Llŷr Siôn. **Llafar:** Catrin W. Thomas. **Offerynnol:** Gwenan Mair Roberts. **Dawns:** Catrin W. Thomas.

CELF A CHREFFT

Gwnio: Babanod Canol ac Uchaf: 1, gemma Bourne; 2, Christopher Day; 3, Dion Owen. **Safon 1 a 2:** 1, Elin Dafydd; 2, Meleri Mair; 3, Michelle Roberts. **Safon 3 a 4:** 1, Jackie Gibbins; 2, Emma Davies; 3, Iona Williams a Sera Thomas. **Blwyddyn 1 a 2:** 1, Nicola Gibbins; 2, Morgan ap Gruffudd; 3, Iona Williams. **Blwyddyn 3 a 4:** 1, Gwenan Mair Roberts; 2, Nia Griffiths; 3, Donna Roberts. **Agored:** 1, Bethanne Williams.

Gwau neu Grosio: Oed Ysgol Gynradd: 1, Jackie Gibbins; 2, Michelle Roberts. **Oed Ysgol Uwchradd:** 1, Nicola Gibbins; 2 a 3, Gwenan Mair Roberts. **Agored:** 1, Beryl Thomas; 2 a 3, Gwenda Roberts; 4, Irene Williams.



Gwenan Mair Roberts roddodd y perfformiad offerynnol gorau.

Coginio: Babanod Canol ac Uchaf: 1, Dion Owen; 2, Christopher Day a Gemma Bourne; 3, Ffion Meleri a Gemma Lousie. **Safon 1 a 2:** 1, Elin Dafydd; 2, Meleri Mair; 3, Iolo Glyn. **Safon 3 a 4:** 1a 2, Emma Davies; 2, Iona Williams a Delyth Humphreys. **Coginio: Bl. 1 a 2:** 1, Llŷr Siôn; 2, Morgan Ifan. **Bl. 3 a 4:** 1, Wendi Thomas; 2, Gwenan Mair Roberts; 3, Catrin Thomas. **Agored (Merched):** 1, Sally Davies; 2, Bethanne Williams. **Agored (Dynion):** 1, Idwal Williams; 2, Wynford Davies; 3, Dafydd Whiteside Thomas a Idwal Williams. **Jam:** 1, Julie Jones; 2, Bethanne Williams; 3, Menna Williams. **Chutney:** 1, Eirianwen Thomas; 2, Sally Davies.

Gwin: Agored: 1, Idwal Williams; 2 a 3 Margaret Parry.

Gosod Blodau: Mewn Plisgyn Wy: 1, Beryl Thomas; 2, Judy Roberts; 3, Nan Humphreys.

Ffotograffiaeth: Oedran Ysgol Gynradd: 1, Llinos Jones; 2, Gwion Iwan; 3, Llinos Jones. **Oedran Ysgol Uwchradd:** 1, 2 a 3: Iolo Eilian. **Agored:** 1, Timothy John.

Tri Dimensiwn: Babanod Canol ac Uchaf: 1, Dion Owen; 2, Gemma Bourne. **Safon 1 a 2:** 1, Hefin Roberts;



Enillydd Cadair Lowri Pritchard — Dion Siôn Owen oedd yr adroddwr gorau.

2, Gareth Davies; 3, Meleri Mair. **Safon 3 a 4:** 1, Gwennan Humphreys; 2, Jackie Gibbins; 3, Emma Davies a Sera Thomas. **Bl. 3 a 4:** 1, Catrin ac Amanda. **Agored:** 1, Eluned Roberts; 2, Catrin ac Amanda; 3, Julie Jones.

Arlunio: Ysgol Feithrin: 1, Natalie Blanchard; 2, Ffion Roberts; 3, Aaron Bourne; 4, Beverley Taylor. **Dosbarth Derbyn:** 1, Geraint Iwan. **Babanod Canol ac Uchaf:** 1, Dion Owen; 2, Gemma Bourne; 3, Christopher Day. **Safon 1 a 2:** 1, Guto Siôn; 2, Meleri Mair; 3, Siân Green, Elin Dafydd, Gwion Iwan, Alan Davies; Awen Humphreys. **Safon 3 a 4:** 1, Ieuan Green; 2, Jackie Gibbins; 3, Iona Williams a Gwennan Humphreys.

Bl. 1 a 2: 1, Iwan Rhys Owen; 2, Mathew Wyn Williams; 3, Siwan Humphreys. **Bl. 3 a 4:** 1, Ffion Lloyd Williams; 2, Catrin Thomas. **Oed Bl. 5 a 6:** 1, Iolo Eilian. **Cwpan Emma Blanchard:** Guto Siôn.

LLENYDDIAETH

Rhyddiaith: Safon 1 a 2: 1, Awen Humphreys a Steffan Jones; 2, Lisa Jones a Ceri Jones; 3, Gwennan Williams a Gwion Iwan. **Safon 3 a 4:** 1, Delyth Humphreys; 2, Ieuan Green a Emma Davies; 3, Iona Williams a Meilir Jones; 4, Kelly Roberts. **Bl. 1 a 2:** 1, Siwan Humphreys; 2, Sioned Jones; 3, Cerys Parry a Rhian Green. **Bl. 3 a 4:** 1, Nia Griffiths; 2, Catrin Thomas; 3, Nia Gwawr Jones; 4, Aled Roberts a Dylan Jones.

Barddoniaeth: Safon 1 a 2: 1, Gwion Iwan; 2, Steffan Evans; 3, Elin Dafydd; 4, Ceri Jones. **Safon 3 a 4:** 1, Kelly Roberts; 2, Delyth Humphreys; 3, Gemma Murphy, Cheryl Edwards a Sera Thomas. **Bl. 1 a 2:** 1, Tracy Jacques. **Bl. 3 a 4:** 1, Aled Roberts; 2, Catrin Thomas.



Guto Siôn Humphreys, enillydd Cwpan Emma Bernard am y gwaith celf gorau.

Englyn Ysgafn: Iwan Roberts. **Cân Rydd:** Bethanne Williams. **Ysgrif:** Mair Humphreys. **Stori Garu:** Bethanne Williams. **Erthygl:** Robert Williams. **Limerig:** Gwenda Roberts. **Brawddeg:** Gwenda Roberts. **Cadair y Prif Lenor:** Robert Williams. **Tlws yr Ifanc:** Nia Griffiths.



Rhai o gystadleuwyr ifanc eraill Eisteddfod Llanrug.

DRAENOG



Cymeriad o'r ardal ar ei ffordd i edrych am ei fab a'i deulu. Dyma stopio yn garej Cwm am betrol — ac yna i ffwrdd ag o — heb dalu! Anghofio wnaeth o, medda fo. A gwaith y mab? Ia, dyna chi, plismon yng Nghlwyd!

DYSGWYR!

Dowch i gael sgwrs yn nhafarn **PENBONT, Llanrug** Cyfarfod bob mis ar yr ail nos Fercher — 9pm o Hydref 10 ymlaen

Siawns i wella eich Cymraeg dros beint!

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.
YSGOL YRRU
OFALUS

- * Gwasanaeth 7 diwrnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deul

D

L

PRITCHARD
43 Glanffynnon
LLANRUG
CAERNARFON 5112

Cymeradwyir gan yr Adran Drafnidiaeth

CYFLENWYR PORTHANT

IDRIS MORRIS

BWYDYDD ANIFEILIAD ANWES
GWERTHWYR NWY

Y Fachell
Llanddeiniolen

Ffôn:
Port Dinorwig 670439



W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestedig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Plumbing and
Mechanical
Services
Contractors



Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

CHWILOTA

Gorffennaf 3 1869 — Damwain
Na Fu ei Bath
(o'r North Wales Chronicle)



LLADD PUMP DYN YNG NGHWM Y GLO GER CAERNARFON

Rhyw bedair neu bum mlynedd yn ôl darganfuwyd defnydd ffrwydrol gyda'r mwyaf nerthol a welodd dyn erioed. A hwn, y Nitroglycerine (powdr oil) sy'n cael ei ddefnyddio yn lle'r powdr du (gunpowder) i saethu'r creigiau yn y chwareli — ond mae'r Nitroglycerine yn ffrwydro mor hawdd, ysgytwad neu drawiad yn ddigon.

Dydd Mawrth diwethaf cyrhaeddodd y llong Heroine y bar yng Nghaernarfon (eiddo De Winton — Capten Pritchard) efo llwyth o Hamburg. Llwyth o goed gan fwyaf a hefyd pedwar tunnell o Nitroglycerine oddiwrth gwmni Nobel i gwmni Webb Caernarfon a Llanberis. Mae gan Webb storfa drwyddedig i gadw defnyddiau ffrwydrol yn Aber Menai.

Fel yr arfer dadlwythwyd i longau llai, a'i glanio yn yr harbwr ar gyfer Llanberis a Bethesda. Llogwyd pum trol, ac fe'i llwythwyd ddydd Mercher a chychwynwyd ar y daith tua Llanberis.

Yr oedd y Nitroglycerine mewn caniau tin a rheini wedi eu gosod mewn basgedi efo llwch llif a gwellt o'u cwmipas.

Troliau un ceffyl oedd gan David Roberts ac Evan Jones, a rhywfodd yr oeddynt yn bell ar y blaen i'r tair trol arall, er i'r ddau droi i mewn i ddwy dafarn ar y daith. Nid oedd gan y dynion unrhyw syniad pa mor berygl oedd y llwythi.

Wrth fynd heibio stesion newydd Cwm-y-glo yr oedd y ddau ddyn yn cerdded o flaen y drol gyntaf a'r ceffylau yn canlyn.

Rhwng Cwm-y-glo — pentref chwarelwyr a'u teuluoedd — a giât y turnpike wrth y bont dros afon Rhythallt, mae'r ffordd wedi

ei throï i groesi'r lein. Mae yna dipyn o oriwaered a'r cerrig metlin heb suddo, a wyneb y ffordd braidd yn arw, ac felly y llwyth yn cael ei sgyrtian.


Yno, tua chwech o'r gloch cyfarfu'r troliau a.y.b. a mintai o bump dyn yn dod adra o chwarel Glynrhonwy. Mewn eiliadau ffrwydrodd y powdr oil.

Lladdwyd Robert Morris, 26 oed o Fethesda yn y fan a'r lle, a fynta newydd ddychwelyd o'r U. D. America; lladdwyd y ddau gertmon; bu farw dau fachgen a anafwyd — Griffith Jones, Brynrefail, 13 oed a John Jones, Cwm-y-glo, 11 oed.

Doedd dim golwg o'r troliau na'r ceffylau — dim ond darnau



Abermenai heddiw — dyma lle cedwid y defnyddiau ffrwydrol gan Gwmni Webb.



CEUNANT

Gohebydd: Gwenno Parri,
Morwel (Waunfawr 321)

LLAWDRINIAETH: Croeso adref o'r ysbyty i Sian Alaw Jones, Rhos y Grug; Mrs Joan Hayes, Tŷ Isaf a Mrs Pritchard, Glasfryn. Rydym yn falch bod y dair yn gwella.

DIOLCHGARWCH: Cynhaliwyd gwasanaeth o ddiolchgarwch brynhawn Sul, Hydref 7fed dan arweiniad y gweinidog, y Parch John Morris. Cymerwyd rhan gan Dylan Thomas, Karen Jones, Ffion Williams a Nicola Jones. Trefnwyd y gwasanaeth gan Miss Eirlys Jones, Y Garth.

PRIODAS: Dydd Llun, Hydref 22ain, priodwyd Miss Eirlys Jones, Y Garth a Mr Gwyn Ellis, Minffordd, Bangor. Mae Eirlys yn ddirprwy Brifathrawes yn ysgol Nant y Coed, Cyffordd Llandudno.

Gyferbyn: wyneb-ddalen baled gan Abel Jones (Y Bardd Crwst) — ym meddiant y Llyfrgell Genedlaethol, Aberystwyth.

a Mr Gwyn Ellis yn gyn-athro yn Ysgol Brynrefail. Pob dymuniad da iddynt yn eu cartref newydd yn Nhal-y-Bont ger Bangor.

NANT PERIS

Ann Fleming, Dolwen,
8 Nant Ffynnon.

DIOLCH: Dymuna Prydwen, Melfyn ac Alan ddiolch o galon i bawb yn yr ardal am y caredig-rwydd tuag at Alan tra yn Ysbyty Harefield.

Dymuna Mrs Eluned Owen, Dolwen, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y caredigwydd tuag ati tra bu yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

GWELLHAD BUAN: Dymunwn wellhad buan i Tomos Bleddyn sydd wedi bod yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

Can Arswydus

AM Y DDAMWAIN

A. GITHREDD LL

Dydd Mercher, 30th o Fehefn, 1869,
Ger Llaw

CWM Y GLO,

SWYDD CARNARFON;

Trwy i ddwy droliad o olew Nitro-glycerine ffrwdio, lladdwyd pump o ddynion a chlwyfwd eraill, a lladdwyd dau o gyffylau, a maluriwyd y ddwy drôl.

ENWAU Y TRANCEDIGION

David Roberts, Edward Griffiths,
Evan Jones, 15 oed
Robert Morris, 26 oed
Griffith Jones, 13 oed
John Jones, 11 oed

Y RHAI A GLWYFWYD.

Richard Williams, Llanrug, 40 oed
Hugh Williams, Llanrug, torwyd ei fraich
Robert Thomas Jones, Cwm-y-glo
Edward John Edwards, Cwm-y-glo
John Williams, Yr Allt Goch
Owen Roberts, 16 oed
David Jones, Cwm-y-glo, colled ei fraich chwith
Owen Jones, Llanrug, torwyd ei fraichiau

R. JONES, ARGRAPHYDD, ABERGELLE.

GWASANAETHAU ARIANNOL

ERYRI

FINANCIAL SERVICES



41B STRYD FAWR
LLANBERIS

Ffôn: 872003



Guardian
Royal
Exchange

Interna

Gwastad Llwyncoed heddiw. — roedd y stesion ar y dde, a'r gors ar y chwith.

yn britho'r gors wrth yr afon, a gerllaw'r tollborth. Chwythwyd rhannau o'r troliau i gyfeiriad Brynrefail, ac i gyfeiriad arall, dros greigiau Llwyncoed hyd at Gallt y Celyn ar y Clegyr — yno bellder o hanner milltir, fel yr hêd y frân, olwyn, a rhan o fwnci'r cefyl — dim ar ôl ond dau dwll anferth yn y ddaear.

Fe gafwyd cwest yng Nghapel Methodistiaid Cwm-y-glo — a'r dyfarniad — nad oedd cyfrifoldeb o gwbl ar swyddogion y Penrhyn na Llanberis am drosglwyddo'r pylor, ac mai damwain hollol a laddodd y

Gallt y Celyn, Clegyr. Y groes yn dangos lle yr hyrddiwyd yr olwyn trol.

ddau fachgen.

Yn y cwest neu'r trengholiad tyngwyd y personau canlynol fel rheithwyr — Elias Williams, Carreg y Fran (blaenor); William Jones; John Griffith, Y Ddôl; Robert Williams; John Rowlands; John Griffiths; Griffith Roberts; William Jones; Robert Jones; Robert Roberts; Hugh Pritchard; Evan Williams; Richard Jones a Morgan Jones.

Y lluniau gan John Jenkins, Llangeler. Yr hanes gan Mary Vaughan Jones.

CWM-Y-GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275

CYDYMDEIMLAD: Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs E. Jones, Seiont House, yn ei phrofedigaeth o golli wyres fach yn Neiniolen.

GWELLHAD BUAN: Dymunwn wellhad llwyr a buan i Mrs Gwennie Morris, Tan-y-Graig ar ôl triniaeth lawfeddygol. Hefyd i Mrs Nellie M. Owen, Glandŵr sydd yn Ysbyty Gwynedd.

UNDEB Y MAMAU: Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf o'r tymor ar Hydref 3. Gweinyddwyd y Cymun Bendigaid yn Eglwys Sant Mihangel, Llanrug, gan y Parchedig Peter Pritchard. Ar ôl y gwasanaeth, cafwyd lluniaeth yn Hafan Elan.

Yn gofalu am y baned roedd Mrs D. Pierce, Miss G. Griffith a Mrs B. Jones.

Yr oedd Mrs Enid Taylor a Mrs Joyce Ransom wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd ar ddiwedd yr haf, ac anfonwyd dymuniadau gorau iddynt am wellhad buan.

Rhoddwyd y raffl gan Mrs Edwards, ac fe'i henillwyd gan Mrs Dorothy Jones.

Bydd y cyfarfod nesaf yn yr Ysgol Gymuned, nos Fawrth, Tachwedd 13 am saith o'r gloch. DIOLCHGARWCH EGLWYS SANT GABRIEL: Cynhaliwyd diolchgarwch ar y 7fed a'r 8fed o Hydref. Nos Sul, y pregethwr gwadd oedd y Parch J. B. Davies, Ficer Betws y Coed.

Bore dydd Llun am ddeg o'r gloch, gweinyddwyd y Cymun Bendigaid gan ein Rheithor, y Parch Peter Pritchard. Nos Lun yn Eglwys y Plwyf, Llanrug, bu Gosber a'r pregethwr gwadd oedd y Parch D. C. Roberts, Ficer Caerhun. Yr organydd yn y gwasanaethau oedd Mr John Morris, Llanrug, a diolch yn fawr iawn iddo.

Dymuna y Rheithor, y Parch Peter Pritchard, ddiolch i bawb am addurno'r Eglwys ac am y rhoddion o lysiau, ffrwythau a blodau a dderbyniwyd.

FFAIR GYNHAEAF: Cynhaliwyd Ffair Gynhaeaf yr Eglwys yn yr Ysgol Gymuned nos Fawrth, Hydref 9, a'r elw yn mynd tuag at yr Eglwys. daeth nifer dda yno i gefnogi'r gweithgareddau.

Enillwyr y raffl fawr oedd: Basged Nwyddau: Lliffon Jones, Isfryn; Basged nwyddau: Mrs Margaret Williams, Nant Forgan; Sieri: Martin Jones, Fron Gadair; Bocs Siocled: Dafydd Williams, Bwlch; Vase Flodau: Mrs Dorothy Jones, Fron Gadair; Vase Degan: Mr E. J. Owen, Llanberis

Cwpanau: Mrs Roberts, Penllyn, Cwmyglo; Powdr Talcwm: Siop, Llanrug; Bocs Sebon: Miss Betty Owen, Llwyn Coed Bach; Bocs Sebon: Dylan Williams, Felinheli; Sebon Babi: Aled Michael, Bryngwran, Môn; Tegan: Mr Arfon Jones, Seiont House, Cwmyglo; Cwpan a Sanau: Mr Wavell Roberts, Llanrug.

Enillwyr raffl y stondinau oedd: Bocs o Lysiau: Mr Russell Rowlands, Talafon; Cacen Siocled: Miss Karen Foulkes, Tan-y-Bryn; Crafat: Mrs Catherine Foulkes, Tan-y-Bryn; Potel Coffi: Mrs H. M. Roberts, 1 Bryn Gro; Cacen Oren:

Mr J. O. Roberts, Tyn-y-Ffridd; Darlun: Mrs Gwyneth Roberts, Bod Gwynedd; Bocs Nwyddau: Mr E. J. Owen, Llanberis; Bocs Siocled: Mrs Gwyneth Roberts, Bod Gwynedd; Gwydrau: Miss Meira Williams, Goleufryn; Tegan Meddal: Mrs Jean Roberts, Llanberis; Melysion mewn Potel: Mark Roberts, Tan-y-Coed.

Dymuna'r Rheithor, y Parch Peter Pritchard ddiolch o galon i bawb am roddion at y raffl ac am bob cefnogaeth i wneud y noson yn un mor lwyddiannus.

CLWB POBL Y CWM: Ar Fedi 27ain, tremio'n ôl a hel atgofion fu'r aelodau, gweld gwelliant mawr mewn adnoddau byw a chyfle addysg, ond teimlo colled mewn llawer ffordd arall.

Mr Llew Hughes a Mr Russell Rowlands yn talu teyrnged i'r mamau a fagodd deuluoedd mawr o blant ar gyflogau bychain iawn, a soniodd Mr Hughes ac eraill am gyfraniad y cyn-ysgolfeistr, Mr Joseph Thomas, a ddysgodd genhedlaeth o blant i werthfawrogi ac ymarfer cerddoriaeth mewn seindorf a chôr.

Bu cyfraniad dau weinidog o bwys hefyd, sef Mr Tynan a Mr David Williams, yn ogystal a rhai cymeriadau pentrefol y bu'n fraint ac yn bleser cael eu cwmni.

Daeth Mrs Glenys Pritchard a Mrs Mair Williams a nifer o ddarluniau, rhai o ddigwyddiadau neu leoedd a gollwyd erbyn hyn.

Datganwyd y cydymdeimlad dyfnaf â'n cyd-aelod Mrs E. M. Jones, Seiont House, ar farwolaeth ei wyres fach o Ddeiniolen.

Rhoddwyd y tē a'r Raffl gan Mrs Mair Williams. Enillydd y raffl oedd Miss E. Hughes.

Ar Hydref 11 cynhaliwyd Cwis wedi ei drefnu gan Mrs G. Chick. Rhannwyd yr aelodau yn ddau dîm, a chafwyd p'nawn hwyliog yn yr ornest. Mrs K. Watkins ofalai am y marciau.

Rhoddwyd y tē a'r raffl gan Miss Megan Davies a Mrs K. Watkins. Enillydd y raffl oedd Miss Elizabeth Hughes.

YSGOL GYMUNED CWM-Y-GLO: Diolch yw'r gair pwysig yn yr adroddiad yma. Mae cymaint wedi digwydd yma a'u llwyddiant mor ddibynnol ar eraill.

Cawsom brynhawn o neidio a bwonsio yma ar Fedi 29. Rhwng pawb a phopeth casglwyd £280 i chwyddo Cronfa'r Ysgol.

Y rhai ffodus yn y Raffl oedd: Oriawr: Sara Roberts; Kevin Williams; Sarah Lynne Jones; Potel Win: Kevin Williams; Wind Chimes: Lola Davies; Donna Williams; Jig-So: Sarah Lynne Jones; Cap a Sgarff: Mrs Thornton; Llun: Keith Williams; Bocs o Fagiau Te: Bethan Williams.

Yn ein Gwasanaeth Diolchgarwch, cawsom gyfle i groesawu nifer o gyfeillion a rhieni. Diolch am eu presenoldeb a'r casgliad o £18 a gyflwynir i Ysbyty Gwynedd.

Ers y tro dwythfa i ni weld ein gilydd, bu'r plantos yn Theatr Gwynedd yn mwynhau perfformiad gan Theatr Molecule. Roedd o bron gystal a pherfformiadau

Theatr Fach Llangefni!

Gobeithio fod Sian McKerracher wedi mwynhau ei hwythnos efo ni; bod Mrs Rita Williams wedi llwyr fendio; fod tō newydd Anti Margaret yn dal dŵr ac y gwnaiff pawb o'r staff sy'n mynd ar eu gwyliau dros hanner tymor fwynhau eu hunain ac anfon

cerdyn post i mi!

O, ia. Un peth arall. Mae hamstyr arall wedi cyrraedd yma. Un glaer wen. Dewiswyd yr enw Gwyndaf iddo. Addas iawn ynte. Gobeithio y bydd yntau yn mwynhau ei arhosiad yma.

Tan tro nesa, hwyl fawr!

NOS SADWRN I'W CHOFIO

Dyma'r gwaith a enillodd Diws yr Ifanc i Nia Griffiths yn Eisteddfod Llanrug.

Rhoi fy mhen i lawr i gysgu, rhoi fy hun i'r Arglwydd Iesu. Cysgaf innau tan y bore yn dy ofal di . . . Diolch, o diolch, roeddwn yn gwybod y buaset yn dod yn ôl, mae'n gâs gen i'r diafol yna sydd wedi bod yn fy nghalon yr wythnosau diwethaf yma; tydw i ddim yn gwybod sut dy fod ti wedi aros gyda mi yr holl syniadau erchyll hunanol yna wyf i wedi bod yn meddwl amdanynt y dyddiau diwethaf.

Mae gen i fywyd i fyw a ni fedr neb ddod a'r gorffennol yn ôl. Oedd, mi oeddwn yn caru dad ond fedra i ddim ei gael o yn ôl a mae mam yma o hyd. Nid ei bai hi oedd o fod calon dad yn wan, mae'r wyrthnosau diwethaf yma wedi bod yn uffern ar y ddaear iddi hi hefyd, ond drwy'r cyfan mae hi wedi bod yn poeni amdana i.

'Gwyn y gwêl y fran ei chyw' meddai'r dywediad. Na, toedd mam erioed fel'na cyn i dad farw. Roedd bywyd yn fêl i gyd, wel, wrth edrych yn ôl mi oedd o ond roedd rhai geiriau cas bryd hynny hefyd a dad druan yn y canol yn 'trio cadw'r ddesgil yn wastad' fel y byddai o'n dweud.

Sawl gwaith wnes i freuddwydio y byddai mam yn diflannu a dim ond fi a dad yn byw bywyd hapus a dedwydd. Dim ond ffantasi, dyna beth yw'r effaith o ddarllen gormod o storïau Tylwyth Teg.

Pam oedd rhaid i mi gael mam mor wahanol? Sawl gwaith wnes i feddwl hynny?

'Ti'n gwybod beth sy'n medru digwydd i ferched ifanc, Mirain!'

'Mi fydd pobl yn yfed yna!'

'Dw i wedi gweld mwy o'r byd yma na chdi.'

'Mi fydd pobl yn cynnig drygiau i chdi!'

Roedd hi fel tiwn gron hefo'r un hen stori bob tro y byddwn yn gofyn am gael mynd allan, ond roedd dad yn gwybod sut oedd ei thrin a rhyw ffordd mi lwyddais i fynd i bob man yr oeddwn wedi rhoi fy nghalon ar gael mynd a dim ond un waith wnes i weld beth oedd mam yn trio fy rhybuddio i amdano.

Ond fe ddaeth tro ar fydd. Dad yn marw a fe ddisgynodd fy mywyd i yn ddarnau mân i'r llawr. Gwrthod siarad na bwyta hefo neb, synfyfrio ar luniau ohono am oriau a gwisgo'r siwmpwr goch gefais ganddo fel rhyw ail groen amdana 24 awr y dydd.

Nid wyf yn cofio beth oeddwn yn feddwl amdano, a rwy'n siŵr fy mod i wedi torri cysylltiad gyda'r ddaear am wythnos gyfa, yna dechreuodd lleisiau mam a fy ffrindiau dreiddio i mewn i'm ymennydd fel rhyw gyllell finiog.

Pam na wnaent adael llonydd i mi, mwydro gyda rhyw bethau fel: 'Mirain, rydym yn gwybod dy fod yn meddwl y byd o dy dad, ond wir, fuasai o ddim eisiau dy weld di fel hyn'.

Na, roeddwn i'n gwybod beth oeddwn i eisiau ei wneud — mynd i fyw at dad a cael byw mewn llonyddwch yn hytrach na byw mewn byd lle roedd pawb yn crewcian a gweiddi ar ei gilydd.

Ond diolch byth fod yr awyren yna wedi pasio pan wnaeth hi. Buaswn wedi cerdded dros y bryn i'r tonnau mawr oedd yn erfyn arnaf i neidio atynt; hanner eiliad a buasai fy mywyd wedi newid; ond na, nid dyna beth fuasai dad wedi bod eisiau.

Rwyf yn ei chael hi'n anodd i feddwl mai dim ond rhyw bedair ar ddeg o oriau yn ôl yr oedd hyn, ond ers hynny rwyf yn berson newydd. Pan gyrrhaedais adref edrychais ar y calendr am y tro cyntaf ers wythnosau. Dydd Sadwrn, Hydref 7 ac wrth ei ymyl roedd llawysgrifen fy chwaer 'Disgo'.

Llifodd atgofion yn ôl i'm meddwl. Hwn oedd y lle ble roeddwn wedi edrych ymlaen ers misoedd i gael mynd iddo. Roedd Angharad yn ei alw yn ddisgo ond nid dyna mohono o gwbl, roedd 'Y Cythreuliaid' yn chwarae yn fyw yno. Nhw oedd fy mhrif grŵp i a gwyddwn yn iawn y byddai Osian yn mynd.

Toeddwn i ddim yn hyd yn oed cofio bod Osian yn bodoli tan edrychais ar y calendr. Cyn i dad farw, roeddwn yn berffaith saff fy mod i wedi syrthio mewn cariad gyda Osian, ond ar ôl i dad farw 'toeddwn yn poeni na meddwl am neb na dim ond Dad. Dad. Dad. . .

'Young love' fyddai dad wastad yn ei ddweud pan fyddai Osian yn ffonio ond roedd mam yn casau clywed ei enw. 'Mirain, pymtheg oed wyt ti. Cofia twyt ti ddim i fod yn cyboli hefo hogia', ac roedd hi'n gwrthod gadael i mi siarad gyda fo.

Ond daeth dad a goleuni ar fy mhroblem drwy ddweud os oeddwn am siarad gyda fo, y

(parhad ar dudalen 22)

ECO'R IFANC

PWY A WYR?

Cerddodd y bachgen newydd i mewn. Roedd rhywbeth gwahanol iawn ynddo i weddill y plant. Newidiodd awyrgylch y dosbarth yn syth.

Roedd ei ddillad yn garpiog ac yn fudur, yn hongian fel sach amdano. Roedd ei wallt yn llipa. Ond ei lygaid oedd yn denu sylw. Llygaid gleision yn syllu i un fan a rheiny yn pefrio.

O'r diwedd, torrodd Mrs Williams yr awyrgylch annifyr. 'Croeso i'n hysgoll!' Roedd Mrs Williams yn athrawes greulon, yn taro plentyn fel yn yr hen ddyddiau am ddim rheswm yn y byd. Roedd hi'n ddau wynebog.

Aeth Siôn (y bachgen newydd) at ei ddesg fel soldiw. Drwy gydol y wers roedd Siôn yn gwneud dim byd ond syllu ar y bwrdd du.

Er fod Mrs Williams yn taranu uwch ei ben a'r llais enbyd yn boddi pob tawelwch, dim ond syllu i'r bwrdd du wnaeth Siôn.

Yna, ar ganol y wers, yn araf cododd y sialc o'r bwrdd a mynd at y bwrdd du, a dechreuodd ysgrifennu ohono fe ei hun: LISA WILLIAMS PACIA DY FAGIA A DOS!

Edrychodd y plant a'u hwynebau yn llawn edmygedd. Cerddodd Mrs Williams yn syth o'r ystafell a ni wnaeth neb ei gweld o'r foment honno na byth wedyn.

Dywedodd Siôn yn y diwedd mai fo oedd yn gyfrifol. Yn raddol daeth pawb yn ffrindiau efo Siôn. Roedd rhai yn holi o lle y daeth, ond pob tro roedd y pwnc yn cael ei godi, roedd Siôn yn newid y drafodaeth. Roedd rhai yn meddwl o wlad arall y daeth, a rhai eraill yn meddwl o fyd arall. Pwy a wyl?

Delyth Humphreys (Cyntaf)

Safon 4

YNG NGOLEUADAU'R DISGO

Ar drothwy y Nadolig
Daeth disgo i'n hysgol ni,
Roedd pawb yn edrych eu gorau
Yn eu 'jins' a'u crysa T.

Roedd pawb i weld yn cael amser da
Y genethod 'di gwisgo fel petai'n hâl
Ond ar ganol y llawr roedd y brif atynfa
Sef Misus Jones yn ei sgert dynnaf.

Yno yn dawnsio a wiglo ei thin,
Roedd Misus Jones yn mwynhau ei hun
Ond yn sydyn reit, ond i'm dileit,
Fe syrthiodd Mis Jones, roedd hi am gael sbeiti!

Y disc joci ddaeth yno fel fflach at
Mis Jones
Roedd hwnnw yn rhedeg fel 'tai' di
gwneud llond ei drôns!
Fe'i cododd i fyny a'i llongyfarch, mor smala
Am gyflawni'r gamp o ddawnsio'r
'Lambada'.

Blwyddyn 3 a 4 Aled Roberts
12

Y TÂN

Un tro roedd hogyn yn chwarae pêl allan ac welodd rhiw fflamau yn y pellter. Rhedodd i mewn i'r tŷ a dywedodd wrth ei Fam. 'O na!' dywedodd ei fam. 'Dim fflamau ydio rhiw olau'. Ond dal i gwyno ond doedd ei Fam ddim yn gwrando.

Cin mynd i'r gwelu edrychodd drwy'r ffenest a gwelodd y fflamau melyn a rhedodd i lawr y grisiau a dwedodd wrth ei dad ac wrth ei fam 'Mae yna fflamau mawr melyn yn gwylod y lôn. Dowch i weld', dywedodd wrth ei dad ac wrth ei fam.

Aeth Dad i fynu y gwrisiau ac edrych drwy'r ffenestr a gwelodd fflamau melyn a rhwbio ei lygaid ond roedd y fflamau dal yno. Rhedodd ei Dad i lawr y gwrisiau a gweuddodd ei Dad ar ei Fam 'Mae tân yn gweulod y lôn. Tyd, ffinia yr injan dân i ddiffod y tân.'

Ffoniodd ei Fam yr imjan dân a doth yr injan dân yn y diwedd. Roedd yna dân go iawn yno hefyd. Ar ôl diffod y tân, aeth mam, Dad a yr hogyn bach adra.

Y diwrnod wedyn sbiodd yr hogyn bach drwy'r ffenest gwelodd fflamau mawr eto ond wnaeth yr hogyn bach ddim dweud wrth ei fam am bod dydi mam ddim yn fy nghredu fi wan am bod mae tân wedi bod enithiwr. Fydd hi ddim dwi'n gwbod am bod fydd hi yn meddwl bod joc fydd o. geith nhw weld eu hunain.

Ar ôl cinio aeth mam allan i roi dillad ar elin. Dywedodd wrth ei hun: Mmmm. Beth ydi y fflamau melyn 'na eto. Galw yr injan dân 'na eto. Ffoniodd: 'Helo, mae yma dân yma eto'. 'O na', meddai y dyn tân. 'Fyddan nhw, y dynion tân yna mewn chwinciad.' 'O iawn, ta ta.'

'Pwy roeddat yn siarad ar y ffôn?' 'O, y dynion tân' meddai. 'Pam wyt eisiau ffonio y dynion tân?' 'Pam? O mae yna dân yno eto.'

Ac ar ôl diffod y tân bob diwrnod wedyn roeddin iawn ac ffeindio hogyn bach yn chwarae tricia ar y bobl i gid yn y stad.

Awen Humphreys

Safon 2 (Cyfartal 1af)

PAN DDAW'R NOS

Pan fydd y nos yn dod
Ac yn amser mynd i'r gwely
Fe fyddai'n dili dalian
I'm stafell fi fy hunan.

Pan fyddai'n gorwedd yn y gwely
Fe fyddai'n meddwl am yfory
Ac ar ôl darllen am ryw awr
Fe fyddaf yn mynd i gysgu.

Dosbarth 2 Kelly Roberts (Cyntaf)

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

TEITHIO'R GOFOD

Roedd Geraint wrth ei fodd gyda rocedi a llongau gofod. Roedd ei ystafell wely yn llawn o bosteri am y gofod. Roedd ei gynfas a'i glustog ac ei bapur wal gyda llun rocedi yn y gofod.

Y diwrnod wedyn, neidiodd Geraint allan o'i wely. Heddiw oedd y diwrnod mawr. Roedd Geraint yn mynd i'r Almaen. Roedd Geraint wedi codi'n gynnar i ddal yr awyren. Ar ôl pacio'r cesys a disgwyl i Geraint nôl ei arian poced fe aethon nhw am y Maes. Ond o am siom a gaeth ei fam a'i dad. Doedd dim awyren ar y maes.

Roedd Geraint eisiau mynd ar roced i Plwto. Wrth lwc gwelodd Geraint roced enfawr yn y pellter. Dywedodd Geraint wrth ei rieni am y roced. Gofynnodd Geraint a gai fynd i Plwto. Bu ei fam a'i dad yn hir yn meddwl. Yn y diwedd, dywedodd ei fam 'iawn'.

Ar ôl cyraedd y roced aethon nhw i mewn i siop. Yn y siop gwelodd tad Geraint y bos ar y roced a gofynnodd o am daith i Plwto. Galwodd y bos ar y peilot.

Roedd Geraint yn gynhyrfus. Yn gyntaf, roedd yn rhaid gwisgo siwtiau gofod i gael aer ary lleuad Plwto. Ar ôl cyrraedd mi gaethon nhw bicnic ac wedyn mi gaeth Geraint gerdded rownd am dro.

Wedyn drrrr! Mi aeth y roced a disgynnodd Geraint i'r llawr a deffrodd. Dim ond breuddwyd oedd hi. Heddiw oedd ei ben-blwydd. Mi gaeth Geraint degan o roced ac mi gaeth o drip i'r lleuad.

Safon 2 **Steffan Evans**

Y DAITH

Mi es i sŵ Bae Colwyn
I weld yr eliffant mawr
Cangarw yn neidio fyny ac
Yna yn neidio lawr.

Mi es i ar daith
A'm picnic yn fy llaw,
Collais fy nghap
A disgynnes i'r baw.

Safon 2 **Gwion Iwan (Cyntaf)**

BAI AR GAM

Cerddodd Mair a Rhys adref ar ôl diwrnod caled o waith yn ysgol Gwaengynfi. Roedd Rhys yn dweud wrth ei chwaer fawr Mair pa wersi yr oedd o wedi cael yn yr ysgol.

Ond doedd Mair ddim yn cymeryd dim sylw o beth roedd Rhys yn ei ddweud, roedd hi yn rhy brysur yn edrych ar yr anifeiliaid a'r pryfaid oedd yn y cloddia ac yn y pyllau dŵr oedd ar y lôn ar ôl y storm neithiwr.

Roedd Mair a Rhys yn byw yn bell o'r ysgol, roeddynt yn byw gyda'u mam a'u tad yn fferm Pen Lan i fyny ar y mynyddoedd. Daeth Mam a Tad Mair a Rhys ddim yn gyrru felly mi roedd yn rhaid iddyn nhw gerdded.

Pan gyrhaeddodd Mair a Rhys adref roedd ceir heddlu o amgylch yr iard i gyd pan aethant i mewn i'r tŷ. Roedd eu mam, Linda yn crio ac roedd Sarjant Pugh yn siarad hefo eu tad John Wyn.

Gofynnodd Mair i'w mam beth oedd yn bod ami dywedodd hithau: 'Mae dy dad wedi cael ei gymeryd dan amheuaeth o roi ffarm Pant Glas ar dân'. 'Be' atebodd Mair yn syn. Doedd Rhys ddim yn dallt yn iawn beth oedd yn digwydd gan mai dim ond 5 oed oedd o.

Y noson honno mi fu yn rhaid i dad Mair a Rhys fynd i'r carchar. Fe arhosodd yno am bythefnos. Roedd yn anodd i Mair a Rhys a'u mam fyw ar y ffarm heb eu tad yno ond fe lwyddon nhw. Fe aeth Mair i odro y gwartheg ac fe aeth Rhys i roi bwyd i'r moch ac fe aeth eu mam i adael y ceffyl 'Stamp' yn rhydd bob bore am 6.00 o'r gloch.

Roedd Mair yn hollol siŵr nad ei thad a roddodd ffarm Pant Glas ar dân, felly fe aeth hi a'i brawd Rhys i'r ffarm ac ymchwilio'r lle. Fe aethant i'r ystafell wely oedd a dim ond gwely ynddo ac fe ddaethant i'r ystafell fyw a gwelsant lun oedd wedi malu. Ond gallai Mair weld mai dim ond hen ddynes oedd yn y llun felly fe feddylodd Mair y syth efallai mai dim ond hen ddynes oedd yn byw yno. Fe aeth yn ôl i'r ystafell wely a Rhys yn dynn wrth ei sodlau.

Edrychodd mewn drôr a gweld dillad geneth. Fe edrychodd mewn drôr arall, dim ond dillad geneth. Fe redodd i'r gegin a gweld stôf nwy; fe welodd esgid trwm dyn ar y llawr a dywedai Mair wrthi ei hun: 'Ni fuasai hen ddynes yn gwisgo esgid fel yma'. Fe ddaeth y cysylltiad yn syth i'w meddwl. Mae'n rhaid fod rhyw ddyn wedi dod i'r ystafell a rhoi y stôf nwy ar dân.

Fe aeth ei llaw yn syth am yr esgid ond gweiddodd Rhys 'Paid!'. 'Pam?' dywedodd Mair. 'Rho yr esgid mewn bag plastic neu mi fydd hoel dy fysedd ar yr esgid. Roedd Rhys yn gwybod hyn am ei fod wedi cael gweld ffilm ditectif ar y teledu ryw fis yn ôl.

Llwyddodd Mair i weld maint yr esgid heb gyffwrdd ynddo a gweld y rhif 10. Cofiodd mai maint 8 oedd ei thad. Fe redodd hi a'i brawd adref yr holl ffordd a dweud yr hanes wrth ei Mham. Fe ffoniodd hi yr heddlu ac fe ddeuthon nhw i fyny yn syth, fe welon nhw be welodd Mair a Rhys ac fe ddaeth ei tad adref o'r carchar a dweud wrth ei deulu: 'Mi gefais i fai ar gam.'

Siwan Humphreys
Dosbarth 1 a 2 Uwchradd

Enillwyr cystadleuaeth mis Hydref yw:

Steffan Llyr Griffiths, 5 Rhos Llwyn, Llangefni (4 oed)

Nia Wyn Morris, 20 Llys y Garn, Caernarfon (4 oed)

Dion Siôn Owen, Hafod y Rhos, Llanrug (5 oed)

Dafydd Harri Morris, Tŷ Capel, Dinorwig (6 oed).

Anfonwch eich jôcs a'ch gwaith i'r 'Gornel' erbyn
Tachwedd 20fed!!


LLIWIWCH Y LLUN

CYSTADLEUAETH MIS TACHWEDD

ENW

CYFEIRIAD

OED



BRYNREFAIL

Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

MARWOLAETH: Wedi cyrraedd yr oedran teg o 92, bu farw Mrs Evelyn Williams, Llys Arfon, ar Fedi 20fed.

Dymuna'r teulu ddatgan eu diolch diffuant i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn yr amgylchiad trist.

Bu'r geiriau caredig a'r atgofion hofus am eu mam yn gysur mawr iddynt yn eu galar.

Gwerthfawrogir yn fawr wasanaeth y nyrsus, yr Home Help a Crossroads, yn arbennig Sheila. Diolchir hefyd i Ferched y syrjeri am eu hynawsedd ar y ffôn dros y blynyddoedd.

Diolchir i Mr Myrddin Pritchard am drefnu'r cyfan yn dyner a thrylwyr ar Fedi 24ain pryd y gwasanaethwyd yn yr angladd preifat gan y Parch John Morris a Miss Joan Hughes gyda Mr Elfed Roberts a Mrs Jennie Roberts yn cynrychioli'r Capel. Diolch iddynt hwythau ac i Miss Hughes am y deyrnged yma:

Teyrnged i Mrs Evelyn Williams gan Miss Joan Hughes

Meddyliwn am deulu Mrs Evelyn Williams fel un gaos, yn ymgynull o bedwar ban i ddatlu gwahanol achlysuron y teulu. Cofiw'n yn arbennig am y dathlu annwyl a fu o benblwydd Mrs Williams yn 80 a 90 oed.

Yn ddiamau mae hyn yn deillio o'r croeso cynnes a roddai Mrs Williams i'r plant a'u teuluoedd i Llys Arfon — pawb yn galw i weld nain, ac roedd ganddi le cynnes yn ei chalon i bob un o'i hwyrion a'i hwyresau.

Mae'n braf meddwl ei bod hithau wedi cael gorffwys yn fodlon a hapus yn y cariad a'r gofal mawr a'u hamgylchodd yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Gwyddom yn dda nad oedd croeso Mrs Williams wedi ei gyfyngu i'w theulu. Agorai ddrws ei chartref led y pen i bawb, a'i geiriau olaf ar ôl pob ymweliad oedd, 'Brysiwch yma eto.'

Nid oedd oed yn ei phoeni, derbynai pob ffasiwn fel y deuai, heb geisio gwrthio neb i rhyw ffram neilltuol.

Perthynai iddi hiwmor bywiog a chlywid hi yn chwerrthin yn iach. Ond hiwmor caredig oedd ganddi, nid oedd byth yn wawdlyd.

Magwyd hi yn yr 'Eglwys' — ar ôl priodi yr ymaelododd yn y Capel — a hoffai ddilyn gwasanaeth yr Eglwys pan fyddai un ar y teledu.

Daeth i adnabod ei Gwaredwr yn bersonol yn 1950 a'i hemyn i ddatgan y profiad oedd, 'Ai am fy meiau i dioddefodd Iesu Mawr'. Cyffyrddodd ag ymyl gwisg yr Iesu a bu cyfarfyddiad.

Er na fu yn y Capel ers rhai blynyddoedd oherwydd afiechyd, roed ei defosiwn ynghlwm wrth ei bywyd bob dydd. Gweddi fer 'mewn dillad gwaith' — wrth edrych ar y mynyddoedd trwy ffenestr y gegin — oedd ei heiddo hi.

Nid gweddi aml-eiriog oedd ganddi, dim ond 'Jesus' yn ddiweddar, ond ni ddaliwyd Mrs Williams yn amharod gan waeledd. Un o'r atgofion anwylaf sydd

gennym yw ei phen yn plygu wrth y bwrdd cinio Nadolig diwethaf, 'Thank you Jesus'. Darlun o'r eirllys bach eiddil, yn berffaith er iddo orfod gwrthio trwy ddaear galed. Cyfarfu Mrs Williams ag anawsterau mewn bywyd ond plygodd ei phen, heb ofyn cwestiynau ac heb chwerwi.

Gwnaeth lawer o gymwynasau, ond ni chadwodd gyfrif o'i daioni, ei hamcan oedd gwneud eraill yn hapus a chyflawnodd ei chenhadaeth yn ddiroddres ac effeithiol. Cofiw'n amdani gyda diolchgarwch a chariad.

Buasai hi yn falch iawn fod rhoddion hael ei chyfeillion yn mynd tuag at esmwytho cleifion yr ardal. Diolch yn fawr i bawb.

DYMUNIADAU DA: Mae dau o fechgyn ieuanc y pentref, cyn-ddisgyblion o Ysgol Brynrefail, erbyn hyn yn derbyn hyfforddiant mewn Colegau Addysg Bellach.

Dymunwn yn dda i Kelvin Houston, 2 Trem Eilian, sy'n dilyn cwrs gwaith coed yn y Coleg Technegol ym Mangor a Paul Roberts, 'Rallt sy'n astudio Cyfrifiadureg yng Ngholeg Pencraig, Llangefni.

Fel aelod gweithgar o'r gymdeithas a'r Capel ym Brynrefail, dymunwn yn dda hefyd i Catrin Gwyn, Min-y-Nant, Cwmyglo, sydd wedi dechrau ar ei chwrs Gradd yng Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd.

DIOLCH: Dymuna Kathy a Tom Jones, Llys Tryfan, Gwalchmai, ddiolch o galon am yr holl anrhegion, arian a chardiau a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

CYMDEITHAS Y BEIBLAU: Ddydd Sul, Hydref 7fed, cynhaliwyd cyfarfodydd blynyddol y Gymdeithas yn Eglwys Crist, Llandinorwig. Roedd cyfarfod y prynhawn dan lywyddiaeth Mrs Falmai Pritchard a chymerwyd rhan gan aelodau o holl Ysgolion Sul y fro, a hyfryd oedd gweld yr Eglwys yn orlawn.

Cyflwynodd plant Ysgol Sul Brynrefail feim wedi ei seilio ar ddameg y Samariad Trugarog. Cymerwyd rhan gan Rhys a Llŷr Morris, Iestyn Williams, Rhian a Ruth Owen, Amy Lambert, a Rhian Davies. Y llefarwyr oedd Nicola Houston, Marian Lloyd Jones ac Owain Gwyn. Hyfforddwyd y plant gan Mrs Gillian Morris a Mrs Mair Davies.

Cafwyd Cymanfa Ganu lwydd-iannus yn yr hwyr dan arweiniad Mrs Ann Evans, Penisarwaun a Miss Lowri Prys Roberts wrth yr organ, ynghyd ag eitemau gan Leisiau Lliwedd o Lanberis.

CASGLIAD: Yn ystod y mis gwnaed casgliad tuag at Gymdeithas y Beiblau. Mae ein diolch i Mrs Jennie A. Roberts, Glandwr, am drefnu'r casgliad ac i bawb a gyfrannodd. Cyfanswm y casgliad oedd \$50.60.

CYDNABOD: Diolch i Mr Wilbert H. Williams, Marino, am ei garedigrwydd yn dosbarthu bwyd y Gymuned Ewropeaidd i bensiynwyr y pentref.

CYMDEITHAS CHWIORYDD CAPEL MC: Nos Iau, Hydref 11,

cafwyd cyfarfod o'r Gymdeithas yn y Festri pryd y gwahoddwyd chwiorydd o Eglwys eraill yr ofalaeth i ymuno. Roedd y rhannau arweiniol yng ngofal Mrs Jennie Hughes, Bryn Parc, a chymerodd Wyl y Cynhaeaf fel thema.

Croesawodd y llywydd Mrs Gillian Morris wraig wadd y noson, sef Mrs Menna Green, Y Bala.

Cafwyd sesiwn ddiddorol a bendithiol yn ei chwmni yn sôn am ei gwaith fel gweithiwr maes dan nawdd Eglwys Bresbyteraidd Cymru a chafwyd cyfle i weld sleidiau o ganolfannau cenhadol yng Nghymru a'r gweithwyr brwdfrydig sy'n gyfrifol am y gweithgareddau ynddynt ynghyd â sleidiau oedd yn dangos y berthynas yma yng Nghymru â'r Genhadaeth Fyd Eang.

Diolchwyd i Mrs Green gan y llywydd a chafwyd gair pellach o werthfawrogiad gan Mrs Nansi Roberts, Llanrug. Darparwyd swper i'r rhai oedd yn bresennol gan chwiorydd Brynrefail gyda Mrs Jennie A. Roberts a Mrs J. Maxwell yn gweini wrth y byrddau.

I gloi gweithgareddau'r flwyddyn mae'r Gymdeithas yn trefnu Cyngerdd yn y Festri, nos Wener, Rhagfyr 14eg am 7.30 o'r gloch yng nghwmni Lleisiau'r Rhyd. Bydd y tocynnau ar werth maes o law.

YR WYL DDIOLOCHGARWCH: Cynhaliwyd dwy oedfa o ddiolch ddydd Sul, Hydref 21ain.

Roedd oedfa'r p'nawn o dan ofal y chwiorydd a chymerwyd rhan gan Mrs Gillian Morris, Mrs Ifanwy Jones, Mrs Jennie Hughes, Mrs Betty Owen, Miss Lowri P. Roberts, Mrs Mair Davies, Mrs Gwyneth Evans, Mrs Pat Jones, Mrs Carol Houston a Mrs Verna Jones.

Cafwyd cyfraniad hefyd gan blant ieuengaf yr Ysgol Sul, Rhian a Ruth Owen, Iestyn ac Ellen Williams. Trefnwyd a llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs Jennie A. Roberts.

Roedd gwasanaeth yr hwyr dan ofal y Gweinidog, y Parch John Morris ar y thema Crist, Bara'r Bywyd. Roedd gwaith crefftus Mr Dafydd Morris, Y Becws, cwmyglo, sef ysgub fara, pum torth a dau bysgodyn yn gymorth i werthfawrogi'r sylwadau a wnaed.

Cynorthwywyd y Gweinidog gan blant ac ieuencid yr Eglwys. Cyflwynwyd emynau, darlenniadau a gweddïau gan Marian Lloyd Jones, Nicola Houston, Owain Gwyn, Rhian Davies, Rhys a Llŷr Morris.

Cafwyd oedfaon cynnes a

bendithiol gyda chynulliadau teilwng, ac anfonwyd cofion yr Eglwys at un o'i ffyddloniaid a gipiwyd i Ysbyty Gwynedd, sef Mr John Orwig Jones, Glandwr, gan ddymuno adferiad buan iddo.

GWELLA RHAGOLWG Y PENTREF: Daeth gwybodaeth i law fod y pentref wedi derbyn rhodd gan y WDA i'w defnyddio i wella'n hamgylchfyd. Gwnaed hyn yn hysbys gan y Cynghorwr Cymuned, Mr John S. Williams, Bryn Hyfryd, ac yn ystod y mis bu cyfle i drigolion y pentref drafod â Swyddog yr Amgylchfyd, Mr Wyn Williams, sut i fynd ati i ddefnyddio'r arian.

ADEILADU TAI: Yn wyneb gwrthwynebiad blaenorol gan Gyngor Bwrdeistref Arfon i godi deg tŷ annedd ar lain o dir Cyttir Bach, ger Minffordd, mae Apêl bellach gan y datblygwr i'r datblygiad arfaethedig. Bydd yr apêl ar ffurf ymchwiliad cyhoeddus lleol. Bwriedir cynnal yr ymchwiliad yn Siambr y Cyngor, Swyddfa Arfon, ddydd Iau, Rhagfyr 1990 am 10 o'r gloch.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Nos Iau, Medi 27, cafwyd Trip Dirgel dan nawdd y gangen leol. Teithiwyd i Fiwmars ac yno aethpwyd ar gwch a mordwyo tuag at Bont Menai. Cafwyd golygfa arbennig wrth ddychwelyd fel yr oedd llif-oleuadau'r bont yn dod ymlaen. Mwynhawyd pryd i ddiweddu'r noson ym Mhlas Eithin.

Nos Lun, Hydref 15, cyfarfu'r gangen yn y Festri dan lywyddiaeth Mrs Pat Jones. Roedd y noson yng ngofal Mrs Peggy Owen a ddaeth i arddangos gwaith mewn llythrennu. Roedd hyn yn ragflas i'r Dosbarthiadau Nos a gynhelir ar y gweithgaredd hwn yng ngofal Mrs Owen. Byddant yn dechrau nos Lun, Tachwedd 12fed.

Yn ystod y cyfarfod dewiswyd y tîm dartiau ar gyfer yr ornest flynyddol a chroesawyd dwy aelod newydd, Mrs Dwynwen Williams a Mrs Mai Davies. Rhoddwyd y te gan Mrs A. Hasson a Mrs Elinor Williams, ac enillwyd gwobr y mis gan Mrs Gwenda Thomas.

Y mis nesaf, ar dachwedd 19eg, cynhelir y Cyfarfod Blynyddol a bydd yr ysgrifenyddes, Mrs Betty Owen yn derbyn enwau ar gyfer y Cinio Nadolig a gynhelir eleni yng Ngwesty Ty'n Llan, Llandwrog, ar Ragfyr 10fed.

TRO TRWSTAN

'Mae 'Dolig yn gyfnod reit ddifyr'
Medd Dafydd o'i dŷ, Bron y Nant.
'Caf gyfle i sgwennu a rhedeg
Am bythefnos heb ysgol na phlant.'

A dyna beth wnaeth dros yr amser
Rheddodd a sgwennodd bob dydd.
'Ai dyma yn wir yw paradwys
A'm meddwl a'm traed sydd mor
rhydd?'

Ond diwedd sy'n dod i bob breuddwyd
A rhaid fydd dychwelyd i'r gwaith.
Dim panad yn gwely bob bore
Ond larwm yn sgrechian am saith!

'Dydd Sul ola' heddiw,' medd Dafydd,
'Mae'n braf — mi af i am dro
Cefn Du — ie, yno amdani
O'r top gwlefa degwch y fro.'

Am dro, ond tro trwstan i Dafydd,
Mi faglod a thorodd ei goes.
Nid golwg ysblennydd a gafodd
Ond 'Sbyty a lot lot o loes!

Bethanne Williams

DRAENOG



Fuo fo 'rioed yn yn rhyw lawer o gwc, ond fel pawb arall mae o'n gwobd sut i wneud chips. Dyma fynd ati rhyw bnawn pan oedd y wraig allan, i wneud gwledd iddo'i hun.

Torri'r tatws, sicrhau fod saim yn y sosban ac ar y stôf â hi — un o'r 'deep fryers' plastig 'ma sy'n gweithio hefo trydan!!

NAIS WAN, JOHN!

DAN FLEW EIN LLYGAID

 hefo'r LLYGAD FACH GRAFF

TYMOR Y MADARCH

Mae ishio archwilio pennau pobl sy'n dal ati i arddel y Gymraeg yn wachul, a chystal dweud fod ynganu drwy'ch trwyn neu fyta garleg o fora gwyn hyd nos, yn llawer iawn gwell na dweud 'myshrws'. Prawf o ddiogrwydd mawr ym mywyd person yw pan fo'n anabl i ddewis y gair cywir, a hwnnw gan amlaf yn air cwbl naturiol ac wedi'i ddefnyddio cyn eu bod nhw wedi dysgu i bwodro tin babi hyd yn oed. Beth sydd o'i le ar y gair 'madarch' dwedwch? Dim byd, Gymry annwyl, ond bod symptomau'r claf ar ambell Gymro sy'n mynnu bod yn llofruddwyr yr iaith, yn Ddic Sionïod go iawn ac yn fradychwyr. Ond dyna ymarfer geiriau duon cryfion onide. Ond dyna beth a wneir yn gymwys wrth ddweud 'myshrws' yn lle 'madarch'; cefnu ar etifeddiaeth, cymryd gwisg ddieithr a gwneud uffach o sbort ar eich pennau. Ie, nyni â'n iaith sathredig a gwantan; nyni â'n 'daddy long legs' yn hytrach na Pry' Cannwyll, Pryf Teiliwr, Lleidr y Gannwyll, Jac y Bagla' ac Hirheglyn.

Ond hwyrach petae madarch yn enw masnachol ym mro 'Eco'r Wyddfa' y byddid yn ei arfer heb ronyn o esgus dros ei wneud yn iaith-ci-mwngral.


Noder, sut y bu i'r diwydiant llechi yn ei anterth beri i enwau Cymraeg o'r newydd ymddangos, hyd yn oed glas enwau, a'r rhai ohonynt yn du hwnt o wreiddiol ac yn arddangos cryn feddylgarwch a dyfeisgarwch.

Planhigyn blasus? Beth? Madarch? Ydynt bob gafael. Perthyn iddynt gyfoeth protinol, ac y mae'r fitamin B1 yn cadw corff dynol yn iach ac yn heini.

A dyna'r gwir; mae nifer o bethau daionus yn perthyn i fadarch; asidau naturiol fel nicotmig a nitoflavin, eto sy'n angenrheidiol i'r corff dynol.

Daw hyn â ni at fyrdwn ein neges. A oes rhaid tloidi cefn gwlad? Nac oes. Mae yma adnoddau naturiol. Madarch yw un.

Onid oes gennym hen chwareli — lleoedd delfrydol i ddechrau



diwydiant madarch; mae bro'r Eco yn llawn gwestai a thai bwyta. Beth am wrtaith? gellid sicrhau baw ceffylau, defaid a gwartheg o Wynedd benbaladr.

Sefydlu gwaith, a rhoi madarch ar y map, ac 'Eco'r Wyddfa' yn ei briod le, o fod y cyntaf i gyflwyno'r syniad i'r darlennydd. Pam ddim ynté?

Ond hwyrach eich bod chwi'n anghytuno. Hwyrach eich bod ar dân ers meityn ishio deud rhwbath. Beth am daro gair atom, a gwyntyllu'r mater? rân! Ewch ati!

ADLONIAN

'LENI'

Cyflwyniad diweddaraf Cwmni Theatr Gwynedd yw 'Leni', drama gan Dewi Wyn Williams gyda John Ogwen yn y brif ran.

Digrifwr sy'n teithio'r clybiau nos gyda'i act ydy Leni. Mae ganddo chwe mis i fyw — neu i farw, dyna ei ddilema.

Yr actorion eraill yw Judith Humphreys, Mair Tomos Ifans, Phil Reid, Dewi Rhys a Grey Evans.

Mae'r daith yn dechrau yn Theatr Gwynedd nos Fawrth — nos Sadwrn, a nos Lun — nos Fercher, Tachwedd 6-10 a 12-14.

PANTOMEIM

TWM SION CATI

Hwn fydd y pantomeim Cymraeg a berfformir gan gwmni Whare Teg yn Theatr Gwynedd yn ystod Rhagfyr a Ionawr eleni. Ymhlith yr actorion bydd y Brodyr Gregory, Idris Charles ac Owain Gwilym.

Bydd perfformiadau yn dechrau ddydd Mawrth, Rhagfyr 11 ac yn gorffen ddydd Sadwrn, Ionawr 5. Dyma amseroedd y perfformiadau:

Dydd Mawrth 11 Rhagfyr: 1.30 pm; dydd Mercher, 12 Rhagfyr: 10.00 am a 1.30 pm; dydd Iau, 13 Rhagfyr: 10.00 am a 1.30 pm; dydd Gwener, 14 Rhagfyr: 10.00 am a 1.30 pm; dydd Sadwrn, 15 Rhagfyr: 2.00 pm.

Dydd Llun, 17 Rhagfyr: 10.00 am a 1.30 pm; dydd Mawrth, 18 Rhagfyr: 10.00 am a 1.30 pm; dydd Mercher, 19 Rhagfyr: 10.00 am; dydd Iau, 20 Rhagfyr: 2.00

pm; dydd Gwener, 21 Rhagfyr: 2.00 pm a 7.00 pm.

Dydd Iau, 27 Rhagfyr: 2.00 pm a 7.00 pm; dydd Gwener, 28 Rhagfyr: 2.00 pm a 7.00 pm; dydd Sadwrn, 29 Rhagfyr: 2.00 pm a 7.00 pm.

Dydd Mercher, 2 Ionawr: 2.00 pm a 7.00 pm; dydd Iau, 3 Ionawr: 2.00 pm a 7.00 pm; dydd Gwener, 4 Ionawr: 2.00 pm a 7.00 pm; dydd Sadwrn, 5 Ionawr: 2.00 pm a 7.00 pm.

Ni chynhelir perfformiadau ar Rhagfyr 16, 22, 23, 24, 25, 26, 30, 31, Ionawr 1af.

Pris tocynnau: Oedolion £5 (Partion 20+ £4.50); Plant Ysgol £3.50 (Partion 20+ £3.00)

Cysylltwch â'r swyddfa docynnau (Bangor 351708) ynglŷn ag archebion.

GWARTHEG GWYLLT

A SAESON

Taith Genedlaethol

Hydref 24 — Rhagfyr 15

Yn y cyflwyniad yma 'mae Theatr Gorllewin Morgannwg, gyda'i arddull theatrig arbennig, yn rhedeg nerth eu traed i gadw un cam o flaen y dominos wrth iddynt ddisgyn — gyda chanlyniadau annisgwyl!

Ai anochel yw cwmp y domino olaf. Yn y distawrwydd, ai'r unig beth fydd ar ôl fydd gwartheg gwylt a Saeson?'

Perfformiadau nos Fercher a nos Iau, Tachwedd 28, 29 yn Theatr Gwynedd am 7.30 o'r gloch.

(Swyddfa docynnau, Bangor 351708).

CWMNI THEATR CENEDLAETHOL URDD GOBAITH CYMRU — CWRs A THAITH 1991

Bwriedir cyflwyno 'Godspell' yn ystod cyfnod y Pasg 1991, dan gyfarwyddyd y Bnr. John Owen.

Cynhelir y Cwrs yng Ngwersyll yr Urdd, Glan-llyn, canolfan rihysal y cwmni, ac yna bydd y cwmni yn mynd ar daith o gwmpas Theatrau Cymru am wythnos. Dyddiadau'r Cwrs a'r daith yw 31 Mawrth - 13 Ebrill 1991.

Mae angen actorion o oed dosbarth pedwar neu'n hŷn sy'n

ddawnsuwr ac yn gantorion, ynghyd â band ar gyfer y cynhyrchiad hwn, ac wrth gwrs, bydd angen technegwyr goleuo, llwyfan, gwisgoedd a rheolwyr llwyfan.

Os ydych yn aelod o'r Urdd ac yn awyddus i ymuno â'r cwmni cysylltwch â Swyddfa'r Urdd, Yr Ysgol Gynradd, Cross Hands, Llanelli, Dyfed SA14 6SU, rhif ffôn Cross Hands (0269) 845705, i gael furlfen.

DRAENOG

Fe glywsoch lawer tro mae'n siuŵr am ambell ffermwr anlwcus yn gorfod cael criw â rhaffau i dynnu ei fuwch o'r

ffos. Wel, bu rhaid i un ffermwr o'r ardal hon yn ddiweddar gael criw i dynnu ei wraig o'r ffos.

Tybed mai ei 'demonstration' nesaf i'r WI fydd 'A Mud Bath is Good for the Complexion'!

CYMDEITHAS WYDDONOL GWYNEDD



Nos Fawrth, Tachwedd 6, bydd Mr H. G. Williams y milfeddyg o Bontllyfni yn darlithio ar 'Cosfa'r Ddafad yn y Fuches' yn Narlithfa'r Adran Amaethyddiaeth, Coleg y Brifysgol, Bangor am 7.30 o'r gloch.

Dyma ail gyfarfod y Gymdeithas, o'r chwech sydd wedi eu trefnu am eleni. Cynhelir yr holl gyfarfodydd yn ytr un lle ar nos Fawrth gyntaf pob mis am 7.30 o'r gloch. Ceir cyfle i ymaelodi ym mhob cyfarfod.

Gwybodaeth arbennig am gyfarfod Rhagfyr 4 oddi wrth yr Ysgrifennydd: J. W. Jones, 9 Y Grugan, Groeslon, Ffôn: Llanwnda 830038 (cartref) neu Felinheli 670826 (gwaith).

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



BYSIAU ARFON LLANRUG

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 5175 77858

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Plymio

4 Bryn Eglwys
PENISARWAUN
Ffôn Llanberis
871047

Agor Ffiniau'r Gorffennol

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

CANEUON SERCH HEDD WYN I SIÂN

Cwmpodd Hedd Wyn yn y Rhyfel Mawr ar Orffennaf 31ain, 1917. Yr oedd Hedd Wyn yn cyfeillachu gyda merch ieuanc o Ffestiniog, sef Miss Jennie Owen, Pant Llwyd, geneth amddifad o dad a mam, ddiymhongar a deallgar. Arferai y bardd wneud cân arbennig iddi ar ddydd ei phenblwydd, cyn iddo orfod mynd at y fyddin, ac wedi iddo fynd i wersyll Litherland a drosodd i Ffrainc, anfonodd aml i ganig serch iddi gyda'i lythrau.

Dengys y cerddi angerddoldeb ei gariad tuag ati. Derbyniodd y gân ddiweddfad ddau ddiwrnod ar ôl iddo gwmpo yn Ffrainc, felly dyma ei gerdd ffarwel i'w hoffus Siân.

Gellir rhestru Jennie Owen o Bant Llwyd gyda Myfanwy Fychan o Gastell Dinas Bran (gwrthrych serch Hywel ap Einion Lygliw) a Lleucu Llwyd o Bennal ar ôl yr hon y canodd Llewelyn Goch ap Meurig Hen un o'r galaethau mwyaf teimladwy) ac â'r Ferch o Is-Conwy fu'n destun galarnad anfarwol Dafydd Nanmor.

Anfonwyd y cerddi hyn i'w teipio i Eifion Wyn ac yntau wedyn yn eu hanfon i Miss Owen. Cafwyd y cerddi yng nghopi Mr J. W. Jones, Min-y-ffordd, Tanygrisiau, hen gyfaill pur i Hedd Wyn a'i gariad Jennie Owen.

Cefais yr holl hanes a chopi o'r cerddi wedi eu cofnodi gan Carneddog yn ei golofn yn yr Herald Cymraeg, Ionawr 29ain 1918.

I JENNIE

Hogen glws a chroen gwyn glan, — heb ei hail

Yn y byd mawr llydan:
Un dyner, ffeind ei hanian
O! od o sweet ydyw Siân.

Hedd Wyn

YN SŴN Y GWYNT

Hoffter fy nghalon yw canu cân
A'i hanfon hi heno yn syth i Siân,
Llawn yw y goedwig o'r corwynt glan
A llawn yw fy nghalon innau o Siân,
Cofiwch, rhen Jennie, er gwaethaf pob cur
Fu neb yn eich caru erioed mor bur.

Hedd Wyn

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (93) 714043
neu
Caernarfon 4520
edau, nodwyddau
ac ati mewn stoc

CAN SERCH

Gobeithio maddeuwch
Yn awr, fel pe tae,
I mi am wneud i chwi
Bennill neu ddau.

Mi fynnaf eich galw
O hyd ac o hyd,
Yn eneth fach neisia
A ffeindia'n y byd.

Beth bynnag a ddelo
Ai gwynfyd neu friw
Gobeithio bydd Jennie
Yn para yn driw.

A chofiwch mod innau,
Er lleied fy mri
Yn para yn ffyddlon
O galon i chwi.

Rhyw dro daw y diwrnod
Trwy'r tywydd i gyd,
Bydd dau efo'i gilydd
Yn yr un byd.

Hedd Wyn

Cyflwynedig i Miss Jennie Owen, Pant Llwyd

Sôn amdanoch yng nghlust eich awenydd
Mae'r haf ar ei hynt.
Murmur eich enw mae helyg y mynydd
A'r blodau a'r gwynt.

Ond hwyrach fod gwynt Ffestiniog er
hynny

Yn cludo i chwi,
Enw nes at eich calon, 'rhen Jennie,
O filwaith na mi.

Hwyrach y byddwch yn eiddo tryloew
I arall rhyw ddydd,
Digon er hynny, fydd clywed eich enw
Ar yr awel brudd.

Pe gyrech fi ffwrdd fel hyn yn siomedig
Gan wawdio fy nghân,
Meddyliaf amdanoch a chalon doredig,
Am byth, yr hen Siân.

P'run bynnag ai heulwen ddisglaer ai
cwmwl

Fedd y dyfodol i mi,
Erys fy nghalon trwy ganol y cwbwl
Yn ffyddlon i chwi.

Mai 5, 1916

Hedd Wyn

I Miss Jennie Owen ar ei phenblwydd yn 25 oed

Gwn mi wn, fod llawer Jennie
Ym mhob gwlad a phlwy,
Gyda rhes ieuencid heini
Ar eu gruddiau hwy;
Ond mi wn am Jennie arall,
Lanach fil ei phryd,
Ac i honno minnau ganaf —
Jennie dlysa'r byd.

Gwn ei bod yn 'ffleiar' enbyd,
Er yn od o hardd,
Ond ai tybed wnaiff hi rywbyrd
Wawdio serch ei bardd:
Ond prun bynnag, mi ddymunaf
Iddi hi bob llwydd,
Na ddoed ati ysbyrd 'fflyrtio'
Ar ei dydd pen blwydd.

Gweld ei llun wna boys Ffestiniog
Yn y fflamau tân,
Waeth gen i am lun na phictiwr
Os y caf fi Siân:
Tybed fydd o'n ormod imi
Ofyn yma'n rhwydd,
Am eich llaw a'ch calon, Jennie,
Ar eich dydd penblwydd?

Cerdda Awst tros fro Ffestiniog,
Tros y graig a'r coed,
Chwithau'n sefyll fel ar riniog
Pump ar hugain oed:
Ar eich dydd pen blwydd 'rhen Jennie,
Wnewch chi ddweud i mi —
Prun ai'r Bardd ai rhywun arall
Bia'ch calon chwi?

Hedd Wyn

JENNIE

Pe byddwn i'n awel y mynydd
Yn crwydro trwy'r ffriddoedd yn rhydd,
Mi wn i ba le yr ehedwn
Nid unwaith na dwywaith y dydd:
Wrth fyned trwy'r helig a'r rhedyn
Heb beidio, mi ganwn fy nghân,
I'm calon nid oes ond un testun,
A hwnnw am byth ydyw Siân.

Os daw rhywun arall i'w cheisio
A hwnnw yn harddach ei rudd,

Ai tybed wnaiff hi fy anghofio,
A'm gadael yn unig a phrudd?
Am hynny gofynna fy nghalon
Ar waethaf un arall a'i ryw, —
Wnaiff hi fod am byth imi'n ffyddlon,
Yn ffyddlon tra byddwn ni byw?

Ni welais ei mwynach trwy'r ddaear,
Ni welais ei hoffach trwy'r byd,
Ai gormod im ofyn yn wylaidd —
'Ddaw hi at yr allor rhyw bryd?'
Er mod i yn sychlyd a chomon,
'Does ragrith na thwyll yn fy nghân,
Ac unig ddymuniad fy nghalon
Yw'ch ennill chwi'n gyfan, 'rhen Siân.

Hedd Wyn

I Jennie, ar ei Phen Blwydd yn 27 oed, Awst 1917

Gwyn fo'ch byd 'rhen Jennie dirion
Yn eich cartref tan y coed,
Lle mae'r blodau yn felynyon
Chwithau'n saith ar hugain oed.

Os bu'r byd o'r braidd yn greulon
Yn ei droion atom ni,
Blwyddyn wen, 'rhen Jennie dirion
Fo eich blwyddyn nesaf chwi.

Gwn fod bywyd yn heneiddio
Ac yn mynd yn hŷn,
Ond mae'm serch fel haf diwywo
Atoch chwi, yn dal yr un.

A phan êl y rhyfel heibio
Gyda'i gofid maith a'i chri,
Tua'r Ceunant sych dof eto
Ar fy hynt i'ch ceisio chwi.

A phan ddof o wlad y gelyn
Fel pererin yn llawn gwres,
Hwyrach digiwch os gwnaf ofyn —
'Wnewch chi roddi cam yn nes?'

Wedi'r oll 'rhen Jennie dirion
Boed eich bywyd oll yn llwydd,
A llif cariad pura' 'nghalon
Atoch ar eich dydd pen blwydd.

Hedd Wyn

Yr wythnos olaf o Orffennaf, 1917

SIOP
Nwyddau Gardd
Cynnyrch Cartref
Crefftwaith



**CANOLFAN
GARDDIO**
Blodau, Grug
Alpau, Perthi


ANTUR WAUNFAWR

Ffôn: Waunfawr 721

Cynnal a Chadw Gerddi
Cynnal a Chadw
Plannu Coed

Meinciau Concridd a Phren
Planters Concridd a Phren
Corachod

FFENESTRI UPVC DRYSAU MEWN GWYN NEU MAHOGANI



Esiaml o bris a gosod

Crefftwyr profiadol yn eu gosod
Ffoniwch am bris i

**J R PRITCHARD, 14 Glanrafon,
Bontnewydd**

Ffôn: Caernarfon 3507 (dydd neu gyda'r nos)
Croesawn ymholiadau gan fasnachwyr

FIDEO FIDEO FIDEO

Gwasanaeth Fideo
Proffesiynol

**JOHN BLIGHT
LLANBERIS
872209**

Priodasau a phob
achlysur arbennig arall
Hefyd Ffilmiau Hyfforddi
a Gwasanaeth newid
CINE I FIDEO

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Felinheli 670726

LLONGYFARCHIADAU i Meirion Jones, Stad Eryri, Arosfa gynt, ar ei lwyddiant yn yr arholiadau terfynol yn y cwrs i fynd yn feddyg. Dymunwn y gorau iddo yn y dyfodol yn ei yrfa fel meddyg. LLONGYFARCHIADAU i Barry Evans, mab Mr a Mrs Osgar Evans ar ei ddyweddian yn ddiweddar. TÂN GWYLLT: Nos Lun, Tachwedd 5, cynhelir arddangosfa tân gwyllt a choelcerth ar dir y Neuadd. Unwaith eto mae Yr Urdd wedi penderfynu trefnu'r gweithgareddau ar gyfer dathlu gwaith Guto Ffowc. Yn ogystal â'r goelcerth a'r tân gwyllt bydd cawl a chŵn poeth ar gael yn y Neuadd. PAENTIO'R CAPEL: Fel yr eglurwyd yn y rhifyn Hydref o'r Eco mae festri Cysegr a'r tu allan i'r Capel wedi cael eu paentio ac yn edrych yn arbennig o dda.

Gwnaed y gwaith gan drosedd-wyr wedi eu dedfrydu i wneud gwasanaeth i'r gymuned, gwasanaeth sydd yn cael ei drefnu gan Wasanaeth Prawf Gogledd Cymru. Bu tua dwys o fechgyn a merched yn gweithio dan ofal Mr Geraint Summers. Mae pawb fu'n gweithio yn y Cysegr yn teimlo eu bod wedi cael budd mawr o'r profiad a bod eu cyfraniad wedi bod yn llawer mwy gwerthfawr na fyddai cyfnod yn y carchar. Mae aelodau a swyddogion y Cysegr hefyd yn

gwerthfawrogi y gwaith sydd wedi ei wneud.

LLONGYFARCHIADAU mawr i Gail a Robin Warrington, Wern, ac Aled Jones, Fachell, ar eu lwyddiant ym Mhencampwriaeth Nofio Cenedlaethol Y Ffermwyr Ieuanc a gynhaliwyd yn ddiweddar.

PRIODAS: Dan heulwen ar Sadwrn, Hydref 20, yng Nghapel Cysegr, Bethel, priodwyd Gareth Wyn Griffiths, mab ieuengaf Eifion ac Eryl Griffiths, Bryn Awelon, Benllech, â Manon, merch hynaf Collwyn a Rita Williams, Elan, 4 Tan y Cae, Bethel. Gwasanaethwyd gan y Parchedigion W. R. Williams, Y Felinheli, R. J. Owen-Griffiths ac Ithel Gibbard, Benllech. Mrs Glenys Griffiths oedd yr organyddes a'r delynores oedd Ann Hopcyn.

Y morynion oedd Meinir a Menna Dauncey Williams (chwior-ydd y briodferch), Lois Dauncey Roberts (cyfnither) a Kelly Wyn Griffiths (ffrind). Rhys Jones oedd y gwas a'r ystlyswyr oedd Dafydd W. Griffiths a Anrhy Roberts.

Cyflwynwyd anrhegion lwcus gan Rhydian Gwilym, Sioned, Kelly, Menna, Meinir, Lois, Alma a Nain.

Gwnaed y gacen gan Miss Glenda Thomas o Fetws y Coed. Roedd y blodau i gyd wedi eu cyflenwi o siops Y Pedwar Tymor, Bae Colwyn a'r capel wedi ei addurno'n hardd gan Mrs Anna



Mathew Moray, Rhys Jones, Nia Jones a Lois Druce yn cyfri arian Casgliad Diolchgarwch plant ysgol Bethel cyn ei anfon i Gronfa Alan Pritchard, Nant Peris.

Wyn Hughes o Ddolwyddelan.

Cynhaliwyd y wledd a'r disgo nos yng ngwesty Neuadd henllys, Biwmares.

Treuliwyd y mis mêl ym Mharis.

Mae Manon newydd ddechrau ar ei swydd fel athrawes yn ysgol Llandygai a Gareth yn dân ddiffoddwr yng ngorsaf dân Bangor. Byddant yn cartrefu yng Nghilmeri, 84 Orme Road, Bangor.

Dyma gyfarchion Mr Dewi Jones, Benllech, i'r ddau:

Pob lwc i Manon yn Llandygai, Boed danlyd ei gwersi athrawaidd, I Gareth rhoed dŵr yn gyflenwad di-lai

A thanau ysgolheigaidd.

Dymuna Gareth a Manon ddiolch yn fawr iawn i bawb anfonodd eu dymuniadau da iddynt drwy gyfrwng y nifer helaeth o gardiau a ddarllenwyd yn y wledd.

Cyngor Cymdeithas Betws Garmon

Gwahoddir ceisiadau am swydd

CLERC Rhan-amser

i'r Cyngor uchod

Manylion pellach gan y Cadeirydd

Mrs Glenys Williams, Tanyweirglodd Betws Garmon

Ffon: Waunfawr 360

Dyddiad cau

23 Tachwedd 1990



Mr Victor Wyn Jones yn cyflwyno gwobr Cadw Cymru'n daclus i Ysgol Bethel.

Tŷ BWYTA A STAFELLOEDD TE BRYN GWYNEDD, WAUNFAWR

(100 llath o'r A4085 ger yr ysgol)

Bwydlen yn cynnwys: Prydau basged o £1.75

A la carte o £4.30 (3 chwr), Bwyd Plant o £1.75

Bwyd Llysfwytawyr o £3.85

Prydau ysgafn, teisennau cartref etc.

GWASANAETH TAKEAWAY tan 10 pm bob dydd

Galwch mewn neu ffoniwch Rita i

drefnu rwan ar gyfer cinio neu swper Dolig

(lle i hyd at 12 ar y tro)

Ffon Waunfawr 589

Ar agor bob dydd 5pm - 10 pm a

Sadwrn a Sul 10.30 am - 10 pm o fis Tachwedd ymlaen

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser
Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff

TAC SIS BETH EL

UNRHYW AMSER - UNRHYW BELLTER

Ffôn: (93) 670555

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

CARTREF NYRSIO PENISARWAUN
Os dymuna unrhyw un dreulio ychydig amser yn darllen, chwarae cardiau, gwau a chynnal trafod-aethau a.y.b. gyda rhai o'r cleifion, cysyllter, os gwelwch yn dda, â Mrs Cheryl Williams neu Mrs Sandra Jones, ffôn 872038.

YSGOL TAN-Y-COED: Fore Llun 8 a 15 Hydref, aeth holl blant yr ysgol ynghyd â'u hathrawon i'r Coleg Normal i gymryd rhan mewn gweithdai oedd yn seiliedig ar eu themau. 'Symud' yw thema dosbarth Mrs Thomas y tymor hwn, a gwnaeth y plant fodolau, lluniau a gwaith ysgrifennu yn seliedig ar y thema.

'Myfi fy Hun' yw cywaith dosbarth 1 a 2 a chafodd y plant gyfoeth o brofiadau gwfreiddiol. Fel rhan o'u cywaith ar 'Y Môr' aeth dosbarth 3 a 4 i weld y llongau ym Mhorth Penrhyn ac i astudio'r llygredd yn y Fenai.

Diolchir i Staff y Coleg ac i'r myfyrwyr am ddau fore gwerth chweil. Pob dymuniad da i'r myfyrwyr i'r dyfodol.

P'nawn dydd Mawrth, Hydref 9 aeth yr Adran Iau i flasu cynhyrchiaid Gwyddonol ei naws am 'Sŵn' — 'Gremlins in the Works' gan Gwmni Molecule yn Theatr Gwynedd.

Dydd Iau, Hydref 18 cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch yn yr Ysgol. Ymuniodd yr holl staff ategol yn y dathlu ynghyd â phlant yr Ysgol Feithrin sydd newydd ddechrau cyfarfod yn rheolaidd yn yr ysgol bore Mawrth ac Iau.

GAIR O DDIOLCH: Dymuna Mrs Eirlys Jones a Mrs Brenda Richardson ddiolch i'r teulu a'r holl ffrindiau am y caredigrwydd mawr a ddangoswyd atynt yn eu profedigaeth lem o golli un mor annwyl â Nathan Jones.

Diolchir yn arbennig am y gofal tyner a gafodd Mr Jones am lawer o flynyddoedd gan Feddygon Waunfawr a staff 'Ward Glyder' Ysbyty Gwynedd. Derbyniwyd cyfanswm o £312 tuag at Feddygfa Waunfawr a diolchir i bawb am eu haelioni.

Dymuna Mrs Mary Davies ddiolch o galon i aelodau'r Ysgol Sul, ac i aelodau'r Eglwys am eu rhodd garedig a'r pnawn diddorol dros ben yng nghwmni'r Parch Geraint Edwards a'r teulu.

LLONGYFARCHIADAU a phob bendith i Jean a Gwynfor Roberts Tai Croesion, ar achlysur eu Priodas Arian, Hydref 25ain.

Ein dymuniadau gorau i Amanda, Mair a Mike Orrock, ar enedigaeth James.

URDD BENTREF: Dyma rai o weithgareddau'r tymor: Tachwedd 6 — Ymaelodi a Noson o gân gyda Mrs Ann Thomas; Tachwedd 13 — Ymweliad gan aelod o Heddlu Gogledd Cymru — Mr Alun Bevan.

Tachwedd 20 — Cwis gan Mr Leslie Larsen; Tachwedd 27 — Noson yng nghwmni Arwel Jones. **NOSON TÂN GWYLLT:** Bydd y goelcerth yn cael ei thanio am 6.00 pm nos Lun, Tachwedd 5ed. Bydd cŵn poeth a diod ar werth. Bydd yr elw yn mynd at Ginio Nadolig yr Henoed. Croeso CYNNES i bawb!

GWELLHAD: Gobeithio fod William Jones, Bryntirion ac Owen Turner, Tyddyn Difyr yn gwella wedi triniaeth yn yr Ysbyty. Ein cofion hefyd at bawb sy'n sâl yn y pentref, a dymunir adferiad iechyd buan i chwi oll.

YSGOL SUL BOSRA: Ar y cyd â phlant Ysgol Sul Santes Helen, bu aelodau'r Ysgol Sul yn cymryd rhan yng Ngwasanaeth y Gymdeithas Feiblaidd yn Eglwys Crist, Llandinorwig.

Yr oedd yr Eglwys dan ei sang, gyda chyfeillion yn sefyll yn y cefn, a mawr yw ein diolch i'r plant i gyd am wneud eu gwaith mor raenus.

Dilynwyd gyda Chymanfa Ganu lwyddiannus gyda'r nos — daeth cynulliad teilwng iawn a chafwyd canu ardderchog. Diolchir i'r Pwyllgor am eu gwaith ac yn arbennig i Mrs Mary Davies a Mrs Nansi Jones.

Fore Sul, Hydref 21ain, cafwyd Gwasanaeth Diolchgarwch gan y Plant. Cymerwyd rhan gan yr athrawon, pobl, ifanc a'r plant a diolchir iddynt am wasanaeth o wir ddiolch.

PWYLLGOR NEUADD: Mewn Pwyllgor yn yr ysgol, tynnwyd Clwb Cant Medi. Yr enillwyr oedd: 1, Cathryn Falls; 2, Siân a Bethan, Caernarfon; 3, Ann Ifans, Sycharth.

Tynnir Clwb Cant Hydref mewn 'Disgo Calangaeaf' a gynhelir yn Neuadd yr Eglwys am 6.30 nos Fercher, Hydref 31. Y beirniad fydd Mrs Nansi Jones, Meillionnydd. **CLWB YR HEULWEN:** Oherwydd salwch gohiriwyd y Clwb y mis hwn, a chan fod y dydd yn byrhau a'r tywydd yn oeri ni fydd cyfarfod eto tan fis Ebrill '91.

LLONGYFARCHIADAU

eto i Sioep Gron — ymlaen yn awr i'r rownd derfynol.



SIOEP GRON: Llongyfarchiadau mawr i Josephine a Tony ar eu llwyddiant ysgubol mewn cystadleuaeth a drefnwyd gan y Swyddfa Bost drwy Ogledd, Canolbarth Cymru a'r Gororau.

Dyfarnwyd ein Swyddfa Bost ni y 'fywiocaf a'r orau yng Ngwynedd'.

Y mae'r trawsnewid a'r ail gynllunio wedi creu dipyn mwy o le i wasanaeth y post a'r siop ei hun. Mae symud y fynedfa hefyd wedi sicrhau diogelwch i'r cwsmeriaid — yn enwedig y plant. Dymunir 'Pob Lwc' yn y rownd nesaf.

PLANT YSGOL TAN Y COED YN Y COLEG NORMAL



Rhai o blant safon 3 a 4 ym Mhorth Penrhyn.

ATGOFION AM GAPEL GLASGOED: Dyma hanes am Gyngerdd Mawreddog yn y Capel bron i gan mlynedd yn ôl — y manylion gan Mrs Evans, Llys y Gwynt.

'Cynhelir Cyngerdd Mawreddog yn y lle uchod nos Sadwrn, Mehefin 3ydd 1893 pryd y gwasanaethir ynddo gan y personau canlynol: Ap Glaslyn; Miss Annie Blodwen Williams; Mr R. Thomas, Llanrug a J. O. Morris; Joseph R. Jones a Robert W. Jones. Datgenir hefyd gan y 'Penisarwaun Glee Party'.

Adroddwyd — Miss Katie Evans, Ffynnon Arthur a Hugh Pierce Williams, Llanrug.

Cadeirydd — Thomas Jones, Ysw. Crawia Slate Works.

Cyfeilydd — Mr Owen Trevor Jones, Bethel.

Dechreuir am 6.30. Yr elw er cynorthwyo Ebeneser Williams, Craig Dinas, yn ei aml brofedigaethau.

Tocyn 6c.

Gwasanaethai pawb o'r llwyfan-

wyr yn rhad ac am ddim er mwyn chwyddo'r elw i wrthrych yr elusen. Ond weithiau fe roddid hanner coron neu fwy i ambell un ohonynt oedd wedi dod o bell.

Byddai pawb wrth eu bodd yn gwrandao ar Ap Glaslyn yn canu'r 'Niagara', 'Gwraig y Morwr' a 'Cannwyll fy Llygad wyt Ti' a J. O. Morris (Jac Môr) yn canu 'It is Enough'; Thomas R. Williams yn canu 'Gwlad y Delyn' a Hugh Pierce yn adrodd 'Arwerthiant y Caethwas'.

Gresyn fod swyn yr hen gyngerddau wedi diflannu, onid e? **YR YSGOL FEITHRIN:** Mae'r Ysgol Feithrin yn awr wedi dechrau gyda 10 plentyn yn mynychu ar fore Mawrth a Iau o dan ofal yr athrawes, Mrs Judith Harding.

Yn ogystal â hyn mae Cylch Ti a Fi (Mam a'i Phlentyn) yn cyfarfod bob bore Gwener yn Neuadd yr Eglwys o 10 o'r gloch hyd at 11.30. Mae croeso i unrhyw fam/warchodwr a'i blentyn i ymuno â ni.



J.M. JONES
A'I FEIBION
GWAITH CERRIG BEDDAU

Y SGWÂR, LLANRUG

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol, Cerrig o bob math ar gael.

Ffôn:
Caernarfon 2898 (dydd)
Caernarfon 76285 (nos)

ANRHEGU ANTI MARY



Mrs Mary Davies yn cael ei anrhegu gan blant yr Ysgol Sul.

EGLWYS SANTES HELEN: Cafwyd gwibdaith i Gemaes dydd Sadwrn, 29 Medi. Yr oedd y Parch Geraint Edwards ei briod Betty, Ceris a Seiriol yno i'n croesawu. Ymwelwyd â dwy o'i eglwysi cyn ymgynnull yng Ngwesty'r Harbwr i gael lluniaeth.

Yno hefyd anrhegwyd Mrs Mary Davies â dau lyfr ar ei hymddeoliad fel athrawes Ysgol Sul. Er i'r tywydd fod yn wlyb iawn drwy'r prynhawn mwynhaodd pawb eu hunain.

DIOLCHGARWCH: Cafwyd dau wasanaeth llewyrchus eto eleni i ddiolch am y Cynhaeaf. Yng ngwasanaeth y Cymun Bendigaidd yn y bore cafwyd eitem ar gân gan blant yr Ysgol Sul a phregeth

rymus ac amserol yn yr hwyr gan y Parch Ganol Gareth Lloyd Jones, Ph.D. Canghellor y Gadeirlan.

Darllenwyd y llithoedd yn y ddau wasanaeth gan rai o blant yr Ysgol Sul.

Hoffai'r swyddogion ddiolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd trwy roi rhoddion, addurno'r Eglwys neu gynorthwyo yn y Ffair Gynhaeaf a gynhaliwyd yn Neuadd yr Eglwys trannoeth yr Ŵyl.

TRIP I GAER: Bydd y Bws yn gadael **Siop Gron** yn brydlon am **8.30 am** fore Sadwrn, **Rhagfyr 1af**.

Enwau ynghyd â'r arian yn ddiymdroi i Margaret Williams, Carrog, Ffôn 870716.

Pris — Oedolion — £3.60; Plant — £2.60.



Y Parch Geraint Edwards, Cemaes, yng nghwmni rhai o'r plant a fedyddiwyd ganddo ym Mhenisarwaun yn ystod y saithdegau.

Castell Cidwm



Dewch i gael bwyd ym Mwyty'r Pysgotwyr, **GWESTY CASTELL CIDWM** ar lan Llyn Cwellyn. Coginio Prydeinig, yn gynnil o wahanol. Gwinnoedd diddorol. Tân Coed. Clustogau Cyfforddus. Golygfeydd Hardd. Lle rhagorol i ymlacio.

Betws Garmon, Ffôn: Waunfawr 243

TAN Y COED

Annwen Parry, Ael y Bryn
Ffôn: 870276

MARWOLAETH: Ar Fedi 24 yng nghartref ei mab Mr Henry Williams, Bryn Arlais, 36 Stryd Dinorwig, Caernarfon, bu farw Mrs Elizabeth Williams gynt o 3 Tai Minffordd, Llanrug, yn 97 mlwydd oed.

Mrs Williams oedd aelod hynaf Eglwys Bresbyteriaidd Tan-y-Coed. Er iddi fethu presenoli yn Nhan-y-Coed ers blynyddoedd oherwydd llesgedd a gwaeledd, parhaodd ei diddordeb a'i chefnogaeth i'r eglwys hyd y diwedd.

Mwynhad oedd bod yn ei chwmmi a gwrandao arni yn adrodd troeon difyr ei gyrfa yn y fro hon, yn y Capel, yr Ysgol Sul, y Gymdeithas Lenyddol a'r eisteddfodau — yn enwedig ei hanes yn cystadlu ar adrodd, gan iddi fod yn adrodd-wraig arbennig.

Byddai swyn yn y sôn am yr hen fywyd cymdeithasol gwresog, prysur a berthynai gynt i'r ardal Gymreig hon fel oedd pan oedd hi yn ieuanc.

Cydymdeimlwn â'i mab Mr Henry Williams a'i merch Mrs Mary Wyn Morgan, ei wyresau a'r teulu oll fu mor garedig wrthi.

GWASANAETHAU DIOLCHGARWCH: Pnawn Sul, Hydref 21, yng nghapel Tan-y-Coed cynhaliwyd cyfarfod Diolchgarwch y Plant. Cafwyd darlenniadau o'r Beibl gan Mr Robert Williams, Arolygwr yr Ysgol Sul, Beverly a Kelly Roberts ac Anna Watterson.

Cafwyd gweddïau gan Annwen Parry a Sara Roberts, adroddiadau gan Steven Williams, Robin Thomas a Rheon Parry, hefyd gan Natalie Blanchard, Dafydd Thomas a Lyndsey Roberts.

Cafwyd datganiad gan y plant — dwy i gyfeiliant y gitâr, gyda Mrs Sharon Blanchard yn cyfeilio, a dwy i gyfeiliant y piano, a Beverly Roberts yn cyfeilio. Unodd y plant a'r gynulleidfa i ganu emynau cynulleidfaol, gyda Miss Enid Roberts yn cyfeilio.

Cyflwynwyd yr emynau oedd Annwen Parry, Beverley Roberts, Sara Roberts, Anna Watterson, Kelly Roberts, Steven Williams a Rheon Parry.

Rhodddwyd annerchiad i'r plant gan y gweinidog y Parch John Morris. Sicrhodd y Parch John Morris bump torth, dau bysgodyn

ac ysgub wedi ei gwneud gan bobydd arbennig iddo, er mwyn eu defnyddio i bwrpas ei annerchiad, a mawr oedd diddordeb y plant ynddynt.

Ar Hydref 22 cafwyd gwasanaeth Llun Diolchgarwch yn yr hwyr am 7 o'r gloch. Y pregethwr gwadd oedd Dr Owen E. Evans, Llanfairpwll.

Llongyfarchwyd Dr Evans ar ei anrhydeddu yn ddiweddar â doctoriaeth am ei wasanaeth clodfawr fel Cyfarwyddwr y Cydbwyllgor a roddodd inni y fersiwn newydd mewn Cymraeg cyfoes o'r Beibl cyflawn yn cynnwys yr Apocryffa.

Y cyfeilydd yn y gwasanaeth oedd Mrs Violet Blanchard.

O'R YSBYTY: Da deall fod Mrs Gwyneth Thomas, Gwelfor, yn gwella ar ôl llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd, Bangor.

EISTEDDFOD: Llongyfarchiadau i'r canlynol ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Bentref Llanrug — Beverly, Kelly, Lindsey Roberts, Awelfryn, Siwan, Gwenan a Guto Humphreys, Pant Bryngwyn.


Enillodd Guto gwpan er cof am Emma Bernard am yr arlunydd gorau.

Hefyd i Mr Robert Williams, Llain gwtâ am ennill cadair yr Eisteddfod. Mae Mr Williams yn arolygwr Ysgol Sul Tan-y-coed.

Cefnogwch ein Hysbysebwyd

Am bob math o
WYDR wedi'i
DORRI, DDANFON
NEU EI OSOD.
cysylltwch â

Barrys GLASS



Camelot,
PENISARWAUN
Ffôn: Llanberis 871144

W. H. JONES

TRYDANWR
Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: Llanberis
871470

Cottractau Weirio Tai
Cawodydd Trydan
ac ati

Beth am
ddysgu
dreifio gydag
YSGOL YRRU
BETHEL

Cysylltwch â Dic ac Eirlys
42 Bro Rhos, Bethel
PORTDINORWIG 671009

TACSI
CARIAN

- * Pell ac agos
- * Stesion, Maes
- Awyr, Porthladd
- * 24 awr y dydd

WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI
GWAIR

E. PUGH
WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

YR URDD: Ar Fedi 19 cafwyd noson brysur iawn i ddechrau'r tymor, gyda dros 40 o blant wedi ymaelodi eleni. Anti Nan ac Anti Olwen fu'n gyfrifol am y cofrestru; diolch iddynt ac i Elli Haf, a ddaeth yno i ymweld â'r criw.

Diolch i'r rhieni am gludo'r plant i'r pwll nofio yng Nghaernarfon ar Fedi 26, ac i Anti Gill ac Anti Nan am drefnu cwis ar gyfer Hydref 3.

Bu Huw John Huws o'r Pili Palas draw i roi sgwrs ar Hydref 10 — rwy'n deall fod y plant wedi mwynhau yn fawr iawn.

Nos Fercher Hydref 17, daeth Tomos y Tap o Dŵr Cymru i ymweld â'r plant. Diolch i Elfyn Griffith a Keith Owen am ei gynorthwyo!

Dymunwn yn dda i'r plant fydd yn cystadlu yng nghystadleuthau nofio'r Urdd ym Mangor ar Tachwedd 8 (dan 10 oed) a Tachwedd 14 (dan 12 oed).

Mae gêm belrwyd wedi ei threfnu ar gyfer dydd Sadwrn, Tachwedd 3 (i'w chwarae ar iard yr ysgol) yn erbyn Penmachno. Bu'r tîm pelrwyd yn llwyddiannus nos Lun, Hydref 22 gan guro Felinheli 10-7 mewn gêm gyfeillgar.

Yn anffodus, hyd yma, methiant fu'r ceisiadau i drefnu gêm ar gyfer y tîm peldroed fu'n llwyddiannus y tymor diwethaf, ond mae Yncl Gari'n trio'i orau glas, hogia!

Cofiwch Noson Guto Ffowc yr Urdd nos Lun, Tachwedd 5, tanio ar gae'r Ganolfan am 6.00. Darperir lluniaeth ysgafn (cŵn poeth, cawl ac yn y blaen) ar eich cyfer.

Cofiwch hefyd Sul yr Urdd yn Llanrug, Tachwedd 18. Cewch fwy o fanylion yng nghyfarfod yr Urdd, neu yn yr ysgol.

LLONGYFARCHIADAU: i'r Parch John Glyn a Sioned, Garmon, ar enedigaeith mab bychan, Llywelyn Elidyr, brawd bach i Rhion ac Arawn; i Mr a Mrs W. T. Owen, Noddfa, Tref Eilian, ar ddod yn nain a taid unwaith eto. Ganwyd mab bychan, Siôn, i'w merch Elizabeth a'i gŵr Steven, brawd bach i Rhys; i Mr a Mrs Raymond Parry, Ffridd Felan, hwythau wedi cael wŷr bach. Ganwyd mab i Gwyn a Julie, brawd bach i Jackie.

I Dafydd Thomas, Treforfan ar ei briodas â Wendy o Bontnewydd. Maent wedi ymgartrefu yn Nhal-y-

sarn; i Gerald Rowlands, Bryn Golau ar ei briodas â Sara o Fiwmares. Byddant hwy yn ymgartrefu yn Llanrug; i Richard, Gardd Elen ar ei ddywedd i Carys Wyn o Moelfre; i blant Ysgolion Sul Bethel a Chroesywaun am gynnal gwasanaeth diolchgarwch arbenig o dda, ac i Nan Wyn am anerchiad gwerthfawr; i Nia Einir, Rhoslan gynt, ar ei phriodas â Gareth o Borthmadog.

I ddisgyblion Ysgol Syr Hugh Owen a oedd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Ysgol.

TREULIODD rhai o gerddorion ifanc yr ardal eu gwyliau hanner tymor yn yr Almaen, gyda band chwyth ieuencid Gwynedd.

Bu'r grŵp 'Beganifs' yng Nghaerdydd yn paratoi ar gyfer rhaglen deledu — byddant yn ymddangos ar eich sgrîn yn y dyfodol agos. Tybed a ydych chi wedi clywed ei tâp 'Llygaid Gwydr' erbyn hyn?

YN YR YSBYTY: Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mrs Hughes, Llys Meredydd; Mr Glyn Williams, Tref Eilian a Mr J. Jones, Cae Adda sydd yn yr ysbyty, ac at Eira Wyn, Llwyn Celyn, sydd yn yr ysbyty yn Llanfairfechan.

ADREF O'R YSBYTY: Croesawn Mrs Fflo Jones, Y Bwthyn, Stad Croesywaun; Mrs B. Hughes, Tref Eilian; Mrs Katie Wyn Jones, Bron Eifion ac Ella Wyn Jones, Graianfryn, adref o'r ysbyty.

CYDYMDEIMLO: Anfonwn ein cydymdeimlad dwys at Mrs D. Pritchard, Bro Waun, yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd yn ddiweddar, ac at Mrs Fflo Jones, Y Bwthyn, yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL: Bydd tymor newydd yn cychwyn nos Lun, Hydref 29 pan y disgwylir y naturiaethwr Ted Breeze Jones i roi sgwrs gyda sleidiau ar y testun 'Tro ym Myd Natur'.

Yng nghyfarfod mis Tachwedd ar nos Lun, Tachwedd 12, ceir sgwrs ar 'Y Trydydd Byd — Lesotho' gan Mary Vaughan Jones, sef hanes ei thaith i'r wlad sy'n efaill â Chymru.

Estynnir gwahoddiad cynnes i hen aelodau a rhai newydd i ymuno â'r Gymdeithas y gaeaf hwn eto, ond rhaid ymaelodi cyn diwedd Rhagfyr. Bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn y Ganolfan ac yn

dechrau am 7.30 pm.

CLWB GWYRFAL: Mewn cyfarfod o'r aelodau dan lywyddiaeth y Parch Ganon Barry W. Thomas i derfynnu gweithgareddau'r Clwb, penderfynwyd rhannu yr arian mewn llaw yn y Gronfa fel a ganlyn — Ysgol Waunfawr; Meddygfa Waunfawr a Chronfa Hosbis yn y Cartref.

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Medi: 1 (£40), Emsul Jones, 15 Bro Waun; 2 (£25), Mrs Roseanne Hughes, 15 Tref Eilian; 3 (£10), Mr E. Williams, Dwyfor.

MERCHED Y WAWR: Agorwyd y tymor newydd yn llwyddiannus iawn gyda'n siaradwr gwadd Mr Owain Owain yn ein diddanu a'i sgwrs 'Hwyl gyda'r Gymraeg'. Cawsom enghreifftiau doniol tu hwnt o ddiniweidrwydd plant wrth ddysgu iaith a'i defnyddio mewn amgylchiadau gwahanol.

Diolchwyd i Mr Owain gan Mrs M. Owen. Bu Beryl Jones, Alma Jones a Glenys Jones yn gyfrifol am y tē a Mrs Nellie Williams enillodd y raffl.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Hydref 25 a'r Cinio Nadolig ar Dachwedd 22.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Nos Iau, Medi 4, bu cyfarfod cyntaf y tymor. Croesawodd y llywydd Mrs Catherine Jones, aelodau hen a newydd yn ôl ar ôl y gwyliau.

Y gŵr gwadd oedd Mr R. Pritchard sydd yn gwneud gwaith ardderchog gyda Tenovus. Rhoddodd eglurhad i ni am y gwaith trwy sgwrs a ffilmiau.

Diolchwyd iddo gan Mrs Elen Jones. Goflawyd am y te gan Mrs Morfa Evans a Mrs R. Bracegirdle. Enillwyd y raffl gan Mrs Mary Davies.

DIOLCH: Dymuna Sandra (Graianfryn gynt) a Neil Roberts, ddiolch yn fawr iawn i bawb am y cardiau



Sandra a Neil Roberts a briodwyd yng Nghapel Croesywaun ar Awst 11.

a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas yn ddiweddar. **DIOLCH:** Hoffai Ella Wyn, Graianfryn, ddiolch yn gynnes i'w theulu a phawb arall am y caredigrwydd a dderbyniodd tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod gartref; diolch arbennig i'r meddyg teulu am ei ofal cyson. **EISTEDDFOD ARDAL WAUNFAWR:** Bydd beirniadu'r cynnyrch gwaith llaw, arlunio, coginio a ffotograffiaeth yn yr Ysgol am 6.30 o'r gloch nos Iau, Tachwedd 8. Derbynnir y cynnyrch am 6.00 o'r gloch.

Os oes rhywun eisiau defnyddio y ganolfan ar gyfer ymarfer cysyllter â'r ysgrifenyddes.

Y dyddiad cau ar gyfer y gwaith ysgrifenedig yn Tachwedd 8. Ni dderbynnir unrhyw gynnyrch ar ôl y dyddiad yma.

Tachwedd 5
ar gae'r Ganolfan
Noson i'r Teulu

NOSON TÂN GWYLLT

Bydd cŵn poeth a chawl

am bris rhesymol

Gwneir casgliad ar y noson

tuag at gost y Tân Gwyllt

SIMNEIAU GWael? CRACIAU
MWG A HOGLA' TARO PERYGLUS

Cysylltwch â David Wood

'INSULAF LUE'

Yr Arbenigwyr ar leinio simneiau

FRON HEULOG, DINORWIG

Ffôn: Llanberis 871376

Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES

17 BRYN TIRION

PENISARWAUN

Ffôn: LLANBERIS 872421

Lolfa Gwesty'r Fictoria, Llanberis
Nos Iau, Tachwedd 22ain am 7.30

NOSON GYMREIG

yn llawn o hwyl

gyda

HOGIA LLANDEGAI

Bwyd basged ac adloniant £5

Tocynnau (nifer cyfyngedig)

ar werth yn y gesty gyda hyn

Dyma'r erthygl a enillodd Gadair Eisteddfod Llanrug i 'Madyn Croes' sef Mr Robert Williams, Llain Gwta, Llanrug.

HEN DAFARN WLEDIG

O groesi Pont Betws, dros Afon Gwyrfa, tu draw i'r Waunfawr, fe ddowch wyneb yn wyneb a'r hen dafarn ar gwr y llan a adwaenid, yn nyddiau ei thrwydded fel Betws Inn. O graffu ar garreg betruial ddu ar y mur allanol, gwelir yr arwydd 'M. Pierce 1750'. Enw'r adeiladydd yn ôl pob tebyg, pan oedd bri ar deithio efo'r goets fawr.

Yng nghanol y ddeunawfed ganrif, pan oedd teithio yn fwy blin o lawer, roedd hon fel gwerddon i fforddion rhwng Caernarfon a Rhyd-ddu. Onid dyma ffordd y pererinion o briordy Beddgelert dros ysgwydd y Cefn Du i'r Gadeirlan ym Mangor, dros y canrifoedd. Amheuthin iawn oedd diod ac enlllyn i deithiwr blin.

Wrth fynd trwy hen ddogfennau o'r cyfnod, deuthum o hyd i ewyllys un Morgan Jones, tafarnwr, dan sein y Llwynogod Croesion a wnaed yn 1754.

Ei ddymuniad oedd bod ei briod, Ann Jones, yn cael y ddau dy yn y Bettws, h.y. y tŷ o'r enw Cross Foxes, ymhle yr oedd yn byw (a'r tir o'i amgylch) a'r tŷ yn Bettws Garmon (a'r tir o'i amgylch) lle'r oedd Griffith Lewis yn byw.

Yr oedd yn trosglwyddo'r cyfan o'i lwyr eiddo i'w fab John Morgan ac yntau yn ei dro i dalu'r swm o £343, oedd yn ddyledus o'r ystad i Ann Jones, oedd yn byw yn ddiweddar yn y Park, ond yn awr yn y Wern, Llanfrothen a hefyd dosbarthu deg punt yr un i'w chwiorydd, Margaret Morgan a Jane Morgan, yn uniongyrchol o'r ystad.

Fe rydd bum punt o'i ystad bersonol i'w ferch Jonett Morgan ar ei phen blwydd yn un mlwydd ar bymtheg oed, ac yr oedd i gael ei chynnal hyd hynny gan yr Ysgutorion, a hefyd i gael y cwpwrdd derw oedd wrth y tân yn y gegin.

Penodir ei briod, Ann Jones, a'i ferch, Jane Morgan, fel Ysgutorion ac ar ôl dosbarthu'r rhoddion uchod, fe rydd y gweddill o'i eiddo i Jane. Rhoddir gwahoddiad i Robert Williams, gwerthwr melfed a sidan yng Nghaernarfon, i fod yn oruchwyliwr dros weinyddu'r ewyllys.

Fe'i harwyddwyd ar 10 Tachwedd 1753 gyda Henry Williams, Clerc, Thomas Hughes a John Morgan fel tystion; a'i phrofi gerbron Edward Benett, dirprwy Esgob, ar Rhagfyr 20 1754. Gwerth ei eiddo oedd £33-3-0, yn cynnwys

anifeiliaid a dodrefn wedi eu prisio gan John Morgan a Thomas Hughes. (Ew. & Ach.)

Ewyllys arall, yn niwedd y ganrif, oedd eiddo Griffith Jones (iwmon) amaethwr, Cross Foxes.

'Fe rydd holl gynnwys y tŷ ynghyd â dwy fuwch, ei gaseg, y cyfan o'i ddefaid a hefyd ugain punt mewn arian parod, i'w briod Ann Jones er ei mwynhau ei hun tra fo byw.

Ar farwolaeth Ann Jones, ei briod, yr oedd ei wyres, Mary Griffith i gael y cwpwrdd tridarn a'r clocioau oedd yn eu cartref ym Metws Garmon, a'i unig ferch, Frances Jones, sef priod Richard Griffith, Gwredog Isaf, i gael y gweddill o'i eiddo ac i fod yn unig ysgutor.

Arwyddwyd yr ewyllys ar 1 Mehefin 1796 gyda Thomas Jones Tan'rallt a William Hughes, Bryn Beddau, fel tystion. Fe'i gweithredwyd i Frances Jones, yr Ysgutor, gerbron John Pughe, dirprwy esgob, ar 19 Tachwedd 1796.

Gwerth ei eiddo oedd £216-6-4 yn cynnwys anifeiliaid, celfi a dodrefn tŷ, offerynnau fferm, gwair a dyledion eraill; wedi eu prisio gan Henry Williams a Hugh Roberts ar 26 Hydref 1796. (Ew. & Ach.)

* * * *

Yn ein dyddiau ni, y deiliad olaf oedd Robert Arthur Owen a'i wraig Elisabeth Owen. Roedd y ddau yn gymeriadau hynod; hi yn ferch yr hen dafarn, er nad yn dafarnwraig, yn cadw merlod at wasanaeth merlota yn nhymor yr haf. Bu farw yn ddisyfyd dro'n ôl yn aelod gwerthfawr o Dystion Jehofa.

Roedd Robin Arthur yn adnabyddus i lu o deithwyr

rhwng Beddgelert a Chaernarfon, gan mai ef oedd un o yrrwyr amlwg Bwsiau Gwyn, Waunfawr. Er iddo fyw dros dro yn ardaloedd Llanrug a Brynrefail, ei fam yn frodor o Lanrug, yn y Waun yr oedd ei galon.

Yn nyddiau ysgol bu ddisgybl yn y Waunfawr a thros dro ym Mryneryr, Llanrug, ond y Waun oedd ei 'scene' ac yno y byddai popeth o bwys yn digwydd. Roeddwn yn gyd-ddisgybl ag ef ym Mryneryr tua 1924-25, ac yn ei adnabod ef yn burion fel bachgen o Danycoed.

Tarewais arno ar wasanaeth yn yr RAF yn Heliopolis yn yr Aifft ac yr oedd yr un mor ddyfeisgar efo'r Arab ag oedd yn trin y Cofis ar y Maes yng Nghaernarfon.

Wrth ddisgyn o'r tram yn Helio a throi tua'r gwersyll, pwy welwn yn llechu yng nghysgod y 'mouski' ond Robin. Ni chymrodd arno ryfeddu fy ngweld yn fannu, er nas gwelwn ers blyneddau, ond mynnu dangos yng nghilfach dywyll y stryd, y fargen a gawsai gan ryw Arab. 'Dangos hi', meddwn, gan ddisgwyl gweld oriau'r gain o waith prid. 'Na, na', meddai, 'tyrd yma', a throdd ei gefn ar y stryd i'w datguddio dan ei lawes yn llechwraidd. Rhyw wats arddwrn digon cyffredin yn

llewyrchu yn y nos oedd hi, ond credai Robin iddo gael trysor.

Rhyw greadur yn delio efo mân bethau y byd oedd o a'i grebwyll yn ddigon syml. Fe gofiwch iddo wneud dipyn o sylw yn y Cymro gyda chwningen yn cyd-rannu ei damaid ar y bwrdd bwyd yn ei gartref yn y Bettws.

Yn y cylchoedd Cymreig yng Nghairo adwaenid ef fel 'Robin Hellfire' am iddo yn ôl y sôn, golli trelar o du ôl i'w dryc wrth ddod i lawr Halfa Pass o Libya. Y bechgyn tu ôl iddo yn y tryc yn trio'u gorau i gael ei sylw am yr anffawd, ond roedd o yn meddwl mai anghytuno ag o ar y ffordd iawn i fynd, oeddent. Ni wrandawai, ond gweiddi 'Dw i'n gwobod ffordd i fynd siŵr argo.' Mawr oedd ei syndod, 'rôl cyrraedd, o weld colli'r trelar.

Bu yntau farw, yr un mor ddisyfyd â Beti ei wraig, rhyw flwyddyn yn ôl a'i roi i orwedd yn ei hoff ardal ar gwr y Waun.

Mae'r hen Dyn y Bettws yn cael ei adnewyddu i wynebu cyfnod newydd. Pwy ysgwn i fydd y deiliaid newydd?

Ew. & Ach. — Rhaid cydnabod dyfyniadau o Ewyllysiau ac Achau Teuluoedd De Sir Gaernarfon, gan T. Ceiri Griffith, Gwasg Llyfrgell Genedlaethol, Aberystwyth.

CLWB FFERMWYR IEUAINC CAERNARFON

Penderfynwyd ail-gynnal y Clwb ar ddechrau tymor newydd ar Nos Fawrth, medi 256 gyda'r gwahoddiad i hen aelodau a newydd. Cafwyd Helfa Drysor o amgylch Bethel a'r ardal a oedd wedi ei drefnu gan Myfanwy Jones a Gwen Jones. Yr enillwyr oedd Helen Jones a'i chriw. I orffen y noson cafwyd barbaciw yn fferm gyfagos, Fachell. Roedd hyn yn gyfle i bawb sgwrsio.

Nos Iau, Medi 27 cafwyd gwahoddiad gan Clwb Llanybi i fynd yno i gymeryd rhan mewn noson gymdeithasol. Cafodd yr aelodau noson ddiffr yn eu cwmni.

Dydd Sadwrn, Medi 29 aeth Aled Jones, gail a Robin Warrington lawr i'r Dre Newydd i gynrychioli Eryri yng ngweithgareddau Nofio Cymru. Roedd y tri yn llwyddiannus iawn. Cafodd Aled ddau gyntaf a Gail a Robin Warrington ddau ail. Llonygyfarchiadau iddynt am wneud mor dda.

Dydd Sul, Medi 30 aeth rhai o'r aelodau i Alton Towers. Er i'r bws dorri i lawr ar y ffordd yno, ni amharodd ar y diwrnod a cafodd pawb fwynhad mawr.

Nos Fawrth, Hydref 2il roedd y noson yng ngofal Myfanwy Jones.

Roedd y noson yma yn gyfle da i bawb ddod i adnabod ei gilydd ac hefyd i'r aelodau newydd ddod yn ymwybodol o ba mor dda yw'r Clwb.

Ar ddiwedd y noson gofynnwyd a oedd gan rhywun ddiddordeb mynd i ddawns dechrau tymor yn y Dome, a oedd yn cael ei gynnal ar nos Iau, Hydref 4ydd.

Nos Fawrth, Hydref 9fed daeth trefnydd y Sir, Gareth Huws i egluro beth oedd ei waith ac i ddweud am wahanol weithgareddau y mudiad. Llonygyfarchwyd Aled Jones, Eurwyn Jones a Tudur Parry am ddod yn 3ydd mewn cystadleuaeth ffensiô a gafodd ei chynnal dydd Sadwrn, Hydref 6ed yng Nglynllifon. Cafwyd yna noson ddiddorol yng nghwmni dwy o aelodau'r Clwb, Bethan Jones a Sioned Parry.

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas

PRIF GYNRYCHIOLWYR



YNG

NGWYNEDD

Perchennog: E.P. Hughes

MODURDY DOLYDD

GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562

MAE'R

SAMARIAID

YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR

354646

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

CYFARFOD YNG NGHANADA



Llawenydd di-bendraw ddaeth i ran Elizabeth Erina (Charlotte Street, Llanberis, gynt) pan wnaeth gyfarfod ei ffrind ysgol, Jean Davies, Modurdy'r Wyddfa, Llanberis, yn Lennoxville, Quebec. Roedd Elizabeth a'i gŵr wedi mynd ar daith gyda Sulwyn Thomas, BBC Radio Cymru o gwmpas dwyrain Canada ym mis Hydref.

Nid oedd Jean ac Elizabeth wedi gweld ei gilydd ers 30 o flynyddoedd, a does dim rhaid dweud fod yna hen siarad a hel atgofion am eu blynyddoedd cynnar yn Llanbêr ac yn ysgol Ramadeg Brynrefail.

Cyfarfyddodd Elizabeth hefyd â Shirley Griffiths, Gelli Hirbant, Rhes Victoria gynt. Roedd Shirley a Jean yn anfon eu cofion at bawb ym 'Mhentra Bach Llanbêr'.

Dyma lun o Jean ac Elizabeth ar y noson hapus honno, gyda Sulwyn Thomas. Clywyd y ddwy yn cael cyfweiliad ar Radio Cymru gan Sulwyn Thomas ar ei 'Stondin'.

CLWB CANT YSGOL DOLBAD-ARN: Enillwyr Hydref oedd: £25 — Beryl Lewis, 3 Rhes Efrog, Llanberis (124); £15 — Brenda Hughes, Coed y Glyn, Llanberis (132); £10 — Delyth Wyn Roberts, 50 Maes Padarn, Llanberis. SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod yn y ganolfan ar Fedi 27. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs Hannah Jones a chroesawyd yr aelodau yn ôl ar ôl gwyliau'r haf. Darllenwyd y llythyr misol.

Cydymdeimlwyd â Mrs Arvonja Evans yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer yn ddiweddar.

Roedd yr aelodau yn falch o glywed fod Mrs Jean Elis o Fethel wedi dod adref o'r ysbyty ac yn dymuno adferiad buan iddi.

Cafwyd enwau i fynd i Landudno ym mis Tachwedd i weld Gŵyl Ddrama y mudiad.

Cafwyd Te Parti wedi ei drefnu gan yr aelodau i ddathlu tri chwarter canrif ers sefydlu y mudiad. Torrwyd y deisen ddathlu gan Mrs Jan Davies. Roedd y deisen yn rhodd gan Mrs Helen Morris. Gwnaed elw o £10.10c am y bwyd ac fe'i rhoddwyd i Blant

Mewn Angen.

Y gwestwragedd oedd Mrs Dorothy Thomas a Mrs Helen Morris. Enillwyd y raffl gan Mrs Eluned Mai Jones.

DIOLCH: Dymuna Mr Derek Jones, 62 Maes Padarn, ddiolch i'w holl deulu, cymdogion a ffrindiau am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag ato tra bu yn yr ysbyty yn ddiweddar, ac ar ôl dychwelyd gartre. Diolch yn fawr.

DIOLCH: Dymuna Ceinwen Williams, Rhes Cambrian, ddiolch o ghalon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd tra bu yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Dewi Sant yn ddiweddar, ac hefyd ar ôl dychwelyd adref.

DIOLCH: Dymuna Mrs M. Thomas a'r teulu yn 2 Bryn Teg, ddiolch o galon i bawb am y caredigrwydd a'r cydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli chwaer annwyl.

DIOLCH: Dymuna Elfed a Carys Morris, 2 Rallt Goch, Ceunant, Llanberis, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd a'u haelioni yn ystod

gwaeledd eu mab Rhys yn yr ysbyty.

DIOLCH: Dymuna Einir Thomas, 9 Stryd y Ffynnon ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion ar achlysur ei phenblwydd yn 18 oed.

CLWB Y METHEDIG: Dymuna Mrs Megan Owen ar ran Clwb y Methedig ddiolch i bawb a

gyfrannodd ac a helpodd ar y noson a drefnwyd i godi arian. Codwyd £135.00.

ENILLWYR Cystadleuaeth Gerddi Tai Cyngor oedd: 1, Oliver Edwards, 93 Maes Padarn; 2, P. B. Jones, 36 Dôl Elidir; 3, R. Roberts, 30 Dôl Elidir; 4, Mrs Maxwell Jones, 48 Dôl Elidir; 5, Mrs June Ward, 4 Maes Padarn.

RHODD I GÔR



Mr Mike Jones, Rheolwr Gwerthiant yn cyflwyno siec am £500.00 i Einir Wyn Owen ac aelodau o gôr Lleisiau'r Gweunydd ar ran Cwmni Fiat a Modurdy London, Cwm y Glo. Gwahoddwyd y côr i fynd ar daith i Israel y flwyddyn nesaf.

CAEATHRO

Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen. Ffôn: C'fon. 3536

CYNGOR CYMUNED: Yn y cyfarfod ar Hydref 22, roedd yr heddlu lleol yn bryderus ynglŷn â'r posibilrwydd o oedi marwol pe bai injan dân yn methu mynd trwy'r pentref ger y 'Post'. Apelir ar drigolion i gadw lled digonol ar draws y lôn.

Datganwyd siom fod pobl lleol yn tipio sbwriel gardd ger sedd y pentref. Disgwylir y bydd y Cyngor Sir yn cyhoeddi manylion gwaharddiadau aros yng nghanol y penrref gydag amser penodol ar gyfer gwrthwynebu.

Os na fydd trigolion Penrhos yn derbyn cynnig Swyddog lechyd yr Amgylchedd i'w gyfarfod i drafod problem swm y cŵn hela, bydd y Cyngor yn gwrthod trafod y mater ymhellach. Mae gwahoddiad i gynrychiolwyr mudiadau'r pentref wasanaethu ar bwyllgor Hosbis yn y Cartref Gwynedd.

Bydd y Comisiynywyr Trafnidiaeth yn archwilio lefel gwasanaeth Cwmni Crosville Cymru ar lwybr

Waunfawr.

Nid oedd llythyr Syrffewr y Sir ynglŷn â sicrhau pafin o'r fynwent i'r garej yn un gobeithiol o gwbwl. Penderfynwyd cyfranu £15 at Ysgol Feithrin Bontnewydd a £50 at lanhau mynwent Caeathro.

SIOE'R PENTREF: Cynhelir y sioe ar ddyd Sadwrn, Awst 17 1991. er mwyn llenwi oriau'r gaeaf, y cystadleuthau yn Nosbarth 4 Celf a Chrefft yw: 1. Gweu neu grosio unrhyw ddilledyn; 2. Unrhyw eitem o grefftwaith ar gyfer y tŷ (e.e. brodwaith, gwaith coed); 3. Gwnio unrhyw ddilledyn; 4. Unrhyw eitem o grefftwaith ar gyfer yr ardd (e.e. berfa ar gyfer blodau, neu sedd); 5. Tegan Meddal.

(parhad o dudalen 11)

dylai ffonio ar nos Iau pan oedd mam yn Merched y Wawr, ac fel'na y bu.

Ond wrth gwrs, tydw i ddim wedi clywed ganddo na'i weld ers wythnosau, mam yn rhoi dŵr oer am ei ben mae'n siŵr bob tro y ddi i'r drws; wel, dyna beth oeddwn i'n ei feddwl.

Ond heno rwyf am y tro cyntaf wedi sylwi fod bywyd yn werth i fyw ac mi wneith dad fy ngweld yn llwyddo. Bydd, mi fydd ei ferch fach o yn cario'n mlaen ac yn llwyddo.

'Mirain. Beth am i chdi fynd allan heno i'r Disgo hefo Angharad. Mi fydd Osian yma o gwmpas saith'.

Na, nid Mam oed yn siarad? Ond, na, hi oedd. Am y tro cyntaf mewn pymtheng mlynedd mae hi'n rhoi rhyddid i mi, ac mi gofia i'r noson yma am byth, fel y cofiaf am dad...

GWILYM H. WILLIAMS

**BRYN DAIRY
2 BRYNHYFRYD**

BETHEL

Ffôn

Port Dinorwig 670786



Llefrith
Llaeth Porfa
Llaeth heb Hufen
Wyau, Tatws
Diodydd
Ffrwythau

**CARPEDI
GLÂN!**

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â

**TEGID
PRITCHARD**

**CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 291
Hefyd ail-osod carpedi**

Beth am ddod i gystadlu i
**EISTEDDFOD
DYFFRYN OGWEN**

Manylion:

**J. Medwyn Williams,
Bethesda 600284**

Neu beth am ddod i
fwynhau'r wledd yn
**Ysgol Dyffryn Ogwen
Sadwrn, Tachwedd 17
am 12.30 a 6**

Lluniaeth ysgafn ac
Arddangosfa Gelf a Chrefft
yn yr Ysgol bnawn Sadwrn

23

CHWARAEON

PÊL-DROED

TÎM CYNTAF LLANBERIS



Cip olwg y mis yma ar y tîm y gellid ei alw'n dîm hŷn yr ardal, a hynny am fod tîm cyntaf Llanberis yn eu hail dymor yn y Welsh League, neu'r Sealink Welsh Alliance fel y'i gelwir bellach.

Nigel Phillips yw'r golgeidwad, a'r amddiffynnwyr yw Iolo Evans, Iwan Evans, Gareth Pritchard Jones a Kevin Owen. Gellir dewis o saith chwaraewr canol y cae, sef Dai Jones, Terrence Griffiths, Jason Roberts, Robert John Williams, Andrew Griffiths, John Williams a Gareth Wyn Jones. Gwyndaf Jones, Mark Williams, Ian Owen a Dewi Davies yw'r streicars.

Iwan Evans ac Iwan Lloyd Williams yw rheolwyr y tîm.

YSGOL BRYNREFAIL

Yn ystod y mis, bu tîm hoci dan 14 oed yr ysgol ynghyd â thri thîm peldroed a thri thîm pelrwyd yn chwarae yn erbyn disgyblion Ysgol Dyffryn Nantlle ym Mhenygroes ac fe ddaeth llwyddiant iddynt i gyd ac eithrio'r tîm hoci. Bu'n stori wahanol er hynny yn ddiweddarach yn Ysgol Syr Hugh Owen gyda phob un o'r tri thîm peldroed a'r tîm pel rwyd yn colli.

PÊL-DROED

Fe ddewiswyd Gavin Allen i chwarae i dîm dan 15 oed Ysgolion Gogledd Cymru. Yn ystod y mis fe chwaraeodd ar y Cae Ras, Wrecsam yn erbyn ysgolion Manceinion gan ennill o 2 gôl i 0. Bu'n chwarae hefyd mewn gêm yn erbyn bechgyn Lerpwl gan golli o un gôl i ddim. Y mae gêm arall wedi ei threfnu yn erbyn Lerpwl, ac mae Gavin yn edrych ymlaen hefyd at drip i Ddylun i chwarae yn erbyn bechgyn Iwerddon.

Ymhlith sêr eraill yr ysgol y mae Euron Davies o Lanberis, fu'n cynrychioli tîm dan 13 oed Ysgolion Arfon yn erbyn Ysgolion Aberconwy — roedd Ryan Kift o Lanrug hefyd i fod i chwarae ond yn anffodus fe fethodd wneud hynny. Bu Arwel Hughes o Ddeiniolen yn chwarae yn nhrefnal olaf tîm hŷn Ysgolion Gwynedd, ac er na chafodd ei ddewis, deallir iddo gael gêm eitha da ac mae'n ddigon ifanc i gael ei ystyried eto y flwyddyn nesaf.

NOFIO

Ar Hydref 5ed bu Catrin Jones o Lanrug a David Thomas o Ddeiniolen yn nofio ym mhencampwriaethau Ysgolion Gwynedd ym Mangor. Bu Catrin yn fuddugol yn y ras ar y cefn i enethod dan 13 oed ac o ganlyniad bydd yn cynrychioli Ysgolion Gwynedd ym Mhencampwriaethau Cymru.

CWIS MIS TACHWEDD

Dyma atebion cwestiynau mis Hydref:

Eddie Charlton yw'r chwaraewr snwcer fu'n fociwr proffesiynol, a **Paul Newman** yw'r ffilm star ddaeth yn ail yn Le Mans yn 1979. **Jimmy Greaves** sgoriodd 6 'hat-trick' i Chelsea yn nhymor '60-'61 ac ar ynys **Antigua** y ganwyd Viv Richards. Pencampwr **dartiau** y byd oedd Leighton Rees yn 1978 a **Bolton Wanderers** yw'r Trotters. Fe enillodd **Wimbledon** gwpan amatur a chwpan yr FA mewn cyfnod o 25 mlynedd, **Charlotte Brew** oedd y ferch gyntaf i reidio yn y National, **Paris, Llundain a Los Angeles** yw'r dinasoedd sydd wedi cynnal y gemau Olympaidd ddwywaith, ac wrth gwrs, **Tîm India'r Gorllewin** fu'n ddiguro ym mhob gêm gartref rhwng 1978 a 88.

Reit ta, deg arall:

1. Pwy oedd ar gefn Red Rum pan enillodd y Grand National am y ddau dro cyntaf?
2. Pa ddau frawd a chwaraeodd mewn 43 gêm brawf griced gyda'i gilydd?
3. Enwch y ddwy bont y bydd cychod rasio Caergrawnt a Rhydychen yn mynd tanynt yn eu ras flynyddol ar y Tafwys.
4. Ym mha flwyddyn enillodd Barry Sheene bencampwriaeth 500cc y byd am y tro cyntaf?
5. Pwy oedd y Sais a chwaraeodd beldroed dros Gymru yn erbyn Lloegr tra'n 45 mlwydd oed yn 1920?
6. Pwy oedd y cricedwr prawf olaf i chwarae peldroed hefyd dros ei wlad (Lloegr yn 1952)?
7. Ym mha gêm fu'r Toucan Terribles yn bencampwyr Prydain rhwng 1956 a 1975?
8. Pa dîm peldroed Adran Gyntaf aeth 42 o gemau'n olynol heb golli rhwng Tachwedd 1977 a Rhagfyr 1978?
9. Pwy oedd enillydd cyntaf y teitl 'European Footballer of the Year' yn 1956?
10. Pa gyn-bencampwr bocsisio 'light heavyweight' a ddywedir iddo ennill 145 gornest drwy guro ei wrthwynebwyr yn anymwybodol?

SEICLO

Bu'n dymor llwyddiannus iawn eleni eto i Gerallt Bryffdir o Fethel ym myd rasio beiciau. Fel y llynedd, fe enillodd Gystadleuaeth Handicap Clwb Seiclo Eryri (y trydydd tro yn olynol) er i'r rheolau gael eu newid gyda'r bwriad o'i gwneud bron yn amhosibl iddo orchfygu. Fe enillodd 22 o'r 23 treial amser a gynhwysid yn y gystadleuaeth. Deil record y cwrs gydag amser o 22 munud, 45 eiliad. Yn nêd adref fe enillodd y dair ras a gynhaliwyd gan Gymdeithas seiclo Gwynedd, y gyntaf yng Nghaergybi; treial amser 10 milltir, ac fe'i gwnaeth mewn 22 munud, 42 eiliad gan dorri record y cwrs. Yna ennill treial amser 15 milltir yn Rhosmeirch mewn glaw dychrynlyd gydag amser o 38 munud, 54 eiliad. Yna ennill treial amser 10 milltir Dyffryn Conwy mewn 22 munud, 25 eiliad (yn agos iawn i record y cwrs eto).

Uchelbwyntiau eraill oedd dod yn chweched yn y Ras Tair Felir, Sir Fôn, pedwerydd ym Mhencampwriaeth Rasio Ffordd Cymru yn Llandeilo ac wedi hynny cael ei ddewis i reidio dros dîm dan ddeunaw oed Cymru.

Fe ddigwyddodd hynny mewn ras ryngwladol dros ddau ddiwrnod yn Ngwent, gan orffen yn y bedwaredd safle ar bymtheg allan o 120 o reidwyr gorau y wlad hon a gwledydd eraill. Ef oedd y trydydd Cymro mewn tîm o 16 a bydd yn y garfan eto y flwyddyn nesaf.

Daeth yn bymthegfed drwy'r wlad yn nhrefnal amser 25 milltir Cenedlaethol yn Stone, Staffs., gyda'r amser ardderchog o 58 munud, 36 eiliad. Golygodd y ras hon iddo ef a'i dad orfod cychwyn o Fethel am bedwar o'r gloch yn y bore gan fod y gystadleuaeth yn cychwyn am 6.30 y bore.

Eto fel y llynedd fe enillodd y fedal gyntaf mewn treial amser i fyny Bwlch Llanberis gan gwtogi 6 eiliad ar ei record ei hun, gydag amser o 10 munud, 58 eiliad o Nant Peris i'r copa ym Mhen y Pas. O bosibl fe gymer ambell gerbyd modur fwy na hynny!

Eto eleni, fel y llynedd, fe enillodd y fedal gyntaf dan ddeunaw oed mewn treial amser i fyny Bwlch yr Oernant, Llangollen (Horseshoe Pass) gan ddod yn seithfed o'r 106 o reidwyr a oedd yn cystadlu ym mhob oedran. Ei amser oedd 10 munud, 31 eiliad, sef 34 eiliad y tu ôl i'r enillydd, R. Hobbs o Glwb Coldra CC yn y De.

Yn ychwanegol i'w ymdrechion fel aelod o Glwb Rasio Mona, cafodd llwyddiant hefyd ym myd y beiciau

mynydd, wedi iddo ymuno â thîm Dafydd a Siân Roberts — Beics Betws. Daeth yn drydydd mewn ras yn Middlesborough, chweched ym Mhorth Talbot, nawfed yn Stokenchurch ger Llundain a thrydydd wedyn yng Nghlocaenog yn ddiweddar.

Trwy'r gaef bydd yn dilyn cwrs ar rasio ffordd, a gynhelir gan Undeb seiclo Cymru yn Llanellwyr, ac fe obeithia hogs ymhellach ei dalent arbennig o'r herwydd. Dymunwn bob llwyddiant i Gerallt mewn camp sy'n amlwg yn mynnu llawer iawn o allu a dyfalbarhad.



PYSGOTA Adroddiad H. P. Hughes

Dros wythnosau olaf y tymor fe gadwodd lefel y dŵr yn gyson dros y marc troelli, ac ar adegau roedd yr eogiaid fel pe baent yn methu disgwyl i neidio am y bach.

Heb os nac onibai y darn goreu o'r afon yn yr wythnosau olaf oedd rhwng Pontrug a Phont Rhythallt, ple daeth nifer dda i'r lan. Clywais fod James a Steven Carr o Lanrug wedi cael helfa dda, ac ar un prynhawn wedi cael pedwar eog rhyngddynt, i gyd tua 7 bwys. Cafodd James un bendigedig, yn 16 pwys ar ddiwrnod olaf y tymor. Fe fachodd hwn eiliadau ar ôl i Gwynfor Jones, eto o Lanrug, adael yr un pwll am borfa well (neu felly roedd yn meddwl!).

Ymhlith eraill a fu'n llwyddiannus y mae Clifford Thomas o'r Felinheli, dau, eto o fewn rhyw ychydig funudau i'w gilydd, am 9 a 6 phwys; ei fab John, un 8 bwys; Malcolm Owen, Caernarfon, un 14 pwys hefo pluen o dan bont Cwawia; Gwynfor Jones, Bethel, un 10 pwys eto o dan bont Cwawia — mae 'na sôn mai neidio i rwyd Gwynfor wnaeth hwn! Gareth Jones, Bethel, tri tua 7 pwys yr un; C. Hope, Caernarfon, 2, 6 phwys; Ken Hughes, Caernarfon, 2 am 6 phwys; Howard Jones, Caernarfon, 2 am 6 phwys; Oscar Evans, Bethel, 4 tua 8 bwys yr un; Aled Evans, Caernarfon, un 8 bwys; Jeff Binley, Llanberis, un 6 phwys; R. Redmayne, Gaerwen, y cyntaf o'r Seiont iddo ac â'r bluen hefyd yn 6 phwys. Cefais innau un 9 pwys; Elwyn Parry, Bethel y cyntaf iddo, 7 bwys.

Mae si fod Tom Roberts, Penbont, wedi darganfod rheswm newydd dros fynd i 'sgota eog. Yn y fersiwn yma, mae'n rhaid bachu, ac yna gadael i'r sgodyn ddianc! Biti iddo roi ei hun i lawr mor ofnadwy, a hynny ar ôl iddo fedru dal un o'r diwedd!

Ychydig iawn o ddal fu ar y Llyfni a'r Gwyrfa. Yr unig rai y clywyd amdanynt yn bachu ar y Gwyrfa oedd Peter Greasley o'r Waun ac Oscar Evans o Fethel.